

# Dogfen Ymgynghori
2018



PARC CENEDLAETHOL ERYRI
SNOWDONIA NATIONAL PARK

CYNLLLUN ERYRI

CYNLLLUN PARTNERIAETH PARC CENEDLAETHOL ERYRI

# PARC CENEDLAETHOL ERYRI
# SNOWDONIA NATIONAL PARK




Darluniwyd gan
Illustrated by
SARAH EDMONDS

**Darlun y clawr:** Yr olygfa dros Lyn y Mwyngil
**Lluniau:** © Hawlfraint y Goron (Croeso Cymru) oni nodir yn wahanol

# Cynnwys


**Crynodeb** 5

**Cyflwyniad** 7

- Yr ymgynghoriad 8
- Gweithio mewn partneriaeth 11
- Pam bod angen Cynllun Parc Cenedlaethol 12
- Nodweddion arbennig 14
- Sut y caiff Cynllun Eryri ei greu 17
- Strwythyr a chynnwys y cynllun 18
- Rheolaeth gynaladwy o adnoddau'r Parc Cenedlaethol 20
- Parc Cenedlaethol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol 21

**Lle'r ydym ni nawr** 22

- Amgylchedd Eryri 24
- Iechyd a llesiant yn Eryri 46
- Cymunedau ac economi Eryri 62

**Ein gweledigaeth ar gyfer Parc Cenedlaethol Eryri** 78

**Llyfryddiaeth** 83

**Atodiadau** 90

- Atodiad 1 91
- Atodiad 2 92
- Atodiad 3 93

# Eiconau a ddefnyddir yn y ddogfen hon

Bydd yr eiconau defnyddiol hyn yn help i dynnu eich sylw at faterion a gwybodaeth o bwys yn y ddogfen :




**Mater allweddol:** Bydd yr eicon hwn yn tynnu eich sylw at ffeithiau a gwybodaeth allweddol sy'n bwysig o safbwynt Eryri.




**Cyfle allweddol:** Bydd yr eicon hwn yn tynnu eich sylw at ffeithiau a gwybodaeth allweddol sy'n faterion o bwys i Eryri.




**Gwybodaeth ddefnyddiol:** Bydd yr eicon hwn yn tanlinellu gwybodaeth ddefnyddiol neu eglurhâd cryno i'ch helpu i ddeall pwynt yn sydyn a hawdd.




**Cwestiwn ymgynghoriad:** Hoffem dderbyn eich barn ar y materion hyn. Gweler tudalen 9 am sut a ble i ymateb.

# Trosolwg

**Ar hyn o bryd mae'r Parc Cenedlaethol a'i bartneriaid wrthi'n gweithio gyda'i gilydd i greu Cynllun Rheoli Partneriaeth newydd. Bydd yn nodi sut byddwn ni a'r rhai hynny sydd â diddordeb neu sy'n gyfrifol am ofalu am y Parc Cenedlaethol, yn cydweithio er mwyn mynd i'r afael â materion sy'n bwysig i ni, yn ogystal â pharhau i adeiladu ar yr hyn sy'n gweithio'n dda. Mae'r ddogfen hon yn cyflwyno rhai syniadau a data cychwynnol ar y materion a'r heriau allweddol sy'n wynebu'r Parc Cenedlaethol, a chaiff eich ymateb i'r cwestiynau o fewn y ddogfen hon eu ddefnyddio i ffurfio Cynllun Eryri.**

Bydd y cynllun terfynol yn nodi sut byddwn yn cydweithio i ofalu am ardal Parc Cenedlaethol Eryri ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Bydd yn ein galluogi i osod cyfeiriad clir a chynlluniau ar gyfer dyfodol yr ardal yn benodol mewn perthynas â phwrpasau craidd y Parciau Cenedlaethol. Bydd yn caniatáu i ni a'n partneriaid ganolbwyntio'n glir ar dargedu ein hadnoddau er mwyn mynd i'r afael â'r materion allweddol sy'n effeithio ar yr ardal, ynghyd â'r cyfleoedd y gallwn fanteisio arnynt.

Mae'r ddogfen ymgynghorol gychwynnol hon yn rhoi trosolwg o'r data sydd gennym eisoes, mae'n nodi'r darlun presennol a'n gweledigaeth ar gyfer y dyfodol, ac yn diffinio'n glir yr hyn sy'n gwneud Eryri yn arbennig (ei "rhinweddau arbennig"). Mae'n nodi beth yw'r materion a'r cyfleoedd mawr sy'n wynebu'r Parc Cenedlaethol yn y blynyddoedd i ddod.

Mae Parciau Cenedlaethol yn ddynodiadau cenedlaethol, wedi eu sefydlu drwy ddeddfwriaeth, a'u diffinio gan bwrpasau'r Parc Cenedlaethol. Mae Adran 62 (2) Deddf yr Amgylchedd 1995 yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod perthnasol roi sylw i bwrpasau'r Parc Cenedlaethol yn eu holl waith yn y Parciau.

Gyda'i gilydd, mae'r ddau ffactor hyn yn golygu bod **Cynllun Eryri** o bwysigrwydd cenedlaethol. Mae ei amcanion a'i bolisïau felly'n gorchfygu polisïau rhanbarthol a lleol pan fyddan nhw'n cael eu gwireddu yn y Parc Cenedlaethol. Yn wir, dylid adlewyrchu gorchmynion pwrpasau'r Parc Cenedlaethol yn y Cynlluniau eraill hyn.

Mae'r Cynllun yn cyd-fynd â Chynllun Datblygu Lleol Eryri (CDLl). Mae'r cynlluniau yn rhannu'r un weledigaeth ac mae'r CDLl yn ceisio cyflawni elfennau gofodol **Cynllun Eryri**. Er nad dogfen cynllunio defnydd tir ydyw, gellir ei defnyddio, ar y cyd â'r CDLl, fel dogfen berthnasol i lywio penderfyniadau cynllunio yn Eryri.

Pan gaiff ei weithredu bydd **Cynllun Eryri** yn helpu i gyflawni pwrpasau'r Parc Cenedlaethol ac i gyflawni nifer o amcanion polisi, nodau a blaenoriaethau cenedlaethol Llywodraeth Cymru. Y rhai mwyaf arwyddocaol o'r rhain yw Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd.

**Y prif feysydd y byddwn yn canolbwyntio arnynt yn y ddogfen ymgynghori hon ac yn y cynllun terfynol yw Amgylchedd, Iechyd a lles a Chymunedau ac Economi Eryri. Mae'r tri maes hwn wedi'u cysylltu'n agos â phwrpasau craidd y Parciau Cenedlaethol (gw. tud. 21).**

Yn ystod y flwyddyn diwethaf, wrth gyflawni gwaith ymgynghorol cychwynnol, mi gawsom argraff o'r materion a'r cyfleoedd sy'n effeithio ar yr ardal hon. Buom yn ymweld â digwyddiadau a sioeau, siarad â chynghorau cymuned, cynnal arolwg ar-lein a chynnal trafodaethau manwl a gweithdai gyda'n partneriaid. **Cyflwynir y canlyniadau i chi yma yn y ddogfen ymgynghori hon a'r gobaith yw y bydd yn sbarduno mwy o drafodaethau a syniadau pellach ar y ffordd ymlaen.**

Un o'r prif faterion a amlygwyd wrth drafod **Amgylchedd** y Parc Cenedlaethol ydi'r dirywiad parhaus mewn bioamrywiaeth a'r ffactorau sy'n effeithio ar hyn. Codwyd cwestiynau mawr am gyflwr anffafriol llawer o'r safleoedd gwarchodedig o fewn y Parc Cenedlaethol, yn ogystal â'u natur darniog, a chyflwr dirywiol ein safleoedd a'n hadeiladau hanesyddol. Er ei fod yn fater byd-eang, drwy drafodaethau a data, amlygwyd effeithiau newid hinsawdd ar yr ardal yn gyson, yn benodol effaith stormydd amlach ar gynefinoedd yn ogystal ag erydiad ar ein llwybrau yn yr ucheldir yn gwaethygu. Trafodwyd hefyd

y rôl y gallasai Eryri ei chwarae i liniaru hyn drwy storio carbon yn ein mawndiroedd helaeth a thrwy gynhyrchu ynni gwyrdd. Yn gysylltiedig â newid hinsawdd hefyd mae lledaeniad rhywogaethau ymledol.

Ond yn amlwg, y pwnc a allai effeithio ar dirweddau ac amgylchedd y Parc yn ystod y blynyddoedd nesaf, yn ddi-os yw Brexit; boed yn effeithiau posibl ar newidiadau mewn defnydd tir neu'r dirywiad mewn argaeledd cyllid ar gyfer prosiectau cadwraeth ar raddfa fawr.

Mae **Iechyd a Llesiant** wedi eu cysylltu'n agos ag ail bwrpas y Parc Cenedlaethol, ac yn ystod y trafodaethau, codwyd nifer o faterion yn ogystal â rhai cyfleoedd mawr. Mae pryder penodol ynglŷn â chanfod y cydbwysedd rhwng pobl sy'n ymweld a mwynhau'r Parc â'r effaith maent yn ei gael ar ei amgylchedd, megis erydiad llwybrau, problemau parcio a sbwriel, a gwmpasir gan Egwyddor Sandford (gw. tud. 12). Yn ychwanegol at y mater hwn mae'r arian sydd ar gael i liniaru'r effeithiau hyn yn parhau i leihau.

Yn ogystal â hyn mae wir angen newid pwyslais ar y ffordd yr ydym yn siarad, marchnata a hyrwyddo Eryri, gan ganolbwyntio mwy ar ei nodweddion arbennig (gw. tud. 14-15), ac yn arbennig annog parch a dealltwriaeth am ddiwylliant, iaith a thraddodiadau'r ardal, yn ogystal â'r cod cefn gwlad.

Teimlai llawer fod yna gyfleoedd mawr i wella mwynhad, defnydd a dealltwriaeth pobl leol o'r Parc Cenedlaethol. Yn arbennig, gellid manteisio ar y buddion cadarnhaol y gallai'r amgylchedd eu cael ar les pobl (gw. tud. 46-47). Gallai hyn fod yn newid sylweddol yn ein ffocws o ran darpariaeth hamdden, gyda photensial i roi mwy o bwyslais ar anghenion a buddiannau pobl leol gan gynnwys datblygu mwy o lwybrau a llwybrau aml-ddefnyddwyr o bentrefi a threfi a rhwng trefi, a gweithio gyda byrddau iechyd i ddatblygu prosiectau rhagnodi cymdeithasol. Mae'r ffordd yr ydym yn ymgysylltu â phobl trwy ddarparu gwybodaeth hefyd yn allweddol, gyda llawer mwy o bwyslais ar wybodaeth ddigidol.

Y trydydd thema allweddol yw Economi a chymunedau'r Parc Cenedlaethol. Roedd hon yn thema gyson a gododd yn ystod y trafodaethau ac yn benodol pobl ifanc yn ymfudo o'r ardal oherwydd diffyg swyddi o safon uchel a thai fforddiadwy, a'r effaith ar iaith a diwylliant yr ardal yn eu sgil. Mae gan y Parc Cenedlaethol ddyletswydd i "feithrin lles economaidd a chymdeithasol cymunedau lleol". Fodd bynnag, dim ond yng nghyd-destun ein dau brif bwrpas yw hyn - o ddiogelu'r amgylchedd a hybu cyfleoedd i fwynhau'r Parc Cenedlaethol. Felly, mae'r trafodaethau a'r data o amgylch maes y pwnc hwn wedi ei anelu at ganolbwyntio ar y sut gall enillion economaidd a chymdeithasol elwa o'r amgylchedd a mwynhad pobl ohoni.

Yn y cyd-destun hwn, rydym yn archwilio cyfleoedd ar gyfer twf busnesau yn y sector amgylcheddol, yn ogystal â chyfleoedd i bobl sefydlu busnesau digidol yn y Parc Cenedlaethol a fyddai'n eu galluogi i greu busnes gweledol anymwthiol wrth fwynhau amgylchedd anhygoel Eryri.

**Yn ystod yr ymgynghoriad, hoffem archwilio yn fanwl yr heriau a wynebir gan y Parc Cenedlaethol, a chynnwys cynulleidfa eang o bobl leol, busnesau, rhanddeiliaid ac arbenigwyr mewn trafodaethau er mwyn dod o hyd i gyfleoedd a datrysiadau go iawn ar gyfer y dyfodol fydd i'w gynnwys yn y cynllun terfynol.**

**Mae Cynllun Eryri yn adlewyrchu newid sylweddol yn yr ymagwedd a gymerwyd gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol er mwyn creu cynllun ar gyfer rheoli Eryri.**

Mae'r cynllun yn cael ei ddatblygu yng ngwir ysbryd partneriaeth. Rydym yn cydweithio'n agos i ddatblygu **Cynllun Eryri**, nid yn unig gyda sefydliadau sydd â chyfrifoldebau statudol, ond gyda'r holl sefydliadau sy'n gofalu am Eryri ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Drwy weithio gyda'n gilydd gallwn gyflawni pethau gwych.

Hoffem gael eich barn ar y wybodaeth a'r syniadau a gyflwynir yn y ddogfen hon, fel y gallwn sicrhau ein bod yn llunio'r cynllun gorau ar gyfer dyfodol Parc Cenedlaethol Eryri. Bydd cael adborth a syniadau yn y cyfnod cynnar hwn yn sicrhau y gall rhanddeiliaid helpu i lunio cynnwys a chyfeiriad y cynllun terfynol.

**Caiff canlyniadau'r adborth ar y ddogfen hon, ynghyd â'r gweithgareddau eraill yr ydym wedi'u cynllunio ar gyfer yr ymgynghoriad cychwynnol yn yr haf, ei ddefnyddio i lunio Cynllun Eryri.**

# Cyflwyniad

O fewn yr adran hon cewch wybodaeth am

- Yr ymgynghoriad
- Gweithio mewn partneriaeth
- Pam bod angen Cynllun Parc Cenedlaethol
- Nodweddion arbennig
- Sut caiff **Cynllun Eryri** ei greu
- Parc Cenedlaethol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol
- Rheolaeth gynaladwy o adnoddau'r Parc Cenedlaethol

# Ynglŷn â'r Ymgynghoriad



## Cynhelir yr ymgynghoriad hwn rhwng Gorffennaf 9 a Medi 30, 2018

Mae Cynllun Rheoli Parc Cenedlaethol Eryri **(Cynllun Eryri)** yn ddogfen bwysig o safbwynt dyfodol Parc Cenedlaethol Eryri. Mae'n nodi sut fydd pawb yn cydweithio er mwyn gwarchod Parc Cenedlaethol Eryri ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Yn y ddogfen ymgynghori hon rydym yn darlunio'r sefyllfa'r bresennol ac yn disgrifio'r weledigaeth sydd gennym ar gyfer y dyfodol. Rydym yn nodi beth yw problemau a'r cyfleoedd fydd yn wynebu'r Parc Cenedlaethol yn y blynyddoedd sydd i ddod. Rydym hefyd yn awgrymu sut rydym yn bwriadu cynllunio ar gyfer mynd i'r afael â'r rhain a gwneud y mwyaf o bob cyfle.

GWYBODAETH DDEFNYDDIOL

*O fewn y ddogfen hon ac mewn unrhyw ddogfennau ddilynol, byddwn yn cyfeirio at Gynllun Rheolaeth y Parc Cenedlaethol fel "**Cynllun Eryri**".*

## I bwy mae'r ymgynghoriad hwn

Rydym eisiau barn gan bawb sydd â diddordeb yn y Parc Cenedlaethol. Os ydych chi'n byw yma, yn gofalu am, yn gweithio yn neu yn ymweld yn rheolaidd ag Eryri, mae eich barn yn bwysig i ni.

CWESTIWN YMGHYNGHORIAD

*Hoffem dderbyn eich sylwadau ar y wybodaeth a'r awgrymiadau yn y ddogfen hon, er mwyn sicrhau ein bod yn creu'r cynllun gorau ar gyfer dyfodol Parc Cenedlaethol Eryri. Bydd y marc cwestiwn hwn yn ymddangos yn aml yn y ddogfen a gwerthfawrogwn petaech yn lleisio eich barn wrthym.*




# Sut i ymateb

**I roi eich ymateb, gallwch ddewis:**

Cwblhau'r holiadur ar-lein ar wefan y Parc Cenedlaethol: **www.eryri.llyw.cymru/home**

**neu**

Cwblhau ffurflen ymateb a'i e-bostio neu ei phostio atom ni. Gellir lawrlwytho ac argraffu ffurflenni oddi ar ein gwefan, neu gallwn anfon copi i chi drwy'r post. I lawrlwytho ffurflen, ewch i'n gwefan: **www.eryri.llyw.cymru/home** neu i archebu copi papur drwy'r post, ffoniwch neu ebostiwch bencadlys y Parc Cenedlaethol ar (01766) 770274. Unwaith i chi gwblhau'r ffurflen, gallwch ei e-bostio yn ôl i ni: **parc@eryri.llyw.cymru** neu ei hanfon drwy'r post i: ***Parc Cenedlaethol Eryri, Swyddfa'r Parc Cenedlaethol, Penrhyndeudraeth, Gwynedd, LL48 6LF***.

**Y dyddiad olaf ar gyfer derbyn ymatebion yw Dydd Gwener Medi 21ain. Yn anffodus, ni allwn ystyried unrhyw ymatebion a ddaw i law ar ôl y dyddiad cau.**

# Beth sy'n digwydd nesaf?

Ar ddiwedd y cyfnod ymgynghori byddwn yn casglu ac yn trafod yr holl sylwadau a dderbyniwyd ac yn cyhoeddi adroddiad ar yr ymgynghoriad hwn. Byddwn yn defnyddio'r adroddiad i ffurfio a hyrwyddo **Cynllun Eryri** . Gobeithiwn gynnal ymgynghoriad ar y cynllun terfynol yn 2019. Gellir canfod manylion pellach ar y broses ar dudalen 15.

**Byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ar y broses i randdeiliaid trwy gyfrwng newyddlen reolaidd. Os ydych yn awyddus i gael eich cynnwys ar y rhestr bostio, byddwch cystal â rhoi gwybod i ni.**

# Diogelu data

Defnyddir y manylion a roddwch mewn ymateb i'r ymgynghoriad ar gyfer materion yn ymwneud â **Chynllun Eryri** yn unig. Gallwch ofyn am gael gweld gwybodaeth bersonol a gedwir gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri unrhyw adeg.


**Bwlch Ardudwy:** ©Jan Davies

# Gweithio mewn Partneriaeth

Mae **Cynllun Eryri** yn adlewyrchu newid sylweddol yn yr ymagwedd a gymerwyd gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol er mwyn creu cynllun ar gyfer rheoli Eryri. Mae'r cynllun yn cael ei ddatblygu yng ngwir ysbryd partneriaeth. Rydym yn cydweithio'n agos i ddatblygu **Cynllun Eryri**, nid yn unig gyda sefydliadau sydd â chyfrifoldebau statudol, ond gyda'r holl sefydliadau sy'n gofalu am Eryri ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Drwy weithio gyda'n gilydd gallwn gyflawni pethau gwych.

Mae Eryri'n denu cannoedd o filoedd o ymwelwyr bob blwyddyn sy'n mwynhau'r tirweddau anhygoel a'r cyfoeth o weithgareddau awyr agored sydd ar gael. Nod Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yw gwarchod a gwella'r harddwch naturiol, y bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol yr ardal, hyrwyddo cyfleoedd i ddeall a mwynhau ei nodweddion arbennig a meithrin lles economaidd a chymdeithasol ei chymunedau.

Cyngor Gwynedd sy'n gyfrifol am ddarparu'r holl wasanaethau llywodraeth leol yn sir Gwynedd, gan gynnwys addysg, gwaith cymdeithasol, gwarchod yr amgylchedd a'r rhan fwyaf o'r priffyrdd.

Diben Cyfoeth Naturiol Cymru yw sicrhau bod adnoddau naturiol yn cael eu rheoli'n gynaliadwy yn ei holl waith. Mae hynny'n golygu gofalu am aer, tir, dŵr, bywyd gwyllt, planhigion a phridd i wella lles Cymru ac i ddarparu dyfodol gwell i bawb. Ei ddiben yw sicrhau bod adnoddau naturiol Cymru yn cael eu cynnal, eu gwella a'u defnyddio'n gynaliadwy yn awr ac yn y dyfodol.

Mae Cymdeithas Eryri wedi gweithio ers 50 mlynedd i warchod a gwella harddwch a nodweddion arbennig Eryri er budd pawb yn awr ac yn y dyfodol.

Iechyd Cyhoeddus Cymru yw'r asiantaeth iechyd cyhoeddus cenedlaethol yng Nghymru ac mae'n bodoli i warchod a gwella iechyd a lles a lleihau anghydraddoldebau iechyd i bobl yng Nghymru. Mae'r rhan o'r GIG ac yn atebol i Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Lles a Chwaraeon yn Llywodraeth Cymru.

Cyngor Bwrdeisdref Sirol Conwy sy'n gyfrifol am ddarparu'r holl wasanaethau llywodraeth leol yn sir Conwy, gan gynnwys addysg, gwaith cymdeithasol, gwarchod yr amgylchedd a'r rhan fwyaf o'r priffyrdd.

Un Llais Cymru yw'r prif gorff ar gyfer cynghorau cymuned a thref Cymru, ac mae'n sicrhau llais cryf i gynrychioli diddordebau'r cynghorau a darparu ystod o wasanaethau o safon i gefnogi eu gwaith. Ffurfiwyd Un Llais Cymru ym mis Ebrill 2004 o'r ddau brif gorff blaenorol: NALC Cymru, a Chymdeithas Cynghorau Bro a Thref Cymru.

Wedi'i sefydlu yn 2004, cwmni partneriaeth cymunedol elusennol yw y Bartneriaeth Awyr Agored sy'n newid bywydau trwy gynnal gweithgareddau yn yr awyr agored ac yn ysbrydoli pobl yr ardal i gymryd rhan trwy gyfranogi, addysg, gwirfoddoli a chyflogaeth er mwyn gwella elfennau iechyd, cymdeithasol ac economaidd.

GWYBODAETH DDEFNYDDIOL

Rydym yn gweithio'n agos i ddatblygu Cynllun Eryri nid yn unig gyda chyrff sydd a chyfrifoldebau statudol, ond â phob sefydliad sy'n ymwneud mewn rhyw fodd neu gilydd i edrych ar ôl Eryri ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Cadw yw gwasanaeth amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cymru, sy'n gweithio i sicrhau amgylchedd hanesyddol hygyrch a ddiogelir yn dda i Gymru.

- Mae'n diogelu treftadaeth Cymru
- Mae'n helpu pobl i ddeall ac i ofalu am eu hanes
- Mae'n helpu i gynnal cymeriad unigryw Cymru

Mae Undeb Amaethwyr Cymru yn cynrychioli tirfeddianwyr a thenantiaid sy'n ffermio yng Nghymru. Mae'r Undeb yn ceisio sicrhau'r dyfodol mwyaf ffyniannus posibl i'w aelodau, eu teuluoedd a'r cymunedau gwledig y maen nhw'n byw ynddynt.

Mae NFU Cymru'n cynrychioli ffermwyr, rheolwyr a phartneriaid busnesau amaethyddol gan gynnwys rhai â diddordeb mewn ffermio a chefn gwlad.

Elusen gadwraethol yw'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol a sefydlwyd ym 1895 i ofalu am fannau arbennig, am byth, i bawb.

Fel arbenigwyr mewn busnes, mae fsb yn cynnig ystod eang o wasanaethau busnes hanfodol i aelodau, gan gynnwys cyngor, arbenigedd ariannol, cefnogaeth a llais pwerus yn y llywodraeth. Ei genhadaeth yw helpu busnesau llai i gyflawni eu huchelgais.

Menter gymdeithasol ac ymgynghoriaeth greadigol yw Eryri Bywiol. Fe'i sefydlwyd yn 2001 gyda'r nod o gefnogi a datblygu'r sector awyr agored yng ngogledd-orllewin Cymru.

Nod yr Urdd yw sicrhau cyfle, trwy gyfrwng y Gymraeg, i holl ieuenctid Cymru ddatblygu'n unigolion cyflawn a'u galluogi i chwarae rhan adeiladol yn y gymdeithas gan feithrin sgiliau personol a chymdeithasol.

Croeso Cymru sy'n gofalu am bolisi twristiaeth, yn annog buddsoddiad, yn gwella ansawdd profiadau ymwelwyr â Chymru. Croeso Cymru hefyd sy'n gyfrifol am farchnata Cymru yn y DU ac yn rhyngwladol.

Wedi'i sefydlu ym 1884, mae gan Brifysgol Bangor draddodiad hir o ragoriaeth academaidd ac mae'n mynd y tu hwnt i ddisgwyliadau o ran profiad myfyrwyr. Mae tua 11,000 o fyfyrwyr yn astudio yn y Brifysgol, gyda 650 o staff dysgu wedi eu lleoli o fewn tri ar hugain o ysgolion academaidd.

Ffurfiwyd Tegwch yr Ucheldiroedd (F4U) yn 2014. Ffurfiwyd y grŵp a chaiff ei gefnogi'n ariannol gan ffermwyr yng Nghymru.

Bwriad Grŵp Llandrillo Menai yw cefnogi economi gogledd Cymru drwy roi i'r bobl leol y sgiliau a'r cymwysterau sy'n angenrheidiol i sicrhau bod y rhanbarth yn gystadleuol ac yn llwyddiannus. Mae'r amrywiaeth eang o gyrsiau, y profiadau dysgu o safon uchel, y cyfleusterau penigamp a'r staff amryddawn sydd gan y Grŵp oll yn cyfrannu at gyflawni'r nodau hyn.

Gyda dros 24,500 o aelodau a 619 o glybiau, Ffederasiwn Cenedlaethol Clybiau Ffermwyr Ifanc (NFYFC) yw un o'r sefydliadau ieuenctid gwledig mwyaf yn y DU.

Mae'r CLA yn sefydliad sy'n agored i aelodaeth gan berchnogion tir a busnesau yng Nghymru a Lloegr. Mae'n gwarchod buddiannau tirfeddianwyr, ac mae ei haelodau'n berchen ar ac yn rheoli hanner tir gwledig Cymru a Lloegr.

# Pam ein bod angen Cynllun Parc Cenedlaethol

Mae **Cynllun Eryri** yn ddogfen bwysig o safbwynt dyfodol  Parc Cenedlaethol Eryri. Mae'n nodi sut bydd pawb yn cydweithio er mwyn gwarchod Parc Cenedlaethol Eryri ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol - o'r pwynt mwyaf Gogleddol lle mae'r mynyddoed yn cyfarfod y mor ger Penmaen-bach, i'r pentref mwyaf deheuol sef Aberdyfi.

## Ar gyfer pwy mae Cynllun Eryri?

Mae'r cynllun ar gyfer sefydliadau cyhoeddus sydd gan ddyletswyddau statudol yn Eryri[1]; cyrff sector wirfoddol perthnasol; yn ogystal â thirfeddianwyr, cymunedau a busnesau preifat. Mae gan rhain oll gyfraniad hanfodol i'r gwaith o reoli Eryri

### *Materion cyfreithiol*

Yn unol â deddfwriaeth, mae disgwyl i Awdurdod y Parc Cenedlaethol, gyda chymorth pawb sy'n yn ymwneud â dyfodol Eryri, baratoi cynllun rheoli effeithlon ar gyfer ardal ddaearyddol y Parc Cenedlaethol. Mae'r cynllun yn darparu fframwaith polisi strategol fel y gall sefydliadau perthnasol gydymffurfio'n llawn â'u cyfrifoldeb statudol i roi sylw i ddibenion y Parc Cenedlaethol wrth iddynt gyflawni eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau o dan adran 62 (2) o Ddeddf yr Amgylchedd 1995. Ar dudalenau 18-19 rydym yn gosod allan strwythyr a chynnwys arfaethedig y cynllun.

### *Rôl Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (APCE)*

Rôl ganolog APCE yw adnabod y camau angenrheidiol i gyflawni amcanion y Parc Cenedlaethol. Mae hyn yn cynnwys y gofyn cyfreithiol i baratoi **Cynllun Eryri** ar gyfer y Parc Cenedlaethol. Felly APCE yw'r sefydliad sydd yn gyfrifol am yrru'r cynllun yn ei flaen ac am ddod â'r holl sefydliadau eraill at ei gilydd i gyflawni hyn.

### *Beth ydy Parc Cenedlaethol?*

Rhannau arbennig o'n gwlad yw'r Parciau Cenedlaethol, sy'n cael eu diogelu ar sail eu tirwedd hardd, eu bywyd gwyllt a'u treftadaeth ddiwylliannol. Hwy yw trysorau naturiol Cymru a'r DU. Hwy hefyd yw'r enghreifftiau mwyaf trawiadol a rhyfeddol o harddwch garw a naturiol y wlad. Maent yn gartef i'n cynefinoedd a'n bywyd gwyllt mwyaf arbennig. Maent yn dirweddau byw a bywiog – lle mae treftadaeth rhwng pobl a natur yn rhan o'r hyn sy'n gwneud yr ardaloedd mor arbennig. Maent yn fannau lle gellir cael mwynhâd, heddwch ac antur ynddynt ac yn fannau sy'n gwneud i ni deimlo'n fyw.

### *Amcanion y Parciau Cenedlaethol*

Mae nodau ac amcanion y Parciau Cenedlaethol wedi'u nodi o dan Adran 61 o Ddeddf Amgylchedd 1995. Y ddau fwriad statudol a'r arweiniad ar gyfer dyfodol y Parciau Cenedlaethol yw:

1. Gwarchod a gwella'r harddwch naturiol, y bywyd gwyllt a'r dreftadaeth ddiwylliannol.
2. Hyrwyddo cyfleoedd i'r cyhoedd ddeall a mwynhau rhinweddau arbennig y Parciau Cenedlaethol.

Wrth i'r Parciau Cenedlaethol gyflawni'r dibenion hyn, mae ganddynt ddyletswydd hefyd :

- I geisio meithrin lles economaidd a chymdeithasol y cymunedau lleol sydd o'u mewn.

Pan fydd yr amcanion yn gwrthdaro, yna dylid defnyddio **Egwyddor Sandford** er mwyn rhoi pwysau ychwanegol ar warchod yr amgylchedd.

### *Y berthynas â gwahanol Gynlluniau, Strategaethau a Deddfwriaeth*

Mae Parciau Cenedlaethol[2] yn ddynodiadau cenedlaethol, wedi eu sefydlu trwy ddeddf ac wedi eu diffinio gan amcanion Parciau Cenedlaethol. Mae Adran 62(2) o Ddeddf Amgylchedd 1995 yn mynnu bod yr holl awdurdodau perthnasol yn rhoi sylw i ddibenion Parciau Cenedlaethol  gydol eu holl waith o fewn y Parciau.

O ystyried y ddau ffactor gyda'i gilydd, mae Cynllun Eryri o bwysigrwydd cenedlaethol. Felly bydd amcanion a pholisïau Cynllun Eryri yn rhagori ar bolisïau rhanbarthol a lleol[3] wrth iddynt gael eu gweithredu yn y Parc Cenedlaethol. Yn wir, dylid adlewyrchu amcanion y Parc Cenedlaethol yn y Cynlluniau eraill hyn.

### *Perthynas gyda'r Cynllun Datblygu Lleol*

Mae **Cynllun Eryri** yn cyd-fynd â Chynllun Datblygu Lleol Eryri (CDLl). Mae'r cynlluniau yn rhannu'r un weledigaeth  ac mae'r CDLl yn ceisio cyflawni elfennau **Cynllun Eryri**. Er nad yw'n ddogfen gynllunio defnydd tir, gellir ei ddefnyddio ar y cyd â'r CDLl, fel dogfen berthnasol i oleuo penderfyniadau cynllunio yn Eryri.

### *Cyfrannu tuag at Bolisi Cenedlaethol*

Pan gaiff ei weithredu, bydd **Cynllun Eryri** o gymorth i gyflawni a phenderfynu ar nifer o amcanion, nodau a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Y mwyaf arwyddocaol o'r rhai hyn yw Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd.

GWYBODAETH DDEFNYDDIOL

***Yr hyn a olygir gan Egwyddor Sandford:***

*Os oes gwrthdaro rhwng diogelu'r amgylchedd a rhyddid pobl i fwynhau'r amgylchedd, a bod rheolwyr yn methu â'i ddatrys, yna diogelu'r amgylchedd sydd yn derbyn blaenoriaeth bob tro.*

| **NODAU A BLAENORIAETHAU CENEDLAETHOL** | **PWRPASAU'R PARC CENEDLAETHOL** | | **DYLETSWYDD** |
|---|---|---|---|
| | Gwarchod yr amgylchedd | Deall a mwynhau | Economaidd a chymdeithasol |
| **Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 - amcanion** | | | |
| Cymru lewyrchus | x | x | x |
| Cymru gadarn | x | | x |
| Cymru iachach | x | x | x |
| Cymru fwy cyfartal | | x | x |
| Cymru gyda chymunedau cydlynol | | x | x |
| Cymru gyda diwylliant bywiog a iaith Gymraeg | | x | x |
| Cymru gyfrifol yn fydeang | x | x | |
| **Deddf yr Amgylchedd(Cymru) 2016 – blaenoriaethau cenedlaethol** | | | |
| Cyflawni atebion ar sail natur | x | x | x |
| Cynyddu ynni adnewyddadwy ac effeithi-olrwydd adnoddau | x | | x |
| Gweithredu mewn ffordd sy'n seiliedig ar leoedd | x | x | x |

[1] Gellir gweld rhestr o'r sefydliadau sydd â dyletswyddau statudol yn Atodiad 2.
[2] CCG, (2007). Cynlluniau Parciau Cenedlaethol – Canllawiau. CCG
[3] Gellir gweld diagram yn dangos y berthynas rhwng Cynllun Eryri â chynlluniau, strategaethau a dogfennau deddwriaeth eraill yn Atodiad 1.

Llyn Cregennan ©Ian Davies

# Beth sy'n gwneud Eryri yn arbennig?

## Beth yw ei rhinweddau arbennig?


Felly beth sy'n gwneud Eryri yn unigryw? Beth sy'n gwneud Eryri'n drawiadol? Beth sy'n gwneud Eryri yn arbennig ac yn wahanol i ardaloedd eraill y DU a'r byd? Beth ydy rhinweddau arbennig Eryri?

Mae adnabod beth sy'n gwneud Eryri yn arbennig yn ein helpu i ddeall beth ddylid ei warchod a'i wella. Mae o gymorth i ni adeiladu cynnwys y cynllun hwn fel y gallwn fod yn sicr ein bod oll yn gweithio gyda'n gilydd i warchod a gwella'r hyn sy'n gwneud Eryri yn arbennig.

### Ar gyfer pawb

**Cyfleoedd digonol ar gyfer chwaraeon, hamdden a dysgu i bobl o bob oed a gallu.**





### Cymunedau bywiog



**Y teimlad cryf o gydlyniad cymunedol, perthyn a bywiogrwydd sy'n yn cyfuno i roi naws am le cadarn.**

### Amgylchedd hanesyddol sy'n adlewyrchu canrifoedd o fyw a gweithio

**Tirweddau a threfweddau sy'n adlewyrchu gweithredoedd pobl dros y canrifoedd, o'r cyfnod Neolithig hyd heddiw. Mae hyn yn amlwg mewn olion archaeolegol, enwau lleoedd a chaeau, hanes ysgrifenedig ar lafar ac arferion rheoli tir presennol. Adlewyrchir treftadaeth bensaernïol Eryri yn nifer yr adeiladau rhestredig a'r amgylchedd hanesyddol ehangach.**



### Bywyd gwyllt o bwysigrwydd byd-eang

**Bioamrywiaeth sydd yn adlewyrchu gwahanol dirweddau, daeareg, arferion rheoli tir a hinsawdd. Mae rhai rhywogaethau a chynefinoedd o bwysigrwydd cenedlaethol a rhyngwladol, er enghraifft rhywogaethau sydd wedi goroesi ers Oes yr Iâ ddiwethaf ac yn rhoi i ni gipolwg ar gynefinoedd lled-Arctig. Eryri yw'r lle mwyaf deheuol yn y DU lle ceir nifer o rywogaethau prin.**

## Daeareg Byd-eang

Daeareg gymhleth ac enwog, sydd wedi bod yn hanfodol yn y dasg o ddeall disgyblaethau daeareg a daearyddiaeth yn fyd-eang.

Cymraeg

## Bywiogrwydd yr Iaith Gymraeg

fel y brif iaith yn gymdeithasol a phroffesiynol. Mae'r agwedd hon yn amlwg mewn enwau lleoedd lleol ac yn adlewyrchu treftadaeth ddiwylliannol yr ardal.




## Ardal ar gyfer antur a mwynhad

Mae'n cynnig cyfle i bobl ddeall a mwynhau'r Parc Cenedlaethol yn weithredol, ond ar yr un pryd yn diogelu ardaloedd o dawelwch ac unigrwydd, a thrwy hynny yn hyrwyddo pob agwedd ar iechyd, llês a mwyniant personol.



## Popeth mewn un lle

Ardal ddaearyddol fechan yn cynnwys ystod o dirweddau o ansawdd uchel ac ardaloedd arfordirol, yn amrywio o'r traethau i'r ucheldiroedd creigiog y mae Eryri yn enwog amdanynt.



## Ysbrydoliaeth

Ardal sydd wedi rhoi ysbrydoliaeth i ddiwylliant, llên gwerin, llenyddiaeth a cherddoriaeth mwyaf nodedig y genedl, sy'n parhau i ddylanwadu hyd heddiw.

GWYBODAETH DDEFNYDDIOL

*Cafodd y diffiniad hwn o rinweddau arbennig Eryri ei greu'n ofalus yn ystod y broses o baratoi'r cynllun rheoli blaenorol, gyda mewnbwn sylweddol gan randdeiliaid. Mae hefyd wedi'i ymgorffori'n ddwfn o fewn y Cynllun Datblygu Lleol. Nid ydym yn bwriadu diwygio'r testun Rhinweddau Arbennig hwn.*



**Afon Mawddach:** ©Jan Davies

# Sut caiff **Cynllun Eryri** ei greu

Isod, mae crynodeb bras o'r broses y byddwn yn ei dilyn wrth greu **Cynllun Eryri**. Bydd cyfleoedd rheolaidd i ddarparu gwybodaeth a mewnbwn drwy Weithgor Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, fforwm partneriaethau y Parc Cenedlaethol, sef **Fforwm Eryri** ac is-grwp o'r Fforwm Cydraddoldeb a ffurfiwyd yn arbennig ar gyfer y pwrpas hwn. Rydym hefyd yn rhoi cyfle i staff y Parc Cenedlaethol roi mewnbwn a darparu gwybodaeth drwy gyfrwng cyfarfodydd rheolaidd, ac fe gyhoeddir cylchlythyr misol i'n holl rhanddeiliaid.

**Gweithdy penaethiaid gwasanaeth**
**Rhagfyr 2016**
______________
Gweithdy cyfarfod holl staff APCE
Tachwedd 2016

→

**Gweithdy Fforwm Eryri**
Gyda phartneriaid sy'n gweithredu yn y Parc Cenedlaethol
**Hydref 2016**

→

**Cofrestr Rhanddeiliaid**
Creu cofrestr o'r holl randdeiliaid
**Gwanwyn 2017**
______________
**Cynllun Cyfathrebu**
Creu cynllun ar gyfer cyfathrebu a digwyddiadau yn ystod yr ymgynghoriad
**Gwanwyn 2017**

→

**Cyfnod Casglu Tystiolaeth**
Adroddiad Cyflwr y Parc- Ymchwilio a chasglu data ar faterion allweddol
**Gwanwyn - Haf 2017**

↓

**Sesiwn galw heibio Staff y Parc Cenedlaethol ac Aelodau**
a arolwg ar-lein
**Haf 2017**

→

**Casglu barn cyn ymgynghori**
Gweithgor Aelodau; Cyfarfod blynyddol Cyngorau Cymuned PCE, arolwg ar-lein; sioeau sirol a marchnadoedd
**Haf 2017**

→

**Gweithdy Gweledigaeth Fforwm Eryri**
Datblygu gweledigaeth gyda Phartneriaid allweddol
**Haf 2017**

→

**Ysgrifennu Dogfen Ymgynghori**
Gan amlygu'r heriau allweddol ar gyfer y Parc Cenedlaethol dros y 25 mlynedd nesaf ac astudiaethau achos
______________
Asesiad Amgylcheddol Strategol (SEA), Arfarniad Cynaliadwyedd (SA), Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA) ac Asesiad Effaith Cydraddoldeb (EqIA)
Adroddiad cwmpasu (Cam A)
**Hydref 2017**

↓

**Dogfen Ymgynghori i'r Awdurdod / Gweithgor Aelodau**
Cyflwyno dogfen ymgynghori drafft i'r pwyllgor i'w gymeradwyo
**Gwanwyn 2018**

→

**Ymgynghoriad Cyhoeddus Cychwynnol**
Sioe-deithio (sioeau sirol, digwyddiadau, marchnadoedd, hysbysebion mewn sinema ac ati), ymgynghoriadau statudol (Cam B o'r SEA) a rhanddeiliaid, paneli ffocws
**9 Gorffennaf - 30 Medi (12 wythnos)**

→

**Panel Arbenigwyr #1: Amgylchedd**
Siaradwyr gwadd a grwpiau ffocws i ddatblygu atebion i faterion allweddol ac adnabod adnoddau

↓

**Panel Arbenigwyr #2: Llesiant**
Siaradwyr gwadd a grwpiau ffocws i ddatblygu atebion i faterion allweddol ac adnabod adnoddau

→

**Panel Arbenigwyr #3: Cymunedau ac Economi**
Siaradwyr gwadd a grwpiau ffocws i ddatblygu atebion i faterion allweddol ac adnabod adnoddau

→

**Adroddiad ar yr Ymgynghoriad ac Asesiad Effaith Cydraddoldeb (EIA)**
Paratoi a chyhoeddi
**Hydref 2018**

↓

**Gweithdy Cynllun Gweithredu**
Creu Matrics RACI gyda chynrychiolwyr Fforwm Eryri ac APCE (Cam C o'r SEA)
**Hydref 2018**

→

**Paratoi'r Cynllun drafft a'r Asesiad SEA a HRA**
Mewnbwn ac ymgynghori â rhanddeiliaid; yr Awdurdod; cabinet y Cynghorau Sir; dylunio a chyfieithu;paratoi adroddiad Amgylcheddol SEA(Cam C) a HRA ac adolygu'r EqIA
**Gaeaf 2018-Gwanwyn 2019**

→

**Ymgynghoriad Terfynol ar y Cynllun Drafft ac Adroddiad Amgylcheddol SEA**
Ar-lein a gyda rhanddeiliaid
**Haf 2019 (8 wythnos)**

→

**Adroddiad Ymgynghori ac SEA (Cyfnod D)**
Paratoi a chyhoeddi

↓

**Adolygiadau Terfynol o'r Drafft**
Yn dilyn adborth o'r ymgynghoriad ar-lein

→

Cymeradwyaeth Terfynol gan yr Awdurdod ac aelodau'r bartneriaeth

→

**Cyhoeddi'r Cynllun Terfynol**
**2020**

→

**Cyfnod Gweithredu 2020 - 2025**
* Yn cynnwys Monitro - Adrodd - Adolygu yn flynyddol

# Strwythur a Chynnwys y Cynllun Terfynol

## **Cynllun Eryri:** Strwythur a Chynnwys Sylfaenol

### Rhagair a Chyflwyniad

- Pam fod angen cynllun.
- I bwy mae'r cynllun.
- Sut mae wedi'i gynhyrchu.
- Asesiad Amgylcheddol Strategol (SEA), Arfarniad Cynaliadwyedd (SA) a'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA)
- Perthynas â chynlluniau, strategaethau a deddfwriaethau eraill.

### Sut Mae Eryri yn Edrych Nawr

Y darlun cyfredol:

- Sut mae'r Parc yn edrych nawr.
- Rhinweddau arbennig.

### Sut Ydym Eisiau i Eryri Edrych yn y Dyfodol

Y weledigaeth hir-dymor:

- Ble ydym ni am gyrraedd?
- Sut bydd hyn yn gwarchod a hyrwyddo rhinweddau arbennig?

### Sut ydym ni'n Mynd i Gyrraedd Yno

Camau Manwl:

- Yr hyn sydd angen ei wneud i gyflawni'r weledigaeth hirdymor.


GWYBODAETH DDEFNYDDIOL


*Yr egwyddorion arweiniol ar gyfer beth y dylid ei gynnwys yng Nghynllun y Parc Cenedlaethol yw y dylai fod yn uchelgeisiol ac yn cydnabod pwysigrwydd cenedlaethol Parciau Cenedlaethol; dylai ganolbwyntio ar gyflawni dibenion y Parc Cenedlaethol a dylai nodi a cheisio amddiffyn nodweddion arbennig y Parc. Dylai'r cynllun gael ei ategu gan ddatblygiad cynaliadwy; ystyried ac ymateb i newid hinsawdd; dylai gysylltu â chynlluniau a pholisïau eraill a dylanwadu arnynt; dylai fod â pholisïau ac amcanion yn seiliedig ar dystiolaeth fanwl; gyda mecanwaith clir ar gyfer monitro, ac fel y cynllun canolog ar gyfer Awdurdod y Parc Cenedlaethol, dylai nodi'r fframwaith ar gyfer rhaglenni a strategaethau manylach yr APC megis y cynlluniau a rhagleni gwaith blynyddol.*

## Cadw Golwg ar Gynnydd

Gweithredu a monitro:

- Mesur cynnydd a chynnal momentwm tuag at y weledigaeth.
- Dangosyddion.






## Rheolaeth gynaladwy o adnoddau'r Parc Cenedlaethol

Mae adnoddau naturiol a hanesyddol Eryri yn rhoi sylfaen i llesiant y bobl sydd yn byw, yn gweithio, ac yn ymweld â’r Parc Cenedlaethol. Rydym yn dibynnu ar adnoddau naturiol o ansawdd uchel i ddarparu ein bwyd, dŵr glân ac aer.

Mae’n hanfodol bod adnoddau Eryri yn cael eu rheoli’n gynaliadwy. Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) a’i fframwaith cyflawni, gan gynnwys y Polisi Adnoddau Naturiol, yn rhoi cyfeiriad ar gyfer gwella’r ffordd rydym yn rheoli’r adnoddau hyn ar gyfer cenedlaethau’r dyfodol.

Mae Polisi Adnoddau Naturiol yn nodi tair blaenoriaeth genedlaethol. Y tair blaenoriaeth yw:

- Darparu atebion yn seiliedig ar natur
- Cynyddu ynni adnewyddadwy ac effeithlonrwydd adnoddau
- Cymryd ymagwedd yn seiliedig ar le

O dan Adran 6 Rhan 1 o’r Ddeddf, mae gan awdurdodau cyhoeddus ddyletswydd i “geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth cyn belled ag y bo’n gyson ag arferol a’u swyddogaethau, ac wrth wneud hynny hyrwyddo gwytnwch ecosystemau”. Mae’r ystyriaethau bioamrywiaeth ac ecosystemau hyn wedi’u hymgorffori yn y ddogfen gychwynnol hon a byddant yn elfen graidd o’r cynllun terfynol.

Byddwn yn defnyddio fframwaith Polisi Adnoddau Cenedlaethol, y Datganiadau Ardal sydd wrthi’n datblygu, a’i thair blaenoriaeth i helpu arwain y polisïau datblygu o fewn **Cynllun Eryri**.

## Cynllun Adfer Natur Cymru


Nod Cynllun Adfer Natur Cymru yw mynd i’r afael ag achosion sylfaenol colli bioamrywiaeth drwy:

- rhoi byd natur wrth galon ein penderfyniadau
- gwella cadernid ein hamgylchedd naturiol
- cymryd camau penodol o ran cynefinoedd a rhywogaethau.

Mae’n nodi sut bydd Cymru yn gwireddu ymrwymiadau Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Amrywiaeth Fiolegol ac ymrwymiadau Strategaeth yr Undeb Ewropeaidd ar Fioamrywiaeth er mwyn atal y dirywiad yn ein bioamrywiaeth erbyn 2020 ac yna gwrthdroi’r dirywiad hwnnw. Byddwn yn defnyddio’r materion a’r amcanion a nodir yn Rhan 1 o’r Cynllun Adfer i arwain gwaith o wrthdroi’r dirywiad mewn bioamrywiaeth yn Eryri.

# Parc Cenedlaethol ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol

Mae egwyddorion datblygu cynaliadwy - ac oherwydd hynny Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) - yn greiddiol i ddibenion y Parc Cenedlaethol. Felly mae'r Ddeddf hon a'i hamcanion yn greiddiol i **Gynllun Eryri**. Drwy'r ddogfen hon, bydd cyfeiriadau at gysylltiadau â'r Ddeddf a'i hamcanion.




# Ffyrdd o Weithio

Mae llwyddiant **Cynllun Eryri** yn dibynnu ar ymrwymiad cryf i weithio mewn partneriaeth. Y pum ffordd o weithio, fel y nodir yn y Deddf Llesiant, yw'r sail ar gyfer creu'r Cynllun.



**Hirdymor**
Pwysigrwydd sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a'r angen am ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion tymor hir hefyd



**Atal**
Sut gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion



**Integreiddio**
Ystyried sut gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion



**Cydweithio**
Gallai cydweithredu ag unrhyw berson arall (neu wahanol adrannau yn y corff ei hun) helpu'r corff i fodloni ei amcanion llesiant



**Cynnwys**
Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrhywiaeth yr ardal maent yn ei gwasanaethu


# Lle'r ydym ni nawr

O fewn yr adran hon cewch wybodaeth am:

- Lle'r ydym ni nawr
- Pa gyfleoedd a materion sy'n wynebu'r Parc Cenedlaethol yn y blynyddoedd i ddod
- Cynnig ar gyfer y ffordd ymlaen

Mae penawdau ein meysydd testun ni ar gyfer y darlun presennol yn Eryri wedi'u cysylltu'n agos â phwrpasau'r Parc Cenedlaethol, sef:

- Amgylchedd Eryri
- Iechyd a llesiant yn Eryri
- Cymunedau ac economi Eryri




# Amgylchedd Eryri

## Gofalu am ein hamgylchedd trawiadol a'n hasedau nauriol a hanesyddol

Rydym wedi casglu'r holl wybodaeth a data perthnasol sydd ar gael ar gyfer ardal ddaearyddol y Parc Cenedlaethol ac amgylchedd yr ardal. Mae hyn yn rhoi darlun da i ni o'r sefyllfa bresennol.

## Cadwraeth Natur




**107**
**SoDdGA**
**(Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig) dros 62,461 hectar**

**4**
**AGA**
**(Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig) dros 24,302 hectar**

**21**
**GNG**
**(Gwarchodfa Natur Genedlaethol) dros 5,648 hectar**

## Rhywogaethau Arbennig Eryri



**Ystlum Bedol Leiaf**
Mae 25% o boblogaeth y DU i'w canfod yn Eryri



**Bele**
Daw enw Saesneg (Pine Martin) y mamaliaid prin yma o'u dewis o gynefin mewn coedwigoedd conifferaidd



**Brân Goesgoch**
Y rhywogaeth prinnaf o frân yn y DU



**Lili'r Wyddfa**
Eryri yw'r unig fan ym Mhrydain ble mae'n tyfu

# MAE BIOAMRYWIAETH YN DIRYWIO'N BARHAUS

PWNC ALLWEDDOL

**55%**

o ACA'u (Ardaloedd Cadwraeth Arbennig) a AGA'u (Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig) yng Nghymru yn parhau mewn cyflwr anffafriol

PWNC ALLWEDDOL

**98.8%**

o unedau ACA'u a AGA'u yn Eryri angen sylw

Dim ond

**17.8%**

o unedau SoDdGA'u (Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig) o fewn Eryri sydd o dan reolaeth addas


CYFLE ALLWEDDOL

Mae hyn wedi **syrthio o**

**23.7%** yn 2012

Mae rhywogaethau ymledol yn un o brif achosion y dirywiad parhaus mewn bioamrywiaeth


PWNC ALLWEDDOL



Mae Rhododendron ar ben ei hun yn gorchuddio ardal o faint cyfatebol i **2000** o gaeau rygbi



Amcangyfrifir mai **£10 miliwn** yw'r gost o reoli'r holl Rhododendron yn y Parc



Lledaeniad rhywogaethau ymledol yn Eryri

Ceir **ambell** duedd cadarnhaol

## Amaeth – Amgylcheddol

Cynlluniau wedi helpu i wella ardaloedd gorgors a gweundir

Mae **Mawn** yr ucheldir yn storfa Garbon enfawr


$CO_2$

**17 miliwn** tunnell

cliriwyd ardal maint **400** cae rygbi o Rhododendron yn Abergwynant

# Ardaloedd mawndir o fewn y Parc

**Mae storfa carbon mawn Eryri yn arwyddocaol iawn, gyda thros 15,000 ha o fawn yn y Parc Cenedlaethol. Mae priddoedd mawn yn cynnwys 30% o adnodd carbon pridd Cymru er ei bod ond yn gorchuddio tua 3% o arwyneb y tir.**




**MAE 12% O ERYRI YN FAWNDIR**

**Y MATH MWYAF CYFFREDIN O GYNEFIN YN ERYRI YW GORGORS**

**ARDAL FAWNDIR FWYAF O FEWN Y PARC YW ACA MIGNEINT – ARENIG – DUALLT**

**MAE BRON 17 MILIWN TUNNELL O GARBON WEDI EI STORIO YM MHRIDDOEDD MAWN ERYRI**

CYFLE ALLWEDDOL

**MAE 30% O FAWNDIR CYMRU I'W GANFOD YN ERYRI**



## Astudiaeth achos: Sut mae Statws Treftadaeth y Byd yn dod â £ 8 miliwn bob blwyddyn i Economi Gogledd Orllewin Cymru

Yn ogystal â sicrhau ei amcanion cynhenid o ddiogelu a gwella treftadaeth ddiwylliannol o arwyddocâd rhyngwladol, gall arysgrif Safle Treftadaeth y Byd hefyd ddod â manteision economaidd a chymdeithasol enfawr i ardal, fel y dangosir gan y safle Cestyll a Muriau Trefi Brenin Edward I yng Ngwynedd, sy'n cynnwys Castell Harlech yn y Parc Cenedlaethol ynghyd a cestyll Biwmaris, Conwy a Chaernarfon. Gall atynnu arian ychwnaegol ar gyfer gwaith gwella cadwraeth a chyfleusterau ymwelwyr, denu mwy o ymwelwyr a chreu swyddi sydd eu hangen yn fawr.

Cafodd Cestyll a Muriau Trefi Brenin Edward I yng Ngwynedd eu harysgrif gan UNESCO ar y rhestr o Safleoedd Treftadaeth y Byd (STB) ym 1986 ac roedd ymysg y saith safle cyntaf yn y DU i'w priodoli gyda'r lefel hon o bwysigrwydd rhyngwladol. Mae delweddau o'r lleoedd eiconig hyn yn cael eu cydnabod ar draws y byd. Mae'r henebion hyn - gan gynnwys Castell Harlech sydd wedi eu lleoli yn ysblennydd - yn gampweithiau pensaernïol ac yn ffurfio un o'r prosiectau adeiladu mwyaf yr Oesoedd Canol.

Roedd cyflawni'r statws STB yn rhoi'r cyfle i nid yn unig ddangos i'r byd pa mor bwysig oedd yr henebion hyn, ond hefyd i dynnu i lawr yr arian oedd ei angen yn fawr i'w warchod a'u gwella, i fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd y mae'r statws yn eu dwyn ac i fynd i'r afael â rhai o'r bygythiadau i'r safle. Yn Harlech roedd cyfleusterau ymwelwyr annigonol ac anodd rheoli, yn ogystal ag eiddo wedi'u hesgeuluso a oedd yn tynnu oddi wrth leoliad y castell, i gyd yn faterion allweddol.

Yn dilyn yr arysgrif llwyddiannus, mae'r henebion STB wedi enill rôl economaidd a chymdeithasol bwysig ar gyfer cymunedau lleol a'r rhanbarth ehangach. Mae buddsoddiad sylweddol yn dilyn yr arysgrif - megis y cyfleusterau ymwelwyr newydd o'r radd flaenaf, wedi helpu i wella'r manteision economaidd i'r ardal.

Heddiw mae'r STB yn denu dros hanner miliwn o ymwelwyr bob blwyddyn ac yn cyfrannu oddeutu £8 miliwn i'r economi leol. Mae'r darlun byd-eang o'r gwerth a ddaw gan statws STB yn adlewyrchu stori debyg. Canlyniad prosiect STB Blaenafon oedd dyblu nifer yr ymwelwyr. Mae lleoliadau sy'n cynnwys safle STB wedi cael twf economaidd ehangach o rhwng 1 a 3%, ac yn y prosiect Vigan STB yn y Philippines, gostyngodd cyfraddau tlodi o 46% i 8% dros y cyfnod arysgrif o 18 mlynedd.

CYFLE ALLWEDDOL

**Mae Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru, a arweinir gan Cyngor Gwynedd ar rhan ystod eang o bartneriaid, ac sydd ar hyn o bryd ar restr gychwynnol Llywodraeth y DU ar gyfer UNESCO, yn gyfle cyffrous i deillio buddion economaidd a chymdeithasol mawr pellach o'r tirwedd a threftadaeth cyfoethog yng Ngwynedd. Mae canfyddiadau allweddol adroddiad diweddar yn dangos pe bai'r bid yn llwyddiannus y gallai greu dros 5,750 o swyddi ychwanegol erbyn 2030, ac ychwanegu trosiant ychwanegol o £335 miliwn y flwyddyn at yr economi treftadaeth. Mewn ardal gyda rhai o'r cyflogau isaf yn y DU, mae hwn yn gyfle na ddylid ei golli.**

# Tirweddau

Mae tirwedd Eryri yn unigryw. Mae ei naw ardal fynyddig yn cwmpasu tua 52 y cant o'r Parc ac yn cynnwys llawer o gopaon sy'n uwch na 3,000 troedfedd (915m).


Mae Eryri yn dirwedd hynod amrywiol o geunentydd serth i raeadrau a chymoedd gwyrdd. Mae coetiroedd derw, ynn, criafol a chyll wedil eu gwasgaru ledled y Parc – ac mae aberoedd hardd Dyfi, Mawddach a Dwyryd ynghyd â 23 milltir o arfordir a thraethau tywodlyd yn cyfrannu at amrywiaeth gyffredinol y dirwedd.

> “Mae gan Eryri hefyd tirlun hanesyddol hynod gyfoethog, o gastell mawreddog Harlech i garnedd hynafol a dramatig Bryn Cader Faner. Mae gan Eryri 13 ardal o Dirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig, 19 o barciau a gerddi hanesyddol, 7,800 ased hanesyddol heb ei ddynodi a 5,900 o Adeiladau Traddodiadol Cofrestredig!”

Mae'r holl elfennau hyn o'r dirwedd sy'n gosod Eryri ar wahân wedi'u cynnwys yn y Nodweddion Arbennig ar dudalennau 12 a 13.

Mae LANDMAP yn offeryn a ddefnyddir i helpu gwneud penderfyniadau cynaliadwy a chynllunio adnoddau naturiol o ran y dirwedd ar sawl lefel – o'r lleol i'r cenedlaethol, gan sicrhau yr un pryd fod y broses benderfynu'n gwbl dryloyw. Mae LANDMAP yn mapio a dosbarthu tirweddau ac yn gwerthuso'u pwysigrwydd ar raddfa genedlaethol a lleol.




Mae 47 safle RIGS (Safleoedd Geoamrywiaeth Pwysig Rhanbarthol) yn y Parc Cenedlaethol. Mae'r rhain yn safleoedd dynodedig er mwyn:

- Gwarchod safleoedd daearegol pwysig lleol
- Cynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth y cyhoedd o greigiau, ffosiliau, mwynau a thirweddau
- Darparu'r amgylchedd i bobl ddysgu am ddaeareg leol




**o ardal y Parc Ceedlaethol wedi eu orchuddio gyda coetir,**
sy'n cyfateb i oddeutu 38,000 ha (12.5% o orchudd coetiroedd Cymru).
Dim ond 5% o orchudd coetir y Parc Cenedlaethol sy'n goetir brodorol bellach

- Coetir hynafol – 5444 ha
- Coetir hynafol lled naturiol – 3854 ha fesul gartref yn flynyddol
- Planhigfa ar safle coetir hynafol – 3033 ha
- Adfer coetir hynafol – 1986 ha

# Ynni a Gwastraff

**Ar gyfartaledd, defnydd dŵr yn y cartref o fewn y Parc Cenedlaethol yw**

**107.31 litr y pen y diwrnod.**

**2015 = 109.67 litr**

**2014 = 114.86 litr**

Mae defnydd dŵr yn y cartref wedi lleihau ers 2014.

Yng Nghonwy yn 2016 cyfartaledd nwy domestig a ddefnyddiwyd fesul cartref yn flynyddol (GWh) oedd

**12,076**

Dyma'r 12$^{fed}$ uchaf yng Nghymru. Cyfartaledd y nwy domestig a ddefnyddiwyd yng Ngwynedd oedd (GWh) o

**11,276 GWh**

(21$^{ain}$ neu'r safle olaf yng Nghymru)




Yn 2016, roedd oriau cilowat domestig cyfartalog Gwynedd fesul cartref yn flynyddol yn

**4,269**

Hwn oedd 4ydd uchaf yng Nghymru. Roedd gan Conwy oriau cilowat domestig cyfartalog o **3,751**

(11$^{eg}$ uchaf)

Cyrhaeddwyd y targed o **64%** i Gymru ar gyfer gwastraff i'w ailgylchu erbyn 2019-2020, bedair mlynedd yn gynnar, ac mae Cymru yn ail yn Ewrop ac yn drydydd yn y byd o ran lefelau ailgylchu.



Yng Nghonwy yn 2017/18 roedd

**63.37%**

o wastraff yn cael ei ailddefnyddio, ei gompostio neu ei ailgylchu. Yn ogystal yn 2016 ail-ddefnyddiwyd neu ailgylchwyd


**59%**

o wastraff yng Ngwynedd

# Ynni Adnewyddadwy

Er mwyn mynd i'r afael â newid hinsawdd, mae angen lleihau allyriadau carbon deuocsid a nwyon tŷ gwydr eraill. Un ffordd o gyflawni hyn yw lleihau'r defnydd o danwyddau ffosil sy'n cynhyrchu trydan a symud tuag at ffynonellau ynni sydd yn adnewyddadwy a chynaliadwy. Mae Parc Cenedlaethol Eryri yn chwarae ei ran er mwyn cwrdd â'r dyheadau hyn.

## Defnydd a cynhyrchiant ynni yn Eryri





Mae Eryri yn defnyddio **360.5 Gwh** o ynni yn flynyddol

yn cynhyrchu **299 Gwh** mewn ynni adnewyddadwy (Pŵer Hydro a Generadiad Micro)

**+ 134Gwh**


Capasati ynni adnewyddadwy damcaniaethol ychwanegol yn Eryri

## Ers mabwysiadau'r C.D.Ll (Cynllun Datblygu Lleol) yn 2011, caniatawyd



**90** o geisiadau Hydro newydd o fewn y Parc Cenedlaethol. Gwyddom fod y pŵer a gynhyrchir ganddynt yn **6.43MW** fan bellaf a allai bweru tua **4530** o dai y flwyddyn.

**73** o geisiadau ynni adnewyddadwy eraill wedi eu caniatáu yn y Parc Cenedlaethol (e.e. Biomass)



# **Astudiaeth Achos:** Monitro effaith cynlluniau cynhyrchu pwer hydro

## *Tu ôl i'r llenni gydag Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a thimau Cyfoeth Naturiol Cymru*

Dros y blynyddoedd diwethaf, bu cynnydd sylweddol yn natblygiad cynlluniau cynhyrchu pŵer trydan hydro ar draws y Parc Cenedlaethol. Y rheswm dros y cynnydd diweddar yma yw i Lywodraeth y DU gyflwyno tariffau bwydo mewn manteisiol er mwyn annog y datblygiad o ffynhonellau cynaliadwy o gynhyrchu trydan ac egni.

Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri wedi rhoi caniatad cynllunio i dros 100 o gynlluniau ynni hydro ers cyflwyniad y tariffau bwydo mewn. Y rheswm dros nifer mor fawr yw fod y Parc Cenedlaethol yn ffynhonnell wych o ran adnoddau naturiol, er enghraifft mae yna ddigon o afonydd sydd yn cael eu hailgyflenwi gan law o'r ucheldiroedd. Yn ogystal mae APCE yn cydnabod y manteision, sydd gan gynhyrchu pwer yn y modd yma, o ran lleihau allyriadau carbon i liniaru newid yn yr hinsawdd, o ran creu cyflogaeth leol ac o ran darparu incwm arallgyfeirio ar ffermydd i dirfeddianwyr.

Fel arfer mae cynllun ynni hydro yn cynnwys cored mewnlif ar draws afon er mwyn cronni'r dŵr, yna mae canran o'r dŵr yn yn cael ei echdynnu a'i ddargyfeirio i lawr pibell at dyrbin a fydd yn cynhyrchu'r trydan a gaiff ei allforio i'r Grid Cenedlaethol. Yna fe gaiff y dŵr ei ddychwelyd i'r afon drwy all-lif a gynlluniwyd. Mae'r mwyafrif o gynlluniau ynni hydro o fewn y categori meicro-gynhyrchu, sef rhwng 10kw a 100kw.

Ar y cyd â swyddogaeth gynllunio APCE, Cyfoeth Naturiol Cymru yw'r corff sy'n rhoi trwyddedau ar gyfer cronni ac echdynnu dŵr mewn cynlluniau ynni hydro.

Wrth roi caniatad cynllunio, a dosbarthu y trwyddedau perthnasol, mae APCE a CNC yn cyd-weithio i sicrhau fod unrhyw niwed posibl yn dilyn unrhyw gynllun yn cael ei ddileu neu ei liniaru. Rhai o'r materion sydd angen eu ystyried yw effaith gweledol a sŵn, yr effaith ar ecosystemau sensitif ar dir ac yn yr afon, effaith ar goed, effaith ar archeoleg, symudiadau gwaddod yn yr afon, llifogydd, yr effaith ar hamdden yn ogystal a effaith ar draciau/llwybrau mynediad yn ystod y cyfnod adeiladu.

Yn dilyn rhoi caniatad cynllunio a dosbarthu trwyddedau, bydd APCE a CNC yn ymweld a monitro cynllun a gymeradwywyd yn ystod, ac yn dilyn, adeiladu y cynllun ynni hydro er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth ac unrhyw amodau a osodwyd. Mae hyn er mwyn sicrhau diogelwch at nodweddion y gellid eu niweidio gan ddatblygiad o'r fath. Mae'r mwyafrif o gynlluniau wedi'u gweddu i'r dirwedd heb unrhyw bryder neu niwed i'r tirlun neu'r amgylchedd.

Y math o faterion bydd y ddau Awdurdod yn ei fontro yw: a ydy'r strwythurau a adeiladwyd yn cyd-fynd a'r hyn a gynllunwyd a ganiatawyd? a ydynt yn echdynnu y swm cywir o ddŵr? ydy mannau pasio i bysgod a llyswennod yn eu lle ac yn gweithio? a yw'r cynllun adfer yn cael ei wethredu fel y cymeradwywyd? yw'r strwythurau yn cael eu harchwilio'n rheolaidd (gan y gweithredwr)?

Bu nifer fechan o ddigwyddiadau lle na chydymffurfiwyd â'r cynllun adeiladau neu adnewyddu, neu fe fu digwyddiadau a arweiniodd at lygredd i lawr yr afon. Mewn achosion fel hyn, mae gan APCE a CNC bwerau penodol er mwyn atal y gwaith nes fo'r digwyddiad wedi cael ei ddatrys, neu mewn achosion eithafol gallant erlyn y rhai sy'n torri y rheoliadau. Mae APCE a CNC wedi defnyddio y pwerau yma i atal gwaith anawdurdodedig neu niweidiol nes fo'r mater wedi cael ei ddatrys.

PWNC ALLWEDDOL

**Yn amlwg, bu cryn ymdrech rhwng APCE a CNC er mwyn sicrhau nad yw cynlluniau ynni hydro yn cael effaith andwyol ar yr amgylchedd naturiol. Yr her nawr fydd dadansoddi a dogfennu effaith hirdymor cynlluniau or fath ar ecosystemau afonydd**

# Teithio i'r gwaith

## Pwyntiau gwefru ceir trydan yn Eryri

**PWNC ALLWEDDOL**

**Nifer y trigolion (16–74 oed) sy'n cymudo**

Gwynedd – **40,517** – **+9.4%** newid ers 2001
Conwy – **39,148** – **+9.4%** newid ers 2001

**Pellter cyfartalog a deithwyd i'r gwaith**

Gwynedd – **21.6km** – **+14.1%** newid ers 2001
Conwy – **18.6km** – **+10.0%** newid ers 2001


Roedd gan **78.3%** o gartrefi yng Nghonwy a **78.6%** o gartrefi yng Ngwynedd o leiaf un car neu fan. Mae hyn yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol sef **77.1%**

| Gwefrwr | Pŵer | Amser | Nifer |
| --- | --- | --- | --- |
| Gwefrwr cyflymaf | | 20–40 Munud | 0 |
| Gwefrwr cyflymach | 22KW | 1 – 2 awr | 0 |
| Gwefrwr Tesla | 11KW | 3 – 5 awr | 3 |
| Gwefrwr cyflym | 7KW | 3 –5 awr | 11 |
| Gwefrwr cyflym | 3KW | 6 –12 awr | 4 |

Nid yw'n syndod mewn ardal mor wledig ag Eryri, fod y defnydd a wneir o geir yn uwch na’r cyfartaledd cenedlaethol, ac wrth i’r hinsawdd economaidd newid, mae mwy o bobl yn gorfod teithio’n bellach i’w gwaith. Ond pe bai rhwydwaith ardderchog o bwyntiau gwefru yn Eryri, a all hyn helpu tuag at leihau ein hallyriadau?


# Ansawdd Aer

Mae ansawdd aer yn Eryri yn gyffredinol yn dda iawn o’i gymharu ag ardaloedd eraill yng Nghymru. Ansawdd aer yw prif achos baich amgylcheddol afiechyd yn Ewrop ac ym mis Chwefror 2016, adroddwyd bod **40,000** o farwolaethau ychwanegol y flwyddyn wedi’u priodoli i ansawdd aer gwael, gyda chost iechyd o **£20 biliwn** y flwyddyn.



Mae hyn yn dangos gwerth ardaloedd megis Eryri a'r cyfraniad maent yn ei wneud i iechyd y boblogaeth yn ogystal ag arbed costau mewn gofal iechyd

**CYFLE ALLWEDDOL**




# Ansawdd dŵr


Yn 2017 dyfarnwyd Gwobr Arfordir Gwyrdd i draeth Harlech, ac yn 2016 rhoddwyd Gwobr Arfordir Gwyrdd i draeth Harlech, Bennar/Llanenddwyn a Llandanwg

Mae'r map yn dangos ansawdd cyrff dŵr o fewn, neu gerllaw ffin y Parc Cenedlaethol. Mae rhai o'r rhesymau am safon dŵr gwael yn gallu cynnwys: mwyngloddiau segur a thir halogedig, arllwysiadau diwydiannol, asideiddio, tanciau septig a choedwigaeth.


Fel y gwelwch o'r map mae nifer o afonydd a llynnoedd wedi eu dosbarthu yn 'wael'.




# Newid Hinsawdd



Dengys grynodeb o'r prif dueddiadau a welwyd yn safle monitro Rhwydwaith Newid Amgylcheddol Eryri (ECN), rhwng 1995 a 2010 y canlynol:






Cynnydd tymheredd o 0.9C rhwng 1992 a 2007

Cynnydd o 170mm yng nghyfartaledd glaw rhwng 1992 a 2007

Cynnydd mewn digwyddiadau storm eithafol



Gostyngiad mewn maetholion planhigion

Gostyngiad mewn cyfoeth rhywogaethau llystyfiant oherwydd pridd yn asideiddio

Gostyngiad yn nifer y chwilod

# Astudiaeth achos: Talu am Wasanaethau Ecosystem (TWE) – Arwerthiant Fowey

Wrth weithredu cynllun menter TWE 'Upstream thinking' yn nalgylch Fowey, ymunodd Ymddiriedolaeth Afonydd Westcountry â Phrifysgol East Anglia er mwyn archwilio dulliau amgen o weithredu mecanwaith TWE er mwyn darparu gwelliannau o ran ansawdd dŵr mewn rhai dalgylchoedd sy'n strategol bwysig. Roedd dau gwestiwn mawr yn ysgogi'r ymarfer hwnnw: (1) a allai mecanwaith ocsiwn gael ei ddefnyddio i ddosbarthu'r arian i ffermwyr? a (2) a ellid annog prynwyr eraill i gyfrannu arian i'w ddosbarthu trwy'r cynllun TWE?

Roedd gan yr arwerthiant a gynlluniwyd gan y bartneriaeth hon ddyluniad syml. Yn y lle cyntaf, cysylltwyd â phob ffermwr yn nalgylch Fowey a darparwyd rhestr o fuddsoddiadau cyfalaf sy'n gymwys i gael arian o dan y cynllun. Gofynnwyd i ffermwyr fynd i mewn i geisiadau sy'n nodi pa rai o'r rheini oedd eu hangen gan eu busnes fferm a'r grant y byddent ei angen arnyn nhw o Dde Orllewin Lloegr i fynd ymlaen â'r buddsoddiad. Ar gyfer pob cais, cyfrifwyd sgôr gwella amgylcheddol yn seiliedig ar faint fyddai'r prosiect arfaethedig yn gwella ansawdd dŵr. Mae'r arwerthiant yn ysgogi cystadleuaeth rhwng ffermwyr trwy gymeradwyo ceisiadau sy'n cynnig y gwerth gorau am arian ar gyfer South West Water. Yn yr achos hwn, penderfynwyd ar y 'gwerth am arian' trwy rannu sgôr gwella amgylcheddol y cais gyda gwerth y cais grant.

Agorodd Arwerthiant Gwella Afon Fowey ar gyfer ceisiadau ar yr 20fed Awst 2012. Chwe wythnos yn ddiweddarach, ac yn dilyn tair rownd o ymgeisio, caeodd yr arwerthiant ar 26 Medi 2012. Roedd gan yr arwerthiant £360,000 o arian i'w ddosbarthu ond bu'n hynod bobolgaidd, a derbyniwyd ceisiadau am £776,000 o fuddsoddiad. Mae'r prosiect wedi dangos y gall mecanwaith TWE, sy'n seiliedig ar arwerthiant,  ddosbarthu arian yn llwyddiannus i ffermwyr am fuddsoddiad mewn eitemau cyfalaf sy'n gwella ansawdd dŵr.

Mae cymhariaeth â'r mecanwaith prif-sefydlog a ddefnyddiwyd yn flaenorol wrth ddosbarthu cronfeydd Upstream Thinking yn awgrymu bod yr arwerthiant yn cynyddu effeithlonrwydd rhannu'r cyllid i brosiectau: hynny yw, mae'r arwerthiant yn cynnig rhagor o welliannau amgylcheddol ar gyfer pob punt sy'n cael ei wario na chynllun prif sefydlog amgen sy'n cynnig talu hanner cost y buddsoddiad sefydlog. Yn benodol, rhoddodd Arwerthiant Gwella Afon Fowey rhwng 20-40% o well gwerth am arian na'r cynllun pris sefydlog amgen.

Ymhellach, o gymharu â chynllun lle mae ymgynghorwyr fferm yn adnabod prosiectau i gael eu hariannu, mae arwerthiant yn cynnig mecanwaith sy'n annog ffermwyr i gynnig eu prosiectau eu hunain, yn cynnig arbedion mewn costau gweinyddol ac yn ymestyn y posibilrwydd o gymryd rhan yn y cynllun i etholaeth ehangach. Ar y llaw arall, mae gan y mecanwaith dan arweiniad yr ymgynghorydd fanteision o ran symleiddio cyfranogiad i ffermwyr ac wrth ganiatáu diffiniad cywir o'r prosiectau penodol y dylid eu hariannu.

**Wrth i Brexit ddod yn realiti ac i chynlluniau amaeth-amgylcheddol newydd yn dechrau cael eu datblygu gan wledydd y DU, mae cyfleoedd go iawn yn Eryri i ddod â manteision amgylcheddol pellach trwy ddefnyddio modelau tebyg i'r cynllun hwn. Mae cyfleoedd posibl hefyd nid yn unig trwy daliadau'r llywodraeth, ond hefyd trwy fuddsoddiad o'r sector breifat a ddim-am-elw.**

# Amaethyddiaeth



**Amaethyddiaeth yw sylfaen diwydiant y gadwyn fwyd a diod yng Nghymru**

## £6.1biliwn y flwyddyn



**PWNC ALLWEDDOL**

**Incwm ffermio defaid mynydd – Elw cyfartalog blynyddol o**

## £18,876

**...sy'n cynnwys y taliad cymorthdal sylfaenol o**

## £23,483




**Mae**

## 1400

**o ffermydd yn Eryri**


**PWNC ALLWEDDOL**



**Yn ôl Ffermio, Ffeithiau a Ffigyrau Cymru 2017, mae cyflogaeth o fewn amaethyddiaeth wedi**

## gostwng

**ar lefel genedlaethol yn ystod y blynyddoedd diweddar a mae incwm ffermydd hefyd wedi gostwng.**




**PWNC ALLWEDDOL**

**Mae'r map yn dangos dosbarthiad tir amaethyddol yn y Parc Cenedlaethol. Mae'r ffactorau a allai effeithio ar raddfa tir yn cynnwys:**

- **Hinsawdd**
- **Nodweddion y safle a'r pridd**
- **Rhyngweithio â'r tir**

***Gradd 1 yw'r radd uchaf*

**Mae llawer o'r tir amaethyddol yn Eryri o radd isel, ac fe'i defnyddir yn gyffredinol ar gyfer ffermio mynydd. Amlygwyd y diwydiant sydd fel un sydd o dan fygythiad ar ôl Brexit.**

# Amgylchedd Hanesyddol

O'r 153 allan o 377 o henebion cofrestredig a arolygwyd yn y Parc Cenedlaethol roedd:

- 5% wedi gwella
- 88% wedi aros yn sefydlog
- 7% wedi gwaethygu

O ran henebion mewn perygl yn y Parc Cenedlaethol roedd:

- 88 yn risg isel
- 56 yn risg ganolig
- 5 yn risg uchel
- 4 heb eu asesu

Mae'r amgylchedd hanesyddol yn cefnogi'n uniongyrchol

**19,000**

**o swyddi yng Nghymru**

**20%**

o holl wariant twristiaeth yn deillio o'r amgylchedd hanesyddol

Mae gan 15% o'r boblogaeth sy'n gweithio rywfaint o gysylltiad â'r sector treftadaeth yng Ngwynedd

## Adeiladau Rhestredig

Mae nifer a graddiad adeiladau rhestredig o fewn y Parc Cenedlaethol wedi eu rhestru isod. Disgwylir y bydd nifer yr adeiladau rhestredig Gradd 2 yn cynyddu o 5 uned yn y dyfodol agos

Gradd 1 – 13
Gradd 2* – 119
Gradd 2 – 1,804
Cyfanswm – 1,916

## Ardaloedd Cadwraeth

Dangosir yr 14 Ardal Cadwraeth o fewn y Parc Cenedlaethol yn y map yma. Mae'r rhain wedi eu dynodi gan eu bod o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig




Mae tirwedd a phensaernïaeth hanesyddol gyfoethog Eryri yn darparu ysbrydoliaeth i nifer fawr o grwpiau hanesyddol, gan gynnwys canghennau o'r grŵp 'Darganfod Hen Dai Cymreig', sydd wedi gwneud astudiaethau manwl ar 'Tai Eryri' is-ganoloesol.

**£3.9 milliwn**


Y gefnogaeth grant a roddwyd gan y Parc Cenedlaethol i atgyweirio adeiladau rhestredig ers 1990, gyda mwyafrif y gwaith yn cael ei gyflawni gan adeiladwyr a penseiri lleol.

PWNC ALLWEDDOL

**16%** o adeiladau rhestredig y Parc Cenedlaethol mewn perygl (categori 1–3)

Yn ôl CADW, "mae adeiladau rhestredig yn arbennig o debygol o fod mewn perygl pan fyddant yn cael eu diswyddo'n swyddogaethol oherwydd bod eu pwrpas gwreiddiol wedi dod i ben. Gall hyn fod yn berthnasol i hen adeiladau diwydiannol ac amaethyddol neu i rai addoldai, er enghraifft. Mae'n debygol bod modd addasu llawer o'r adeiladau hyn at ddefnydd newydd buddiol, ond mae'n debygol y byddai angen mewnbwn mwy cadarnhaol arnynt.Yn yr un modd, gallai adeiladau rhestredig fyddai dal yn medru cael eu defnyddio ar gyfer eu dibenion gwreiddiol fod mewn cyflwr gwael ac mewn perygl. Mewn achosion o'r fath, gallai cyflwr gwael fod oherwydd perchnogion sydd yn absennol, neu na allant fforddio atgyweiriadau. Gall hefyd adlewyrchu'r diffyg cadwraeth (lle mae cost atgyweirio yn fwy na gwerth diwedd yr adeilad)".

# Ardaloedd Tawel



Ardaloedd Tawel

Ardaloedd tu allan i'r Ardal Tawel

## Maint yr ardaloedd o lonyddwch yn y Parc Cenedlaethol

**= 143,692ha**

...sy'n golygu fod **67%** o'r Parc Cenedlaethol yn cael ei ystyried yn ardal dawel a llonydd!

### Mae angen i ardaloedd tawel fod...

**4km** i ffwrdd o'r gorsafoedd pŵer mwyaf

**2km** i ffwrdd o brif gefnffyrdd ac ymylon trefi

**1km** i ffwrdd o ffyrdd sy'n ganolig o ran aflonyddwch a rhai prif rheilffyrdd prif linell, ardaloedd lle mae chwareli yn weithredol, meysydd milwrol a meysydd awyr sifil, ffyrdd aflonyddol isel, llinellau pŵer 400kv a 275kv


CYFLE ALLWEDDOL

## Awyr Dywyll

Mae dynodiad Gwarchodfa Awyr Dywyll Ryngwladol yn ddynodiad mawreddog a roddir gan y Gymdeithas Awyr Dywyll Ryngwladol (IDA) i ddewis cyrchfannau sydd wedi profi bod ansawdd yr awyr yn y nos yn rhagorol a bod ymdrechion gwirioneddol wedi cael eu gwneud i leihau llygredd golau. Derbyniodd Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri statws Gwarchodfa Awyr Dywyll Ryngwladol gan y Gymdeithas Awyr Dywyll yn Rhagfyr 2015.

O ganlyniad i ddynodiad Gwarchodfa Awyr Dywyll Ryngwladol, rhagwelir:

- Bydd bywyd gwyllt yr ardal yn elwa;
- Bydd ansawdd amgylchedd yr ardal yn cael ei wella;
- Bydd gan Eryri nodwedd naturiol ychwanegol i ddenu ymwelwyr newydd i'r ardal yn ystod cyfnodau tawelach o'r flwyddyn;
- Bydd yn rhoi hwb i'r economi leol a
- Bydd awyr dywyll Eryri yn cael ei diogelu ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.



# Heriau a Chyfleoedd

Oddi wrth y data a'r gwaith ymchwil, ynghyd â'r gwaith ymgynghori anffurfiol cychwynnol yr ydym wedi'i wneud, gallwn weld bod nifer o heriau a chyfleoedd allweddol y bydd amgylchedd Eryri yn eu hwynebu dros y blynyddoedd nesaf:

| **Heriau (problemau allweddol)**<br>A'u heffaith bosibl ar gyfer y 5 mlynedd nesaf a thu hwnt | **Cyfleoedd**<br>yn yr hinsawdd gyfredol a'u heffaith posib | **Y Ffordd Ymlaen Arfaethedig**<br>Sut bwriadwn ni a'n partneriaid fynd i'r afael â phroblemau allweddol a manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd |
|---|---|---|
| ***Amddiffyn a gwella cynefinoedd, rhywogaethau ac ecosystemau*** | | |
| ACA, SoDdGA a cynefinoedd ehangach mewn cyflwr anffafriol o ganlyniad i:<br>• Ddiffyg tynnu neu symud rhywogaethau anfrodorol<br>• Diffyg rheoli wrth losgi cynefinoedd<br>• Erydiad a achoswyd gan weithgareddau hamdden<br>• Gor/tan-bori a diffyg rheoli cynefinoedd drwy bori cadwraethol.<br>• Diffyg rheoli prysgwydd<br>• Diffyg rheoli adfywio naturiol ger planhigfeydd coedwigaeth<br>• Colli cynefinoedd lled-naturiol<br>• Tir yn gael ei adael , gydag effaith niweidiol pellach ar safleoedd archeolegol a henebion maes, yn ogystal â'r goblygiadau diwylliannol, ynghyd a'r diffyg gweithlu i reoli'r amgylchedd.<br>• Llygredd nitradau a ffosffadau | Gyda'u statws rhyngwladol, diogelwch deddfwriaethol a chefnogaeth gyhoeddus sylweddol, dylid cael cefnogaeth ac adnoddau digonol i sicrhau y gellir adfer yr ardaloedd gwarchodedig hyn. | • I hyrwyddo a gwella amrywiaeth, cysylltiadau, graddfa a chyflwr ecosystemau dros ardal y Parc Cenedlaethol drwy:<br>o Gefnogi partneriaid i ddatblygu cytundebau rheoli tir cynaliadwy ar safleoedd gwarchodedig<br>o Chwarae rhan weithredol mewn Partneriaethau Natur Lleol ac annog cysylltiadau gyda Fforwm Eryri<br>o Yn benodol, rhoi blaenoriaeth a chanolbwyntio ar ddiogelu, adfer a chynyddu Adran 7 cynefinoedd[1] a rhywogaethau[2], gan gynnwys, lle bo'n ymarferol, cyfleoedd i ail-wylltio.<br>o Gweithio gyda phartneriaid i sicrhau bod llwybrau yn yr ucheldir yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda i safon uchel.<br>o Gymunedau a gwirfoddolwyr fynd i'r afael â phrysgwydd a rhywogaethau ymledol<br>o Cydweithfeydd pori sy'n gwella cynefinoedd a chefnogi strwythurau ffermio i gyflawni enillion amgylcheddol<br>o Cynlluniau amaeth-amgylcheddol sy'n annog rheolaeth gynaliadwy o'r tir.<br>o Hyrwyddo cysylltiad ecolegol rhwng cynefinoedd drwy weithio yn effeithiol mewn partneriaeth â thirfeddianwyr a phartneriaid.<br>o Polisi Cynllunio (datblygiadau)<br>o Ymgyrchu ar gyfer yr amgylchedd naturiol a hanesyddol i barhau cronfeydd cadwraeth ar ôl Brexit |
| Diffyg data cryno a manwl ynglyn a defnydd tir o fewn y Parc Cenedlaethol yn gwneud y broses o wneud penderfyniadau yn anodd. | | • Comisiynu ymchwil (drwy'r prifysgolion) am ddefnydd tir a'r patrwm o newid yn y Parc Cenedlaethol. |
| | Defnyddio rhywogaethau eiconig Eryri i ymgysylltu pobl â'u hamgylchedd e.e. y frân goesgoch. | • Archwilio pa rywogaethau adran 7 y gellid eu defnyddio fel 'eiconau' Eryri i ymgysylltu ymhellach gydag ymwelwyr a chymunedau lleol.<br>• Ceisio mynd i'r afael â materion allweddol sy'n effeithio ar rywogaethau adran 7, er enghraifft y dirywiad yn niferoedd y fran goesgoch, y gellid mynd i'r afael â hwy trwy wella rheoli pori yn yr ucheldiroedd er mwyn cynyddu tir bwydo addas ar gyfer yr aderyn. |

[1] Adran 7 Rhestr Cynefinoedd: www.biodiversitywales.org.uk/File/35/en-GB
[2] Adran 7 Rhestr Rhywogaethau: www.biodiversitywales.org.uk/File/34/en-GB
[3] Adran 7 Rhestr Rhywogaethau: www.biodiversitywales.org.uk/File/34/en-GB

| **Heriau (problemau allweddol)**<br><br>A'u heffaith bosibl ar gyfer y 5 mlynedd nesaf a thu hwnt | **Cyfleoedd**<br><br>yn yr hinsawdd gyfredol a'u heffaith posib | **Y Ffordd Ymlaen Arfaethedig**<br><br>Sut bwriadwn ni a'n partneriaid fynd i'r afael â phroblemau allweddol a manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd |
|---|---|---|
| *Rhywogaethau ymledol, , afiechydon a llygredd* | | |
| Heriau sylweddol o ganlyniad i ledaeniad rhywogaethau ymledol megis *Rhododendron ponticum* a Jac y Neidiwr a rhywogaethau goresgynnol dyfrol. Yn enwedig eu heffaith ar fioamrywiaeth trwy gystadleuaeth, ysglyfaethu, croesrywedd, trosglwyddo pathogenau, afiechydon a pharasitiaid.<br><br>Gallai Brexit arwain at newidiadau mawr yn lefelau stocio, a allai yn ei dro arwain at egino rhywogaethau ymledol fu'n cysgu.<br><br>Bydd Brexit yn golygu gostyngiad yn y cyllid Ewropeaidd sydd ar gael ar gyfer rheoli cadwraeth (ar hyn o bryd mae cyfran sylweddol o gyllid prosiectau cadwraeth mawr yn dod o ffynonellau UE).<br><br>Gallai newid pellach yn yr hinsawdd arwain at ledaeniad cynyddol o rhywogaethau ymledol (er y gallai hefyd arwain at ledaenu plâu ymledol sy'n targedu'r rhywogaethau ymledol), yn ogystal â chynnydd mewn clefydau fydd yn effeithio'r sector masnachol a chadwraeth.<br><br>Mae erydiad afonydd sy'n digwydd o ganlyniad i lawiad uchel yn rhoi mantais i Jac y Neidiwr sy'n ei alluogi i ymsefydlu ar dir rhydd/agored. | Mae partneriaeth gref ac effeithiol, sef Partneriaeth Rhododendron Eryri, wedi ei sefydlu i daclo *Rhododendron ponticum*.<br><br>Mae'r *Rhododendron ponticum* wedi ei gynnwys fel mesur mewn cynlluniau amaeth-amgylcheddol sy'n bodoli eisoes. | • Parhau gyda'r dull Partneriaeth presennol o fynd i'r afael â *Rhododendron ponticum* sy'n profi'n effeithiol iawn.<br><br>• Gweithio gyda phartneriaid a gwirfoddolwyr wrth fynd i'r afael â lledaeniad Jac y Neidiwr ac ymledyddion eraill.<br><br>• Lobïo i sicrhau bod rheolaeth rhywogaethau ymledol wedi'i gynnwys mewn unrhyw gynlluniau amaeth-amgylcheddol newydd.<br><br>• Cynnal arolygon manwl o'r holl rywogaethau ymledol yn ardal y Parc Cenedlaethol, e.e. Montbrentia |
| Diffyg ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r problemau rhywogaethau ymledol a pha mor hawdd yw ei ledaenu. | Ymwybyddiaeth wleidyddol dda o'r broblem rhywogaethau ymledol. | • Codi ymwybyddiaeth gyda'r cyhoedd am broblem rhywogaethau ymledol a sut y gallant helpu. |
| Clefydau coed megis Phytophthora yn cynyddu. gydag effaith sylweddol ar goetiroedd a choed y tu allan i goetir. | | • Amrywio rhywogaethau coed wrth gefnogi neu gynnal rheolaeth coetiroedd er mwyn gwella amrywiaeth geneteg y coed.<br><br>• Mwy o blannu coed i gynyddu coed olynol. |
| Asideiddio oherwydd dyddodiad atmosfferig | Mae asideiddio yn gostwng yn raddol heb ymyrraeth | • Monitro cynnydd drwy gynlluniau monitro hir dymor e.e. ECN |
| Mae llygredd plastig yn broblem fyd-eang sydd hefyd yn effeithio ar y Parc Cenedlaethol ar raddfa leol, er enghraifft llygredd plastig ar draethau a phlastigau untro yn creu sbwriel yn y mynyddoedd. | Cynnydd sylweddol mewn ymgyrchoedd sy'n codi ymwybyddiaeth o'r pwnc. | • Gweithio gydag ymgyrchoedd sydd eisoes yn bodoli a'u wireddu a'r raddfa lleol, er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r mater ymhellach.<br><br>• Annog a chefnogi'r defnydd o boteli yfed y gellir eu hailddefnyddio.<br><br>• Cefnogi datblygu a lansio'r pentref / mynydd 'dŵr yfed am ddim' cyntaf yn y Parc Cenedlaethol gyda'r bwriad o ehangu dros ardal y Parc.<br><br>• Parhau i gefnogi cynlluniau clirio sbwriel megis Wyddfa Lân. |

| **Heriau (problemau allweddol)**<br>A'u heffaith bosibl ar gyfer y 5 mlynedd nesaf a thu hwnt | **Cyfleoedd**<br>yn yr hinsawdd gyfredol a'u heffaith posib | **Y Ffordd Ymlaen Arfaethedig**<br>Sut bwriadwn ni a'n partneriaid fynd i'r afael â phroblemau allweddol a manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd |
|---|---|---|
| *Cynefinoedd tameidiog* | | |
| Natur ddarniog coetiroedd cynhenid.<br><br>Tynnu coed hynafol sydd â gwerth bioamrywiaeth a cynhenid uchel, i wneud lle i ddatblygiadau, coedwigaeth neu amaethyddiaeth. | Gwelliannau mewn ardaloedd o harddwch naturiol a chyfleoedd ar gyfer ail blannu â rhywogaethau cynhenid, lle bydd coed conwydd yn cael eu torri a lle nad oes bwriad i ail-stocio. | • I hyrwyddo gwydnwch trwy geisio ailgysylltu ardaloedd darniog o goetir, trwy gymorth grant, cynlluniau amaeth-amgylchedd a chynlluniau rheoli fferm.<br>• I flaenoriaethu plannu coed brodorol ar dir sy'n eiddo i Awdurdod y Parc Cenedlaethol a'i bartneriaid.<br>• I archwilio'r potensial a hyfywedd sefydlu arboretum brodorol fel ffordd o wella bioamrywiaeth, harddwch naturiol a thwristiaeth gynyddol.<br>• I adfer, ehangu a gwella cyflwr rhywogaethau coed cynhenid a choedlannau.<br>• I gefnogi prosiectau cymunedol plannu coed / perllannau. |
| Effaith natur ddarniog ecosystemau ar fioamrywiaeth. | | • Ceisio ehangu a gwella maint ac ansawdd coridorau bywyd gwyllt megis waliau, gwrychoedd ac ymylon y lôn drwy newidiadau bach wrth reoli, cynnal a chadw. |
| *Newid hinsawdd a storio carbon* | | |
| Effaith newid hinsawdd ar ecosystemau Eryri gan gynnwys:<br>• mawnogydd yn sychu<br>• newidiadau i gynefinoedd eraill<br>• rhywogaethau yn mudo yn effeithio ar fioamrywiaeth a thirwedd<br>• cynnydd mewn erydiad pridd yn ystod hafau sych a gaeafoedd gwlyb, ac o bosib yn gwaethygu yn sgil cynnydd mewn twristiaeth<br>• newid mewn twf a defnydd porthiant<br>• Risg o dannau gwyllt yn cynyddu o 30-50%<br>• erydiad o ganlyniad i gynnydd mewn digwyddiadau yn sgil stormydd.<br>• yr ôl-effaith o newidiadau i arferion rheoli tir. | Adnoddau naturiol ar gyfer cynhyrchu ynni gwyrdd ac yn ei sgil yn cyfrannu tuag at leihau nwyon tŷ gwydr yn ogystal â manteision economaidd a'r posibilrwydd o leihad mewn costau ynni i'r cymunedau lleol.<br><br>Ers 2011, gwelwyd yr arwynebedd a orchuddir gan borfa barhaol, glaswelltir bras a glaswelltir newydd (y cyfan yn amsugno carbon) yn cynyddu'n gyson. | • Fel y nodir yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru), helpu i gyrraedd targed Cymru sef lleihau allyriadau yng Nghymru o 80% erbyn 2050 (a thargedau eraill yn y cyfamser) drwy:<br>o Gydweithio gyda Llywodraeth Cymru ar y modd y gall Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a'i bartneriaid gyfrannu tuag at eu cynllun cyflawni sydd i'w gyhoeddi yn 2019.<br>o Gyda phartneriaid, asesu potensial Eryri ar gyfer cadw/storio carbon<br>o Partneriaid **Cynllun Eryri** i ymuno â chynllun i archwilio cyfleoedd i wyrddu eu sefydliadau, megis fflydoedd cerbydau trydan, pwyntiau gwefru ar eu heiddo ar gyfer staff a defnydd cyhoeddus, a gwyrddu eiddo drwy well effeithlonrwydd egni, ynni gwyrdd a dulliau eraill.<br>o Archwilio cyfleoedd i fuddsoddi mewn tir sydd â gwerth storio carbon a'r cyfloed perthnasol am werth drwy gynlluniau atredu carbon. |

| **Heriau (problemau allweddol)**<br><br>A'u heffaith bosibl ar gyfer y 5 mlynedd nesaf a thu hwnt | **Cyfleoedd**<br><br>yn yr hinsawdd gyfredol a'u heffaith posib | **Y Ffordd Ymlaen Arfaethedig**<br><br>Sut bwriadwn ni a'n partneriaid fynd i'r afael â phroblemau allweddol a manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd |
|---|---|---|
| *Gwarchod a gwella tirweddau* | | |
| Effaith cynhyrchu ynni gwyrdd ar y dirwedd, yr amgylchedd hanesyddol, ecoleg, yn ogystal ag effeithiau echdynnu dŵr a'r gwasgaru cynyddol o rywogaethau ymledol. | | • Drwy'r polisi cynllunio, sicrhau bod datblygiadau ynni wedi'u lleoli'n briodol. |
| Effaith negyddol gweithgareddau hamdden ar dirlun a nodweddion arbennig Eryri o ganlyniad i bwysau parcio, erydu llwybrau, digwyddiadau a drefnir/ gweithgareddau hamdden anaddas/ anghyfreithlon, e.e. gyrru oddi ar y ffordd, gwersylla heb ganiatâd. | Mae amrywiaeth anhygoel tirwedd o fynyddoedd creigiog, rhostiroedd, coedwigoedd, traethau, dyffrynnoedd serth ac aberoedd yn darparu adnoddau hamdden gwerthfawr ac yn cynnal diwydiant ymwelwyr ffyniannus:<br><br>• afonydd ar gyfer pysgota;<br>• coedwigoedd ar gyfer chwaraeon gan gynnwys beicio mynydd;<br>• cerdded mynyddoedd.<br>• Dringo<br>• Beicio mynydd<br>• Beicio ar y ffordd a beicio-teithol | • "Cynlluniau Lle" lleol a chynlluniau rheoli cyrchfan er mwyn rheoli effaith gweithgareddau hamdden sy'n cynnwys:<br><br>o Datrysiadau sy'n gynaliadwy i broblemau parcio megis gwell gwybodaeth sy'n fwy hygyrch, gwell trafnidiaeth gyhoeddus, arwyddion cliriach a dewisiadau gorlif tymhorol.<br><br>o Mynd i'r afael â materion erydiad llwybrau drwy er enghraifft, gynyddu recriwtio a defnyddio gwirfoddolwyr ar gyfer gwaith cynnal a chadw sylfaenol, uwch-sgilio'r contractwyr lleol ar gyfer gwaith mwy cymhleth, blaenoriaethu gwaith mynediad ar lwybrau sy'n brysurach ac annog dewisiadau amgen i'r ardaloedd pot mêl traddodiadol.<br><br>o Datblygiad pellach o'r berthynas ag uned Troseddau Gwledig heddlu Gogledd Cymru, a grwpiau '4x4' i fynd i'r afael â phroblemau gyrru anghyfreithlon oddi ar y ffordd.<br><br>o Gweithio gyda phartneriaid i gasglu data gwell ar y broblem '4x4' ar draws y Parc.<br><br>o Parhau i weithio gyda sefydliadau a grwpiau eraill i ddatblygu atebion lle mae gwrthdaro hamdden yn bodoli e.e. Grŵp Beicio'r Wyddfa |
| Gallai'r posibilrwydd o gynyddu plannu coedwigaeth masnachol ar raddfa fawr (o ganlyniad i adawiad tir sy'n bosib o ganlyniad i Brexit) effeithio ar nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol. | Gallai newidiadau posib yn yr ucheldir ar ôl Brexit roi cyfleoedd ar gyfer gwahanol ffyrdd o reoli cynefinoedd a thirweddau. | • Parhau i gydweithio gyda phartneriaid i fapio ardaloedd lle mae potensial i ehangu coetir cynhenid a chysylltiadau rhwng coetiroedd drwy ddefnyddio coridorau bywyd gwyllt.<br><br>• Potensial i wella'r dull o fapio coed hynafol, er engraifft drwy prosiectau gwyddoniaeth dinesyddion.<br><br>• Parhau i weithio gyda phartneriaid ar ddatblygu cynlluniau plannu priodol o fewn y Parc Cenedlaethol. |

| **Heriau (problemau allweddol)**<br><br>A'u heffaith bosibl ar gyfer y 5 mlynedd nesaf a thu hwnt | **Cyfleoedd**<br><br>yn yr hinsawdd gyfredol a'u heffaith posib | **Y Ffordd Ymlaen Arfaethedig**<br><br>Sut bwriadwn ni a'n partneriaid fynd i'r afael â phroblemau allweddol a manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd |
|---|---|---|
| Gall sbwriel o ganlyniad i hamdden effeithio ar ymddangosiad y tirwedd ac ar gymunedau lleol.<br><br>Gall erydiad o ganlyniad i hamdden a gweithgareddau eraill effeithio ar edrychiad y tirwedd yn ogystal ag effeithio ar gynefinoedd, rhywogaethau a pridd. | | • Archwilio a gweithredu cyfleoedd fydd yn ein symud ymlaen tuag at Eryri diwastraff yn cynnwys:;<br>o cymryd camau pragmatig yn erbyn sbwriel a thipio anghyfreithlon;<br>o cefnogi, annog a bod yn rhan o gynlluniau fydd yn gwella perfformiad ailgylchu;<br>o annog defnyddwyr i ymddwyn yn gynaliadwy;<br>o cefnogi busnesau yn yr economi gylchol;<br>o cefnogi cynlluniau fydd yn lleihau gwastraff bwyd.<br>o lleihau sbwriel trwy hyrwyddo cynnyrch lleol a marchnadoedd lleol ac annog busnesau i ddefnyddio deunydd ailgylchu / bioddiraddadwy yn unig.<br><br>Mynd i'r afael ag effeithiau cynyddol erydiad trwy:<br>o Gwaith llwybrau gyda phwyslais penodol ar gynnal a chadw er mwyn gwarchod y gwaith a wnaed eisoes.<br>o Codi ymwybyddiaeth y cyhoedd o effeithiau erydiad a'r hyn gall cerddwyr ei wneud i helpu.<br>o Sicrhau cyllid ac adnabod ffynhonnellau newydd (e.e. cyfraniadau gan digwyddiadu wedi eu drefnu) ar gyfer y gwaith o wella a cynnal a chad llwybrau a rheoli erydiad.<br>o Osgoi gweithgareddau amaethyddol a coedwigaeth sydd yn creu colled o phridd. |
| Isadeiledd amhriodol megis llinellau pŵer foltedd uchel yn effeithio ar dirwedd Eryri | | • Gweithio gyda'r Grid Cenedlaethol ar gyfleoedd i danddaearu llinellau pŵer. |
| ***Safon dŵr ac aer*** | | |
| Effaith ffosffadau ac erydiad pridd yn deillio o amaethyddiaeth, coedwigaeth, ffynonellau domestig a thrin dŵr ar afonydd, gan gynnwys:<br>o ansawdd dŵr ymdrochi gwael (e.e. Aberdyfi)<br>o hyfywedd masnachol gwelyau pysgod cregyn<br>o algal yn blodeuo mewn llynnoedd<br>o stoc eogiaid yn dirywio.<br><br>Sylweddau o hen fwynfeydd copr yn effeithio ar ansawdd dŵr.<br><br>Cynnydd posib mewn ffosffadau o ganlyniad i gynnydd yn y diwydiant llaeth yn sgil Brexit. | Lleihau'r ffosffadau gormodol mewn dŵr o ganlyniad i waith CNC a Dŵr Cymru gyda ffermydd. | • Ymgyrchu i sicrhau fod rheolaeth a chefnogaeth gref i ffermio llaeth (a diwydiannau amaethyddol eraill) er mwyn lleihau i'r eithaf effaith ffosffadau ar ffosydd ac afonydd.<br>• Sicrhau – trwy bolisi cynllunio – bod datblygiadau newydd yn ystyried yr angen am ddiogelu a gwella ansawdd dŵr.<br>• Gweithio mewn partneriaeth â Dŵr Cymru a CNC i barhau i wella ansawdd dŵr trwy fonitro, ymwybyddiaeth o orfodaeth ac addysg.<br>• Datblygu a chefnogi prosiectau yn yr ucheldir sy'n helpu i wella ansawdd dŵr. |
| | Un o'r mannau gorau yn y DU ar gyfer ansawdd aer | • Parhau i fonitro ansawdd aer.<br>• Hyrwyddo ansawdd awyr gwych Eryri. |

| **Heriau (problemau allweddol)**<br><br>A'u heffaith bosibl ar gyfer y 5 mlynedd nesaf a thu hwnt | **Cyfleoedd**<br><br>yn yr hinsawdd gyfredol a'u heffaith posib | **Y Ffordd Ymlaen Arfaethedig**<br><br>Sut bwriadwn ni a'n partneriaid fynd i'r afael â phroblemau allweddol a manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd |
|---|---|---|
| *Yr amgylchedd hanesyddol ac adeiledig* | | |
| Dirywiad parhaus yng nghyflwr adeiladau rhestredig a thraddodiadol, a safleoedd sydd heb eu dynodi o ddiddordeb archaeolegol a'u cyfraniad at rinweddau arbennig y Parc Cenedlaethol.<br><br>Dirywiad yn argaeledd ac adnoddau / grantiau i wneud gwaith gwella i adeiladau rhestredig.<br><br>Effaith newid hinsawdd ar gyflwr henebion dynodedig ac henebion heb ei ddynodi (ymlediad llystyfiant, erydiad pridd) ac ar lystyfiant mewn parciau a gerddi hanesyddol. | Cyfleoedd cydweithio mewn perthynas â Safle Treftadaeth y Byd Cestyll a Muriau Trefi'r Brenin Edward yng Ngwynedd (Harlech yn y Parc Cenedlaethol), ynghyd a'r enwebiad tirwedd llechi.<br><br>Mae dal rhai cyfleoedd i ddenu arian, yn enwedig ar gyfer prosiectau cadwraeth ar raddfa'r tirwedd. | • Parhau â'r rhaglenni grant sy'n cefnogi perchnogion i atgyweirio / adfer adeiladau rhestredig a dod a nhw'n ôl i ddefnydd trwy ddatblygiad sympathetig.<br><br>• Parhau gyda'r rhaglen o arolygu 100% o adeiladau rhestredig mewn perygl bob pum mlynedd i sicrhau data cyfoes, a thrwy'r arolwg hwn targedu adeiladau gyda grantiau.<br><br>• Partneriaid i gydweithio ar flaenoriaethau allweddol yn ymwneud â Harlech yng Nghynllun Rheoli Treftadaeth y Byd Gwynedd.<br><br>• Gweithio gyda phartneriaid i gefnogi a datblygu sgiliau traddodiadol yn lleol a fydd yn ei tro yn helpu i wella cyflwr adeiladau hanesyddol.<br><br>• Gyda phartneriaid parhau i adeiladu ar lwyddiant prosiectau graddfa tirwedd fel Partneriaeth Tirwedd y Caerneddau. Gweithio ar agor ein lleoliadau hanesyddol a gwella mynediad at henebion hanesyddol, yn ogystal â gwella cymeriad trefol a datblygu rhaglenni mynediad hanesyddol newydd. |
| *Ymgysylltu pobl â'u hamgylchedd* | | |
| | Potensial arwyddocaol o fanteision llesiant ddaw o'r amgylchedd:<br><br>• Lefelau uwch o weithgareddau corfforol<br>• Gwell iechyd meddwl<br>• Gwell iechyd corfforol<br>• Gostyngiad mewn anghyfartaledd iechyd | • Archwilio cyfleoedd i wella lles poblogaeth Gogledd Cymru drwy amgylchedd y Parc Cenedlaethol (gweler yr adran ar 'Iechyd a Hapusrwydd Eryri' am fwy o fanylion)<br><br>• Archwilio cyfleon i wella cysylltiad rhwng cymunedau ac ysgolion a'u hamgylchedd trwy ein gwaith(gweler yr adran ar 'Iechyd a Lles Eryri' am fwy o fanylion) |
| | Trwy gysylltu pobl â'u hamgylchedd a gwella eu dealltwriaeth o'r hyn sy'n gwneud Eryri yn arbennig, bydd pobl yn cael eu hannog i warchod a gwella'r Parc Cenedlaethol. | • Hyrwyddo cyfleoedd i wirfoddoli sy'n helpu gwarchod a gwella'r amgylchedd.<br><br>• Chwilio am gyfleoedd i gymunedau lleol ymgysylltu a dysgu am eu hamgylchedd. |
| | Buddiannau economaidd o ganlyniad i lwyddiant dynodiad Gwarchodfa Awyr Dywyll Ryngwladol. | • Parhau i ddatblygu twristiaeth gofod a mannau arsylwi sy'n ymdoddi i'r tirlun<br><br>• Trwy bolisiau'r C.D.Ll, sicrhau bod goleuo mewn datblygiadau newydd yn ystyried statws y Warchodfa Awyr Dywyll Ryngwladol<br><br>• Archwilio cyfleon i ariannu ymgysylltu â chymunedau a busnesau i lleihau effaith goleuo presennol |

| **Heriau (problemau allweddol)**<br><br>A'u heffaith bosibl ar gyfer y 5 mlynedd nesaf a thu hwnt | **Cyfleoedd**<br><br>yn yr hinsawdd gyfredol a'u heffaith posib | **Y Ffordd Ymlaen Arfaethedig**<br><br>Sut bwriadwn ni a'n partneriaid fynd i'r afael â phroblemau allweddol a manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd |
|---|---|---|
| *Talu am wasanaethau ecosystem* | | |
| | | • Gweithio gyda phartneriaid a rhaglenni er mwyn sefydlu marchnadoedd ar gyfer cadw carbon.<br><br>• Cefnogi a hyrwyddo cynlluniau rheoli tir sydd yn gwella storio carbon. |
| Asedau atal llifogydd (e.e. argloddiau llifogydd, llifddorau ayyb) yn methu oherwydd diffyg buddsoddiad cyfalaf.<br><br>Effaith ar adnodd mawn yn yr ucheldir ac ar dir isel gan y canlynol: coedwigo, gwaddodi nitrogen, gor bori a than bori, erydiad, esgeulustod/rheolaeth anaddas, cyfoethogi a draenio. | Mae'r ardal eang ac amrywiol o gynefinoedd mawndir yn adnodd gwerthfawr ar gyfer: gwella ansawdd dŵr, dal carbon; gwerth bioamrywiol; gwrthsefyll risg llifogydd.<br><br>Cyfleoedd posibl i fanteisio ar wasanaethau ac ecosystemau a ddaw yn sgil Brexit. | • Gwella ansawdd mawndir ymhellach trwy reolaeth dda (fel y nodir yn Strategaeth Mawndir APCE) gan gynnwys:<br>o Cau ffosydd<br>o Mynd i'r afael â phroblemau erydiad<br>o rheoli tir pori<br>• Gweithio gyda grwpiau o fewn y dalgylch e.e. Grŵp Partneriaeth Llifogydd Conwy er mwyn datblygu cynlluniau llifogydd cymunedol.<br><br>• Pwyso am well tâl am weithredu gwasanaethau ecosystem. |
| *Egni gwyrdd, trafnidiaeth wyrdd ac adeiladau gwyrdd* | | |
| Prosiectau ynni gwyrdd – ni ddaw manteision economaidd i'r ardal leol wrth i fusnesau o'r tu allan fuddsoddi yn yr ardal. | | • Hyrwyddo'r defnydd o gynlluniau - ar raddfa addas – gan dirfeddianwyr i gynhyrchu ynni, a chynlluniau cymunedol ar gyfer ynni adnewyddadwy. |
| Diffyg cynhwysedd mewn cysylltiadau grid ar gyfer prosiectau ynni gwyrdd yn cael effaith ar brosiectau ynni gwyrdd. | Potensial i leihau allyriadau carbon a lleihau cost ynni i bobl leol | • Annog tanddaearu'r llinellau pŵer presennol, sy'n weledol ac ymwthiol. |

| **Heriau (problemau allweddol)**<br><br>A'u heffaith bosibl ar gyfer y 5 mlynedd nesaf a thu hwnt | **Cyfleoedd**<br><br>yn yr hinsawdd gyfredol a'u heffaith posib | **Y Fforddd Ymlaen Arfaethedig**<br><br>Sut bwriadwn ni a'n partneriaid fynd i'r afael â phroblemau allweddol a manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd |
|---|---|---|
| Nid oes unrhyw pwynt gwefru ceir trydan cyflym o fewn y Parc Cenedlaethol (h.y. rhai sy'n gwefru o fewn dwy awr) | Twf yn y defnydd o geir trydan yn cefnogi'r lleihad mewn allyriadau CO². | • Ymchwilio'r cyfleoedd i osod pwyntiau gwefru cyflym ceir trydan yn y Parc Cenedlaethol yn enwedig ar dir sydd wedi ei reoli gan bartneriaid i'r Cynllun. |
| *Defnydd cynaliadwy o adnoddau naturiol y Parc* | | |
| Diffyg cymhelliant economaidd ar gyfer plannu coed a rheoli coetiroedd. Prinder tir a chontractwyr . | Gall coedwigoedd a choedlannau ddod â manteision economaidd sylweddol megis cynaeafu coed a chyfleoedd hamdden, yn ogystal ag amsugo carbon ac atal gwaddodiad ac erydiad. | • Cyfleoedd i ymgyrchu i wella taliadau a phrosiectau i wella gwasanaethau bioamrywiaeth ac ecosystemau ar ôl Brexit yn ogystal ag archwilio cyfleoedd ar gyfer buddsoddiad gan y sector preifat. |

Sut gall y ffordd ymlaen a gynigir fod o gymorth i gyfrannu tuag at amcanion lles cenedlaethol

| Parc Cenedlaethol llewyrchus | Parc Cenedlaethol cadarn | Parc Cenedlaethol iachach | Parc Cenedlaethol mwy cyfartal | Parc Cenedlaethol gyda chymunedau cydlynol | Parc Cenedlaethol lle mae'r Gymraeg a'r diwylliant yn ffynnu | Parc Cenedlaethol cyfrifol yn fydeang |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Caiff adnoddau naturiol ac amgylchedd hanesyddol yn Eryri eu gwarchod a'u gwella tra hefyd yn darparu cyfleoedd gwaith ac incwm** | **Mae gan Eryri amgylchedd naturiol sy'n gyfoethog mewn bio-amrywiaeth ac ecosystemau iach a gweithredol.** | **Mae amgylchedd naturiol Eryri yn cyfrannu tuag at wella lles meddyliol a chorfforol ei boblogaeth.** | **Mae amgylchedd naturiol Eryri yn ffynhonnell bwysig o waith ac incwm cynaladwy** | **Mae gwirfoddoli ar brosiectau amgylcheddol a phrosiectau cynhyrchu ynni yn help i ddod â chymunedau at ei gilydd.** | **Caiff treftadaeth naturiol a diwylliannol Eryri ei diogelu a'i gwella** | **Mae Eryri yn cyfrannu'n sylweddol tuag at dargedau cenedlaethol i leihau allyriadau carbon** |

CWESTIWN YMGHYNGHORIAD ?

*A ydym wedi nodi prif heriau a chyfleoedd y dyfodol mewn perthynas ag amgylchedd Eryri? Ydych chi'n hapus â'n ffordd arfaethedig ymlaen neu a oes gennych unrhyw syniadau i'w hychwanegu?*

# Iechyd a Lles Eryri

## Cyfleoedd i ddysgu drwy ein treftadaeth ar gyfer gwella llesiant corfforol a meddyliol a diwylliant bywiog

Rydym wedi casglu'r holl wybodaeth a data perthnasol sydd ar gael ar gyfer ardal ddaearyddol y Parc Cenedlaethol mewn perthynas â llesiant corfforol a meddyliol, treftadaeth, iaith a chyfleon hamdden yn yr ardal. Mae hyn yn rhoi darlun da i ni o'r sefyllfa bresennol.

## Llwybrau

**2755.76km** neu **1712.35m** o Hawliau Tramwy Cyhoeddus yn y Parc Cenedlaethol

**87.5%** o'r Hawliau Tramwy Cyhoeddus o fewn y Parc Cenedlaethol yn llwybrau cerdded

**14.9%** o'r Hawliau Tramwy Cyhoeddus ym Mharc Cenedlaethol Eryri yn llwybrau wedi eu hyrwyddo


Llwybr Arfordir Cymru – Wales Coast Path

**3%** o Hawliau Tramwy Cyhoeddus o fewn y Parc Cenedlaethol yn rhan o Lwybr Arfordir Cymru

**10%** o'r Hawliau Tramwy Cyhoeddus yn y Parc Cenedlaethol yn llwybrau ceffylau

Mae **21.4km** o lwybrau o fewn y Parc Cenedlaethol yn cael eu hystyried fel llwybrau 'mynediad i bawb'.

# Faint o bobl sy'n defnyddio llwybrau Eryri bob blwyddyn?




## 582,000

Yn ymweld â'r Wyddfa yn flynyddol
Y trydydd atyniad/safle mwyaf poblogaidd yng Nghymru

# Lles corfforol a meddyliol



## Iechyd Da

Er fod ganddi boblogaeth hŷn, o ran canran, mae gan bobl yn Eryri well iechyd da o'i gymharu â Chymru gyfan

**Cymru 77.7%**
**Eryri 80.5%**

CYFLE ALLWEDDOL




## Iechyd Gwael

**Cymru 7.6%**
**Eryri 4.9%**

"Dringwch y mynyddoedd a bydd heddwch natur yn llifo i mewn i chi wrth i'r heulwen lifo i'r coed. Bydd y gwynt yn chwythu eu ffresni eu hunain ynoch chi a'r stormydd eu hegni eu hunain, tra bydd eich poenau yn sythio oddi arnoch i ffwrdd fel dail yr Hydref."

**John Muir**

## Oedolion gordew




Cymru | Gwynedd a Conwy

**Mae 9 grŵp cerdded iechyd lleol wedi eu lleoli o fewn neu o gwmpas y Parc Cenedlaethol**

CYFLE ALLWEDDOL

**Disgwylir i achosion o ddementia yng nghefn gwlad Cymru gynyddu**

PWNC ALLWEDDOL

**↑ 44% erbyn 2021**

Gyda phoblogaeth leol o bron i 700,000 o bobl o fewn tafliad carreg i'r Parc Cenedlaethol (poblogaeth Gogledd Cymru, 2011) mae cyfleoedd sylweddol i ddefnyddio amgylchedd y Parc Cenedlaethol er mwyn helpu i wella iechyd poblogaeth gogledd Cymru. Mae hyn yn arbennig o wir i gymunedau difreintiedig, gan fod nifer uchel iawn yn amgylchynu'r Parc Cenedlaethol.

# Iechyd Meddwl

**8.9%**
o oedolion yng Ngwynedd a Chonwy yn adrodd eu bod yn cael eu trin am salwch meddwl, o'i gymharu â **12.1%** yng Nghymru



PWNC ALLWEDDOL

**30%**
Mae derbyniadau gogledd Cymru ar gyfer anhwylderau iechyd meddwl o fewn pobl ifanc yn **30%** yn uwch na gweddill Cymru

## Pa ffactorau sy'n cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar iechyd meddwl?

- (+) incwm uwch a statws economaidd-gymdeithasol
- (+) amgylchedd byw da
- (+) iechyd cyffredinol da
- (+) addysg
- (+) cyflogaeth gan gynnwys ymreolaeth, cefnogaeth a diogelwch
- (+) gweithgareddau fel cymdeithasu, gweithio tuag at nodau, hyfforddiant a chymryd rhan mewn gweithgareddau ystyrlon
- (+) ymgysylltiad cymdeithasol a rhwydweithiau personol, cymdeithasol a chymunedol cryf.
- (+) altruedd (gwneud pethau i eraill)

- (−) diweithdra
- (−) incwm is
- (−) dyled
- (−) camdriniaeth a thrais
- (−) unigedd cymdeithasol
- (−) bwlio
- (−) digwyddiadau bywyd straenus
- (−) colli ymreolaeth
- (−) tai annigonol
- (−) amgylcheddau gweithio gwael

# Beth ydi effaith yr amgylchedd ar lesiant pobl?

## Profwyd cysylltiad â'r canlynol:

CYFLE ALLWEDDOL

Amcangyfrif o werth carbon o 3 NPAS yn fwy na £24.4m

Ecosystemau a bioamrywiaeth yn sail i'r rhan fwyaf o'r hyn sy'n cadw pobl yn iach

Canolfan ar gyfer Diwylliant Cymreig

Arferion diwylliannol unigryw – dulliau a deunyddiau adeiladu lleol

Mae Eryri'n un o'r ardaloedd â'r niferoedd uchaf o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru

Amgylchedd hanesyddol wych yn cysylltu pobol â'u hanes a'u treftadaeth

Gwell cyswllt cymdeithasol a chydlyniad cymunedol i'r sawl sy'n byw mewn amgylchedd dda

Eryri sy'n gyfrifol am lefel byd-eang

Er
lev

Eryri a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu

Eryri â chymunedau cydlynus

Eryri sy'n
fwy cyfar

Anghydraddoldeb economaidd-gymdeithasol o ran iechyd meddwl 40% yn is

Lleihau goblygiadau iechyd

Amylchedd hanesyddol ffynianus yn denu ymwelwyr ac yn cyfri am 20% o holl wariant ymwelwyr

Ymweliadau i'r Parc Cenedlaethol gan ymwelwyr yn creu £6 biliwn y flwyddyn

38% o swyddi yn y Parc Cenedlaethol yn gysylltiedig â'r amgylchedd

yri
wyrchus

Amlygrwydd amgylcheddau o safon uwch yn arwain at fwy o fuddion

Storfa Carbon mewn pridd, mawn a choedtir

Lefelau uwch o weithgareddau corfforol

Eryri gydnerth

Ecosystemau iach yn darparu dŵr yfed glân

Rheoli ucheldir yn helpu i leihau llifogydd ar yr iseldir

Eryri iachach

rtal

Cyfradd curiad calon mwy ffafriol: pwysau gwaed: lefelau fitamin D: graddfa adfer a lefelau cortisol

Cynnydd lefel iechyd hunan-raddedig

Lleihad mewn straen, blinder, pryder ac iselder

Byw mewn amgylchedd werdd yn lleihau graddfa marwolaethau

Tyfiant ffetig a phwysau geni uwch

Datblygiad system imwnaidd iach

40% llai tebygol o fod yn ordew

Lleihad mewn asthma

# Astudiaeth achos: Y potensial ar gyfer rhagnodi cymdeithasol yn Eryri

Mae ymchwil diweddar yn awgrymu bod meddygon teulu ar draws y wlad yn fwyfwy awyddus ar y dull "mwy na meddygaeth" o ragnodi cymdeithasol, sy'n cynnwys gweithgareddau o fwyta'n iach i grwpiau gwau a chlybiau cerdded. Ymhlith 1,000 o feddygon (Nesta, 2013), credai pedwar o bob pump y dylai presgripsiynau cymdeithasol fod ar gael o'u meddygfeydd. Er hyn, mae profiad cleifion yn awgrymu bod y cyfleoedd i gael budd yn gyfyngedig. Holodd Nesta 2,000 o aelodau'r cyhoedd, gyda dim ond 9% yn dweud eu bod wedi derbyn presgripsiwn cymdeithasol. Dywedodd mwy na hanner (55%) y byddent yn hoffi i'w meddyg teulu eu cynnig.

Amcangyfrifwyd bod yr arbedion cost posibl yn rhywbeth rhwng £1.41 am bob £1 a fuddsoddwyd i £3.38 am bob £1 a fuddsoddwyd.

Gyda'r Ddeddf Llesiant yn ysgogi newid yng Nghymru, mae symudiadau eisoes ar y gweill i gyflwyno mwy o fentrau rhagnodi cymdeithasol, gyda Llywodraeth Cymru yn ddiweddar yn darparu cyllid i'r trydydd sector ar gyfer cynlluniau peilot.

**Ond pa mor effeithiol yw rhagnodi cymdeithasol?** Gwnaed llawer o ymchwil ar y pwnc hwn ac yn arbennig ar Weithgarwch Corfforol ar Gynlluniau Presgripsiwn (PARS), gyda rhai canlyniadau clir.

Cei'r dau fesur llwyddiant pwysig - cyfradd cadw a lefel gweithgaredd corfforol. Mae rhaglenni mwy yn arwain at lefelau uwch o weithgaredd corfforol. Mae cyfnodau dilyniant mwy (h.y. lle mae'r sawl sy'n cymryd rhan yn aros mewn cysylltiad â gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a chyfranogwyr eraill) hefyd yn cael effaith gadarnhaol ar gyfraddau llwyddiant. Mae ffioedd bach a ddefnyddir fel cymhelliant hefyd yn dylanwadu'n gadarnhaol ar gyfraddau cadw. Mewn un enghraifft o'r Iseldiroedd, mae cyfranogwyr yn talu ffi fach o 21 ewro, ond yn cael 10 ewro yn ôl os ydynt yn cadw at fwy na 80% o'r rhaglen.


Mae targedu grwpiau poblogaeth penodol fel merched neu bobl hŷn, neu dargedu grwpiau diagnostig penodol yn ogystal â nodweddion cymdeithasol demograffig penodol, a theilwra'r rhaglen i'w hanghenion yn cynhyrchu canlyniadau gwell.

**Mae ffactorau sy'n dylanwadu'n NEGYDDOL ar gyfradd llwyddiant cynlluniau PARS hefyd yn werth eu nodi.** Mae diffyg amser yn ffactor ar gyfer cyfranogwyr canol oed a merched, felly mae rhaglenni cartref - fel rhaglenni cerdded wedi'u profi i helpu. Mae bod yn ordew yn dylanwadu'n negyddol ar gyfraddau ymlyniad (mae diffyg hunan-barch yn golygu bod cleifion yn llai tebygol o fod eisiau cymryd rhan mewn gweithgareddau grŵp). Mae gweithredu yn y boblogaeth gyffredinol hefyd yn ddylanwad negyddol ar gyfradd llwyddiant cynlluniau.

**Felly sut y gellid defnyddio Eryri ar gyfer ymyriadau sy'n cyd-fynd â phwrpasau'r Parc Cenedlaethol?** Mae sawl math o weithgareddau rhagnodi cymdeithasol a fyddai'n cyd-fynd yn dda â phwrpasau'r Parc Cenedlaethol. Gallai'r rhain gynnwys teithiau tywys / iechyd a chlybiau gwyrdd, grwpiau addysg gymunedol, gweithgareddau celf, creadigrwydd a chyfeirio dysgu, gweithgareddau grŵp wrth atgyfeirio, gwirfoddoli, cyfeirio gwybodaeth ac arweiniad, addysg a chyflogaeth gefnogol, clybiau pysgota, gweithgareddau corfforol megis nofio a therapi dŵr (nofio yn y gwyllt) a beicio.

# Diwylliant bywiog a dylanwadol

CYFLE ALLWEDDOL



## Diwylliant o farddoniaeth, iaith, celf a cherddoriaeth

Roedd Eryri yn gartref i Hedd Wyn, bardd Cymraeg a enillodd Gadair Eisteddfod 1917 a hynny wedi iddo farw yn y Rhyfel Byd Cyntaf bump wythnos ynghynt. Gorchuddwyd y Gadair â lliain du a chaiff ei hadnabod fel 'Y Gadair Ddu'.



Cafodd Charles Darwin ei ddylanwadu'n fawr gan Eryri a threuliodd rhywfaint o amser yn Eryri, a helpodd i fframio llawer o ddulliau gwyddonwyr Oes Fictoria cyn ei daith môr chwedlonol ar 'The Beagle'.

"dywed wrtho (Sedwick) nad ydwyf fi fyth wedi rhoi'r gorau i ddiolch am y daith fer honno yng Nghymru"

Mae artistiaid brodorol ac ymwelwyr wedi cael eu hysbrydoli gan fawredd Eryri dros y canrifoedd



## Diwylliant o wirfoddoli



Yn 2016 cynhaliodd gwirfoddolwyr y Parc Cenedlaethol a'r Ymddiredolaeth Genedlaethol **1952** diwrnod o waith gwirfoddol



Yn 2016 fe wnaeth **905** gwirfoddolwr helpu i gynnal prosiectau i ofalu am y Parc Cenedlaethol

## Treftadaeth a Mynydda

Cofnodwyd y daith gyntaf i fyny'r Wyddfa ym 1798 gan fotanegydd Fictoraidd Peter Williams a W. Bingley i chwilio am



**Blanhigion Alpaidd Prin**

Defnyddwyd Eryri fel canolfan hyfforddi ar gyfer

**teithiau i fyny Everest**





Llofnododd teithwyr Everest 1953 eu henwau ar nenfwd Gwesty Pen y Gwryd

# Twristiaeth a Hamdden yn y Parc Cenedlaethol


## Nifer yr ymwelwyr

Fe wnaeth **3.89m** o bobl ymweld a'r Parc Cenedlaethol yn 2015.





Yn ystod 2015 roedd yna fwy o ymwelwyr dydd yn Eryri na rhai oedd yn aros




## O ble mae ymwelwyr yn dod?



# Llety


## Ble mae pobl yn aros




**0.32m** llety a wasanaethir



**1.1m** llety heb wasanaeth



**0.04m** aros gyda ffrindiau neu deulu

Amcangyfrifir bod **3,733** o leoedd gwlâu yn y Parc Cenedlaethol yn 2015, wedi'u lledaenu ar draws....

Yn ôl Cyngor Gwynedd "mae 78.1% o leoedd gwely twristiaeth Gwynedd o fewn y sector carafanau a gwersylla, gyda 12.6% mewn llety hunan-ddarpar, 6.3% mewn llety â gwasanaeth a 3.0% mewn mathau o lety 'Arall'. Mae'r ffigurau hyn yn awgrymu fod diffyg llety â gwasanaeth yn y Sir (gwestyau mawr yn arbennig) ".



Mae eraill yn teimlo y gallai cynnydd cyffredinol mewn llety o safon uchel fod o fudd i'r ardal, ond mae'r data o ran y gofynion posib ar gyfer y presennol a'r dyfodol yn gyfyng. Mae Cyngor Gwynedd wrthi'n comisiynu ymchwil pellach i'r maes yma. Gallai hefyd fod cyfleoedd pellach ar raddfa mwy lleol i assessu'r newidiadau yn y farchnad llety.

# Tueddiadau Ymwelwyr

Nododd **86%** o bobl fod eu profiad o Barciau Cenedlaethol Cymru yn 'dda iawn'. Roedd **81%** yn debygol o ymweld eto

CYFLE ALLWEDDOL

Roedd gan Barciau Cenedlaethol Cymru broffil oedran iau na Pharciau Cenedlaethol yr Alban a Lloegr ac roedd **57%** o ymwelwyr rhwng **0–44**

8 allan o 10 o bobl yn rhoi marc **9 neu 10** i Gymru fel lle i ymweld ag o

CYFLE ALLWEDDOL

**75%** o bobl yn ymweld â Pharc Cenedlaethol Eryri er mwyn mwynhau'r dirwedd, cefn gwlad neu draethau

CYFLE ALLWEDDOL

Teuluoedd oedd yr ymwelwyr mwyaf cyffredin i Barciau Cenedlaethol Cymru **(36%)**, sy'n nodi'r farchnad pwysig i Gymru ar hyn o bryd. Roedd ymweliadau â phartner/priod yn cyfrif am **33%** o ymwelwyr

# Gwybodaeth i ymwelwyr

## Canolfannau Croeso

**Cynnydd o 6.8%**

Yn dilyn gostyngiad yn niferoedd yr ymwelwyr i Ganolfannau Croeso'r Parc Cenedlaethol, mae'r niferoedd wedi cynyddu rhwng 2015/16 a 2016/17. Mae canolfannau Aberdyfi a Beddgelert yn rai tymhorol yn unig ac mae canolfan Betws y Coed ar agor drwy'r flwyddyn.

Rhwng 2015 a 2016 cynyddodd nifer yr ymwelwyr a nifer yr ymwelwyr unigryw i wefan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

**Cynnydd o 2.4% o ymweliadau unigryw**

Fe wnaeth **217,816** o bobl ymweld â'r canolfannau yn 2016/17

Cynyddodd gwerthiannau'r canolfannau rhwng 2015/16 a 2016/17 **(Cynnydd) o 23.2%**

CYFLE ALLWEDDOL

**27%** o ymatebwyr yn defnyddio'r rhyngrwyd i baratoi eu ymweliad

**37%** wedi bod o'r blaen

**16%** wedi cael gwybodaeth drwy siarad ag eraill

PWNC ALLWEDDOL

**5%** yn defnyddio Canolfannau Croeso

# Heriau a Cyfleoedd

Oddi wrth y data a'r gwaith ymchwil hwn, ynghyd â'r gwaith ymgynghori anffurfiol cychwynnol yr ydym wedi'i wneud, gallwn weld bod nifer o heriau a chyfleoedd allweddol yn bodoli ar gyfer llesiant corfforol a meddyliol, treftadaeth, iaith a chyfleoedd hamdden yn Eryri dros y blynyddoedd sydd i ddod.

| **Heriau (problemau allweddol)**<br>A'u heffaith bosib ar gyfer y 5 mlynedd nesaf a thu hwnt | **Cyfleoedd**<br>yn yr hinsawdd gyfredol a'u heffaith posib | **Y Ffordd Ymlaen Arfaethedig**<br>Sut bwriadwn ni a'n partneriaid fynd i'r afael â phroblemau allweddol a manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd |
|---|---|---|
| *Hamdden a llesiant* | | |
| Mae nifer y cerddwyr mynydd yn parhau i gynyddu o flwyddyn i flwyddyn. Golyga hyn fod pwysau mawr yn cael ei roi ar adnodd hamdden Eryri drwy hamdden ei hun.<br><br>Lleihad yn yr adnoddau sydd ar gael i wneud gwaith mynediad angenrheidiol er mwyn cadw'r llwybrau mewn cyflwr da. | Mae Eryri'n cynnig amrywiaeth eithriadol o ddewisiadau hamdden i ymwelwyr a phobl leol.<br><br>Gwelwyd cynnydd mawr yn y gwariant ar hamdden (11.9%). | • Dull cydlynol tuag at reoli effeithiau digwyddiadau wedi eu trefnu.<br>• Parhau i wella cyfleoedd ac isadeiledd mynediad a sicrhau bod arwyddion yn annog pobl i aros ar y llwybrau.<br>• Cynllunio a blaenoriaethu gwaith mynediad yn ôl yr adnoddau sydd ar gael, y cytundebau sydd ar waith a'r gofynion deddfwriaethol.<br>• Ymgynghori / a chynnal arolygon gyda phobl leol, llysgenhadon ac ymwelwyr i asesu eu hanghenion a'u gofynion mewn perthynas â mynediad yn eu ardal lleol, ynghyd ag unrhyw rwystrau y maent yn eu hwynebu i gael mynediad i'r awyr agored.<br>• Gwella ac arallgyfeirio seilwaith hamdden gan gynnwys llwybrau ac arwyddion, yn arbennig ar gyfer marchnadoedd y Anturwyr Teulu Actif a'r Anturwyr Cyn Teulu.<br>• Parhau i gael gwared ar rwystrau, sicrhau mynediad i bawb, a chynnig dewisiadau sy'n llai caeth o ran dodrefn. Datblygu a gweithredu safonau dros ardal y Parc.<br>• Sicrhau arwyddbyst a dodrefn o ansawdd uchel a chyson gan sicrhau gwell cyfleoedd mynediad ar draws y Parc Cenedlaethol.<br>• Parhau i ddatblygu, gweithredu a hyrwyddo codau mynediad ar gyfer grwpiau defnyddwyr gwahanol i leihau gwrthdaro. |
| | Mae Eryri yn boblogaidd nid yn unig gydag ymwelwyr ond pobl leol hefyd. Daw tua 20% o gerddwyr ar yr Wyddfa o ogledd Cymru<br><br>Mae poblogaeth Eryri ar y cyfan yn iachach a mwy actif na'r boblogaeth Genedlaethol. | • Hyrwyddo cyfleoedd i hybu llesiant y boblogaeth leol, yn enwedig teithiau o a rhwng pentrefi e.e. edrych ar y potensial i ddatblygu'r hen reilffordd rhwng y Bala a Trawsfynydd.<br>• Archwilio a datblygu cyfleoedd ar gyfer llwybrau sy'n addas i bawb, ac sy'n aml-ddefnydd a di-draffig ar gyfer beiciau, cerddwyr a cheffylau.<br>• Ymgyrch farchnata wedi'i dargedu at bobl leol. |
| | Potensial i wella iechyd a lles y boblogaeth leol ymhellach, drwy fentrau rhagnodi cymdeithasol yn y Parc Cenedlaethol. | • Gweithio gyda'r B.G.C (Byrddau Gwasaneth Cyhoeddus) i ddatblygu rhaglenni o fewn y Parc Cenedlaethol er mwyn gwella iechyd a lles e.e. teithiau lles, teithiau cerdded, beicio, dringo a gwylio bywyd gwyllt a chyfleoedd i wirfoddoli.<br>• Rhagnodi/gweithio cymdeithasol gyda meddygfeydd lleol gan ddefnyddio dulliau sydd wedi profi'n llwyddiannus |
| Pobl yn cael eu hamddifadu o gyfleoedd i fwynhau a dysgu am nodweddion arbennig Eryri oherwydd anfantais corfforol neu gymdeithasol. | Cyfleoedd i ddefnyddio'r safonau BS8300 newydd i wella hygyrchedd i bawb. | • Gweithio gyda phartneriaid i gasglu ymchwil ar y rhwystrau a wynebir gan grwpiau sydd wedi'u heithrio, a gweithredu ar unrhyw argymhellion .<br>• Cefnogi grwpiau sy'n cynrychioli pobol sydd wedi'u heithrio'n gymdeithasol i gael mynediad i'r Parc Cenedlaethol a'i mwynhau.<br>• Cynyddu nifer, hyd ac ansawdd y llwybrau ar gyfer pob gallu ar draws y Parc Cenedlaethol a lle bynnag sy'n bosib, defnyddio'r safonau BS8300 newydd i wella hygyrchedd i bawb.. |

| **Heriau (problemau allweddol)**<br><br>A'u heffaith bosib ar gyfer y 5 mlynedd nesaf a thu hwnt | **Cyfleoedd**<br><br>yn yr hinsawdd gyfredol a'u heffaith posib | **Y Ffordd Ymlaen Arfaethedig**<br><br>Sut bwriadwn ni a'n partneriaid fynd i'r afael â phroblemau allweddol a manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd |
|---|---|---|
| *Twristiaeth gynaliadwy* | | |
| Mae'r lleihad mewn ariannu cyhoeddus yn golygu fod llai o adnoddau ar gael er mwyn gofalu am isadeiledd, adnoddau naturiol a'r amgylchedd hanesyddol. | | • Sicrhau fod y gwaith o gynnal a chadw llwybrau ac isadeiledd yn cael ei flaenoriaethu'n effeithiol a'u bod yn derbyn y cyllid angenrheidiol er mwyn gwrthsefyll yr holl bwysau a roddir arno.<br><br>• Cydweithio gyda phartneriaid i sicrhau fod ffynonellau ariannol addas ar gael i reoli a hyrwyddo'r amgylchedd hanesyddol. |
| Llystyfiant yn meddiannu tir yr anghofiwyd amdano / tir wedi ei adael o ganlyniad posib i Brexit. Gall hyn effeithio ar fynediad i hamdden – h.y. llwybrau a mannau mynediad yn tyfu'n wyllt | | • Archwilio ffynonellau cyllid ac ymgyrchoedd i sicrhau fod digon o gefnogaeth ar gael ar gyfer rheolwyr tir a/neu'r awdurdodau perthnasol er mwyn cynnal mynediad.<br><br>• Cydweithio i sicrhau fod cefn gwlad yn cael ei reoli'n effeithiol er budd pawb. |
| Ni all cyfleusterau ymdopi gyda'r niferoedd cynyddol -rhoddodd 1 o bob 3 raddfa wael i feysydd parcio a thoiledau (ar yr Wyddfa) gan roi rhesymau fel 'ffioedd parcio drud', 'dim digon o leoedd parcio' a 'toiledau heb fod yn gweithio neu yn fudr'. | | • Hyrwyddo'n ehangach yr hyn sydd gan Eryri i'w gynnig fel cyrchfan, gan gynnwys datblygu canllawiau penodol ar gyfer ble a phryd i ymweld â'r Parc Cenedlaethol.<br><br>• Gwasgaru'r pwysau ymwelwyr drwy'r flwyddyn.<br><br>• Sicrhau arian digonol ar gyfer isadeiledd ymwelwyr er mwyn sicrhau y gellir ei gadw i safon uchel. |
| Er ei fod ar gynnydd, mae twristiaeth yn parhau yn dymhorol gyda rhai cyfnodau prysur iawn. 20% o ymwelwyr yn ymweld â'r Wyddfa ym mis Awst. | | • Annog ymwelwyr i ddod ar adegau gwahanol o'r flwyddyn – hyrwyddo tymor y gaeaf a thymor 'lliwiau'r hydref'. Defnyddio lluniau tymhorol ar wefannau. |
| | Manteisio ar dwf yn y farchnad eco-dwristiaeth. | • Datblygu cyfleoedd eco-twristiaeth priodol. |
| *Parcio a thrafnidiaeth* | | |
| Mae trafnidiaeth gyhoeddus wael yn golygu ei bod hi'n anodd i breswylwyr ac ymwelwyr fynd o gwmpas, a gall effeithio ar y dirwedd yn ogystal â'r mwynhad o safleoedd mwyaf eiconig Eryri.<br><br>Mae safleoedd prysur megis Yr Wyddfa ac Ogwen yn dioddef o broblemau parcio sylweddol, gydag effeithiau mawr ar gymunedau lleol, diogelwch ar y ffyrdd, y tirwedd a'r profiad ymwelwyr. | Gall cludiant fod yn fwy cynaliadwy os oes ganddo bwrpas deuol ar gyfer ymwelwyr a thrigolion, ac os yw poblogaeth sy'n heneiddio yn galw mwy amdano. | • Adolygu systemau trafnidiaeth gyhoeddus mewn ardaloedd poblogaidd i sicrhau ei fod yn cwrdd â gofynion ac anghenion ymwelwyr a thrigolion, ynghyd â yn gyllidol gynaliadwy a defnyddio cludiant cyhoeddus fel ffordd o gyflwyno gwybodaeth i ymwelwyr.<br><br>• Edrych ar atebion 'gwyrdd' i drafnidiaeth, a defnyddio technoleg glyfar i annog newid ymddygiad (e.e. cynllun menter)<br><br>• Sicrhau digon o drafnidiaeth wyrdd gyhoeddus ac arloesol er mwyn lleihau'r pwysau ar feysydd parcio mewn safleoedd poblogaidd.<br><br>• Gweithio mewn partneriaeth â thirfeddianwyr a chymunedau i archwilio cyfleoedd ar gyfer parcio dros dro ychwanegol, lle mae parcio yn broblem. |

| **Heriau (problemau allweddol)**<br><br>A'u heffaith bosib ar gyfer y 5 mlynedd nesaf a thu hwnt | **Cyfleoedd**<br><br>yn yr hinsawdd gyfredol a'u heffaith posib | **Y Ffordd Ymlaen Arfaethedig**<br><br>Sut bwriadwn ni a'n partneriaid fynd i'r afael â phroblemau allweddol a manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd |
|---|---|---|
| *Gwybodaeth ac addysg* | | |
| Ymwelwyr am y tro cyntaf o bosibl heb ddeall yn iawn beth yw'r côd cefn gwlad, hanes a diwylliant yr ardal ac yn dangos diffyg parch cyffredinol tuag at gefn gwlad.<br><br>4 o bob 10 ymwelydd â Chymru yn dod am y tro cyntaf. 20% o'r cerddwyr ar yr Wyddfa yn gerddwyr tro cyntaf. | Cyfleoedd i godi ymwybyddiaeth o'r dreftadaeth ddiwylliannol a'r amgylchedd hanesyddol. | • Annog parch a dealltwriaeth o'r Gymraeg, hanes a diwylliant yr ardal a'r côd cefn gwlad yn ogystal â negeseuon mynydda yn ddiogel.<br>• Arwain y ffordd ar ddefnyddio enwau lleoedd traddodiadol Cymraeg - o gartrefi i nodweddion tirwedd.<br>• Gweithio gyda phartneriaid, busnesau a chymunedau i ddatblygu cynlluniau a chronfeydd arian sydd yn hyrwyddo parch a dealltwriaeth – megis 'Rhodd Ymwelwyr' a sicrhau bod y cronfeydd hyn yn cefnogi prosiectau amgylcheddol sy'n gysylltiedig ag effaith ymwelwyr.<br>• Cyfleoedd i wella profiad yr ymwelydd trwy gysylltu ag agweddau hanesyddol a diwylliannol, e.e. Safle Treftadaeth y Byd, llwybrau llechi, hanes mynydda a hyrwyddo enwau lleoedd Cymreig a'r iaith Gymraeg. |
| Mae llawer o nodweddion arbennig Eryri yn ymwneud â'i threftadaeth ddiwylliannol a'i hamgylchedd hanesyddol, fodd bynnag, mae'n bosibl bod argaeledd gwybodaeth, yn ogystal â dealltwriaeth ymwelwyr ohono, yn gyfyngedig. | | • Drwy wybodaeth ac addysg, dathlu ffynonellau ysbrydoliaeth a safleoedd nodedig yn llenyddiaeth a diwylliant Cymru.<br>• Gwella a hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer mynediad i'r amgylchedd hanesyddol. |
| | Mae Canolfannau Croeso wedi nodi bod galw cynyddol am wybodaeth am gyfleoedd pysgota yn yr ardal. | • Datblygu canllawiau mewn un man ar gyfer pysgota yn Eryri, gan gynnwys cyfleoedd mynediad i bawb. |
| Lleihad yn nifer yr ymwelwyr â'r Canolfannau Croeso (er bod cynnydd bach yn 2016/17). | Er bod canran uchel o ymwelwyr yn cynllunio'u gwyliau ar y rhyngrwyd, maent hefyd yn debygol iawn o ymweld â Chanolfan Groeso am wybodaeth bellach pan fyddan nhw yma. | • Parhau i gynyddu hyfywedd y canolfannau Croeso:<br>o Gwella dealltwriaeth o'r hyn sydd gan y Canolfannau Croeso i'w cynnig er mwyn cynyddu defnydd.<br>o Datblygu Canolfannau Croeso ymhellach i fod yn bwyntiau canolog ar gyfer y gymuned – datblygu hybiau cymunedol drwy gynnig gwasanaethau lleol/cefnogaeth lle bo hynny'n bosibl.<br>o Defnyddio'r hybiau canolog/cymunedol hyn i arddangos gwaith Awdurdod y Parc Cenedlaethol a'i bartneriaid ac i gynyddu dealltwriaeth o Eryri a'r hyn sydd ganddi i'w gynnig. |
| Mae 52% o ymwelwyr yn dibynnu ar wybodaeth sydd ganddynt eisoes wrth drefnu eu gwyliau.<br><br>Mae cysylltedd symudol gwael yn y Parc Cenedlaethol yn cynnig heriau i bobl sy'n defnyddio'r ardal i gael gwybodaeth. | Mae 27% o ymwelwyr yn cynllunio'u gwyliau o flaen llaw ar y rhyngrwyd.<br><br>Mae % fawr o bobl yn cael mynediad at wybodaeth ar eu dyfeisiau symudol. | • Gweithio gyda phartneriaid i sicrhau bod adnoddau a gwybodaeth ar-lein yn gyson ac yn ddeniadol.<br>• Sicrhau bod dulliau traddodiadol o gyfathrebu e.e. print / dehongli ar gael ac o safon uchel ac yn diwallu anghenion ymwelwyr, yn enwedig mewn mannau heb signal ffôn.<br>• Cynnal ymchwil pellach gydag ymwelwyr a'r cymunedau lleol i ddarganfod ar ba fformat yr hoffen nhw weld gwybodaeth ar gael.<br>• Gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu atebion rhyngrwyd lleol ar raddfa fach megis diwifr cyhoeddus a sicrhau bod is-adeiledd sylweddol yn cael eu lleoli'n briodol er mwyn lleihau unrhyw effaith andwyol ar y dirwedd gyfagos. |

| **Heriau (problemau allweddol)**<br><br>A'u heffaith bosib ar gyfer y 5 mlynedd nesaf a thu hwnt | **Cyfleoedd**<br><br>yn yr hinsawdd gyfredol a'u heffaith posib | **Y Ffordd Ymlaen Arfaethedig**<br><br>Sut bwriadwn ni a'n partneriaid fynd i'r afael â phroblemau allweddol a manteisio i'r eithaf ar gy-fleoedd |
|---|---|---|
| *Eryri fel lleoliad* | | |
| | Mae Cymru yn denu proffil oedran iau na gwledydd eraill y DU ac mae Eryri yn ar-bennig o boblogaidd gyda theuluoedd a chyplau. | • Gwella gwybodaeth am gyfleoedd hamdden - wedi eu targedu'n benodol at y segmentau hyn yn y farchnad. |
| Nifer ymwelwyr i Eryri yn is na'r gred ymhlith y bobl sy'n ad-nabod yr ardal. | Eryri yw'r 3ydd mwyaf cyfarwydd o barciau cenedlaethol y DU, yn dilyn Ardal y Llyn-noedd ac Ardal y Peak ac mae nifer ymwel-wyr yn cynyddu 2.4% y flwyddyn. | • Gwaith brandio a marchnata i gynyddu ymwy-byddiaeth o Eryri. Comisiynu lluniau newydd o'r ardal. |
| Ymwelwyr yn drysu rhwng 'Snowdon' a 'Snowdonia'. | | • Gweithredu Cynllun Partneriaeth yr Wyddfa i sy-mud tuag at ddefnyddio'r enw Yr Wyddfa. Ystyried defnyddio Eryri yn hytrach nag 'Snowdonia' wrth gyfathrebu. |
| | Mae y datblygiad o 'Ffordd Cymru' - a'r ddau lwybr drwy'r Parc Cenedlaethol - ddarparu cyfleoedd i gysylltu pobl â thref-tadaeth a diwylliant cyfoethog Eryri a thynnu pobl i ffwrdd o safleoedd pot mêl. | • Gweithio gyda partneriaid i ddatblygu cyfleoedd mewn perthynas â 'Ffordd Cymru' |



Sut gall y ffordd ymlaen a fwriedir gyfrannu tuag at amcanion lles cenedlaethol

| Parc Cenedlaethol llewyrchus | Parc Cenedlaethol cadarn | Parc Cenedlaethol iachach | Parc Cenedlaethol mwy cyfartal | Parc Cenedlaethol gyda chymunedau cydlynol | Parc Cenedlaethol lle mae'r iaith Gymraeg a'r diwylliant yn ffynnu | Parc Cenedlaethol cyfrifol yn fyd-eang |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Twristiaeth cynaladwy yn gwneud cyfraniad cynyddol i economi'r ardal. | Amgylchedd naturiol a hanesyddol Eryri yn helpu i gefnogi cryfder cymdeithasol ac economaidd y cymunedau lleol. | Galluogi cymunedau i ddefnyddio'u hamgylchedd lleol i barhau yn iach yn feddyliol a chorfforol. | Cyfleoedd hamdden ar gael i bawb a thrafnidiaeth gwyrdd. | Seilwaith trafnidiaeth ardderchog yn y Parc Cenedlaethol yn cysylltu cymunedau lleol gyda chefnogaeth y diwydiant ymwelwyr. | Cyfleoedd hamdden yn dod â chymunedau at ei gilydd. Caiff ymwelwyr eu hannog i ddysgu a deall yr iaith Gymraeg a'r diwylliant. | Mae Eryri yn arwain y ffordd mewn twristiaeth gynaliadwy. |

CWESTIWN YMGHYNGHORIAD

?

*Ydyn ni wedi nodi prif heriau a chyfleoedd y dyfodol mewn perthynas â thwristiaeth, hamdden a diwylliant yn Eryri? Ydych chi'n hapus â'n ffordd arfaethedig ymlaen neu a oes gennych unrhyw syniadau i'w hychwanegu?*



# Cymunedau ac Economi Eryri

## Lle gwych i ddatblygu, byw a gweithio

Rydym wedi casglu'r holl wybodaeth a data perthnasol sydd ar gael ar gyfer ardal ddaearyddol y Parc Cenedlaethol mewn perthynas â chymunedau ac economi yr ardal. Mae hyn yn rhoi darlun da i ni o'r sefyllfa bresennol.

PWNC ALLWEDDOL



## Poblogaeth

# 25,702

Llai nag 1% o boblogaeth Cymru (3.063m)

**Amcangyfrifir y bydd poblogaeth Eryri yn gostwng 6.6% erbyn 2030.**

PWNC ALLWEDDOL

## Poblogaeth sy'n heneiddio

| | 0-18oed | 18-24oed | 25-29oed | 30-44oed | 45-59oed | 60-64oed | 65+oed | Cyfartaledd oed |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Eryri | 17.2% | 6.4% | 4.4% | 15.4% | 22.2% | 9.1% | 25.2% | 44 |
| Cymru | 20.6% | 9.7% | 6.1% | 18.6% | 19.9% | 6.7% | 12.3% | 38.6 |

Mae gan Gymru boblogaeth sy'n heneiddio gyda disgwyliad i'r sawl sydd dros 65 gynyddu i 26% erbyn 2033. Mae hyn yn arbennig o llym yn Eryri

## Pa mor gymwys?

### Lefelau addysg

Cymru / Eryri



| | Cymru | Eryri |
|---|---|---|
| Dim cymhwyster neu gymhwyster arall | 39.2% | 35.1% |
| TGAU Safon A-C | 15.7% | 17.3% |
| Level A | 12.3% | 11.1% |
| Lefel Gradd | 24.5% | 28.8% |

## Mewnfudo ac allfudo yng Ngwynedd a Chonwy (2015/2016)

PWNC ALLWEDDOL

| Oed | Yn symud i'r ardal | Yn symud allan o'r ardal | Newid |
|---|---|---|---|
| 0-29 mlwydd oed | 5,550 yn symud i'r ardal | 5,810 yn symud allan o'r ardal | ↓ 260 |
| 30-34 mlwydd oed | 1,590 yn symud i'r ardal | 1,490 yn symud allan o'r ardal | ↓ 100 |
| 45-64 mlwydd oed | 2,100 yn symud i'r ardal | 1,340 yn symud allan o'r ardal | ↑ 760 |
| 65+ mlwydd oed | 1,200 yn symud i'r ardal | 1,090 yn symud allan o'r ardal | ↑ 110 |

# Gwlad enedigol

### Ble ganed pobl?

| 2011 | 2001 |
|---|---|
| 59.3% | 62.6% |
| 36.9% | 34.07% |
| 0.8% | 0.6% |
| 2.8% | 2.7% |

# Y Gymraeg

PWNC ALLWEDDOL

**58.6%** yn gallu siarad Cymraeg

**3.5%** ↓ ers 2001

“Mae'r Gymraeg yn perthyn i'r tir yma, i'r ynys yma, iaith fwyaf hynafol gwŷr Prydain; ac mae'r Gymraeg yn brydferth.”

**J.R.R. Tolkien**

Mae Eryri'n parhau i fod yn gadarnle i'r iaith Gymraeg, ond mae'r gostyngiad yn y nifer o siaradwyr Cymraeg yn gyson â'r hyn a welir ar lefel cenedlaethol.

### Pa ffactorau sy'n effeithio ar niferoedd siaradwyr Cymraeg?

1. Mae Eryri'n parhau i fod yn gadarnle i'r iaith Gymraeg, ond mae'r gostyngiad yn y nifer o siaradwyr Cymraeg yn gyson â'r hyn a welir ar lefel genedlaethol.
2. Cyflogwyr yn adnabod pwysigrwydd a'r fantais o gefnogi'r iaith Gymraeg
3. Economi ffyniannus sy'n annog pobl i aros yn eu cymunedau.
4. Diffyg tai fforddiadwy.
5. Ail gartrefi.
6. Adeiladau o fewn y gymuned sydd yn galluogi pobl i ddod at ei gilydd.
7. Trosglwyddo iaith o fewn y teulu.

Mae'r sialensau hyn – y ostyngiad mewn poblogaeth, pobol ifanc yn allfudo o'r ardal, a pobol hynach yn mewnfydo, yn creu sialens mawr i'r ardal, yn enwedig mewn perthynas a'r iaith Gymraeg.

PWNC ALLWEDDOL

# Economi Eryri

## Cymharu'r prif ddiwydiannau cyflogaeth

### Eryri

1. Iechyd pobl a gwaith cymdeithasol 12.8%
2. Manwerthu a chyfanwerthu 12.7%
3. Addysg 12%
4. Llety a gweithgareddau gwasanaethau bwyd 11.6%
5. Adeiladu 9.9%
6. Amaethyddiaeth, coedwigaeth a physgota 7.2%

### Cymru

1. Manwerthu a chyfanwerthu 15.6%
2. Iechyd pobl a gweithgareddau gwaith 14.5%
3. Gweithgynhyrchu 10.5%
4. Addysg 10.1%
5. Adeiladu 8.2%
6. Gweinyddiaeth gyhoeddus ac amddiffyn 7.9%

Cyflogir mwy o bobl gan y sector gyhoeddus yng Nghymru (27.6% o'i gymharu â 21.6% ar draws y D.U.) Sy'n golygu fod Cymru yn fwy sensitif i newid gwleidyddol e.e. Brexit. Nid oes gan Wynedd (27.8%) na Chonwy (23.6%) y canrannau sector cyhoeddus uchaf yng Nghymru (mae gan Abertawe 31.8%) ond maent yn dal yn gymharol agored i newid gwleidyddol.

PWNC ALLWEDDOL

Mae gan Eryri **gyfradd ddi-waith sy'n** is na'r cyfartaledd cenedlaethol **3.1%** o'i gymharu â **4.3%** yn genedlaethol **a lefel uchel o bobl wedi ymddeol (20.5%) o'u gymharu â'r canran cenedlaethol (16.1%)**

**£26,863**

**cyfartaledd incwm ar wardiau**

**o fewn, neu'n rhannol o fewn y Parc Cenedlaethol. Mae hyn yn is na'r ffigwr cyfartalog o £30,806 ar gyfer y DU.**

## Hunangyflogedig

Mae bron i un mewn 5 o bobl yn Eryri yn hunangyflogedig sy'n fwy na **Dwbl** y cyfartaledd cenedlaethol

PWNC ALLWEDDOL

**Mae gan Ddwyfor-Meirionydd £15,236** y cyflog canolrifol blynyddol isaf yn y DU

PWNC ALLWEDDOL

Mae **43.7%** o bobl hunangyflogedig ardaloedd gwledig Cymru dros 60 oed (o'i gymharu â 31.3% yn Lloegr). Mae hyn yn creu heriau gyda chynllunio olyniaeth gyda gweithlu hunangyflogedig sy'n heneiddio

CYFLE ALLWEDDOL


**38%** o swyddi yn Eryri yn gysylltiedig â'r amgylchedd

PWNC ALLWEDDOL

**33%** yn teithio mwy na 6 milltir i'w gwaith (yng Nghwynedd)

# Effaith Economaidd Twristiaeth

## Dosbarthiad sectoraidd o'r effaith economaidd (£)





Llety
Trafnidiaeth
Siopa
Hamdden
Bwyd a diod
Anuniongyrchol

**Effaith economaidd (uniongyrchol ac anuniongyrchol) o weithgareddau twristiaeth ym Mharc Cenedlaethol Eryri yn 2015 oedd**

**£475.69m**

**Parc Cenedlaethol Eryri yw'r 4ydd uchaf o Barciau'r DU yn nhermau effaith economaidd yn sgil gweithgareddau twristiaidd**

Dyraniad yr effaith economaidd




Yr Alban | Cymru | Lloegr


**Mae gan Barciau Cenedlaethol Yr Alban a Chymru gyfran uwch o effaith economaidd na sydd ganddynt o ymwelwyr. Mae hyn yn awgrymu fod mwy o bobl yn aros yma**

**9.5%** yn 2017

**Mae'r gyfradd unedau manwerthu gwag yn is**

na chyfartaledd y DU (10.1%) ac wedi gostwng ers 2015 pan oedd canran y siopau gwag yn y Parc yn 14.5%. Mae gan rai mannau fel Harlech (20.5%) gyfradd uchel.

| | mae un ymwelydd yn aros am | ac yn gwario |
|---|---|---|
| Parc Cenedlaethol Eryri | 2.63 diwrnod | £122 |
| Parc Cenedlaethol Ardal y Llynnoedd | 1.46 diwrnod | £70 |
| Parc Cenedlaethol Dyffrynnoedd Swydd Efrog | 1.30 diwrnod | £66 |
| Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog | 1.21 diwrnod | £56 |




**Dosbarthiad cyflogaeth sectorol o fewn twristiaeth**




**uchaf o Barciau Cenedlaethol y DU yn nhermau pobl mewn cyflogaeth llawn amser sy'n ymwneud yn uniongyrchol â gweithgareddau twristiaeth**




**Amcangyfrifir fod gwariant ymwelydd Eryri ar gyfartaledd yn**


# £122

**sef yr ail uchaf o holl Barciau Cenedlaethol y DU**

# £140 milliwn

**Amcangyfrifir gwerth y sector gweithgareddau antur yng Ngogledd-Orllewin Cymru**






**Yn 2015, roedd 5,520 o bobl yn gweithio'n llawn amser o fewn y sector dwristiaidd yn Eryri. Pan fo cyflogaeth anuniongyrchol yn cael ei ychwanegu yna mae'r cyfanswm yn codi hyd at 6,860**

**Cafwyd cynnydd o 7.5% o ffigyrau 2014, ond mae cyfansswm 2015 yn is na'r hyn a welwyd yn 2010 pan roedd 7,513 o bobl mewn cyflogaeth llawn amser o fewn y sector dwristiaidd**


CYFLOGAETH MEWN DIWYDIANNAU AR Y TÎR
Gweithgareddau milfeddygol 3%
Coed 2%
Ceffylau 2%
Arall 3%
Amaeth anifeiliaid 60%
Cadwraeth amgylcheddol 6%
Garddwriaeth a tirlunio 9%
Gofal anifeiliaid 15%
Fynhonnell: Lantra, 2011

# Cyfrinach hapusrwydd yw..

Mae'r ddadl ynglŷn â sut i fesur llesiant cymdeithas yn un hir iawn, ond wrth i bwysau cynyddol gael ei roi ar ein hamser mae'n bwnc sy'n gynyddol bwysig. Ai cyfoeth yw'r unig beth sy'n bwysig, neu a ddylem fod yn edrych ar bethau eraill fel y cydbwysedd rhwng gwaith a gweddill ein bywydau?

Mae'r OECD wedi nodi mesuriadau sy'n cwmpasu 11 pwnc sy'n hanfodol i les o'r enw 'y Mynegai Bywyd Gwell'. Mae hyn yn cynnwys *amodau byw materol* (tai, incwm, swyddi) ac *ansawdd bywyd* (cymuned, addysg, amgylchedd, llywodraethu, iechyd, boddhad bywyd, diogelwch a chydbwysedd bywyd a gwaith).


Gallai'r dull rhyngwladol hwn o fesur hapusrwydd fod yn newid cadarnhaol yn y modd y mae gwledydd a'u llywodraethau yn asesu lles eu cenedl. Ond mae Cymru ar flaen y gâd am ei bod eisoes wedi gweithredu deddf arloesol i yrru'r ffordd yr ydym yn gwneud pethau yng Nghymru, i ganolbwyntio llawer mwy ar les pobl yn ei gyfanrwydd yn hytrach na dim ond ar yrwyr economaidd.

Mae **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol** (Cymru) yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus yng Nghymru feddwl am effaith hirdymor eu penderfyniadau, i weithio'n well gyda phobl, cymunedau â'i gilydd, ac i atal problemau parhaus fel tlodi, anghydraddoldebau iechyd a newid hinsawdd. Mae Gwynedd a Chonwy wrthi'n cynhyrchu cynlluniau llesiant newydd ar hyn o bryd.

Mae'r Ddeddf yn unigryw i Gymru, ac yn denu diddordeb o wledydd ar draws y byd gan ei fod yn cynnig cyfle enfawr i wneud newid cadarnhaol a pharhaol i genedlaethau'r presennol a'r dyfodol.

Mae Parciau Cenedlaethol yn cynnig cyfleoedd i wella hapusrwydd pobl. Profiwyd fod cysylltiad cryf rhwng yr amgylchedd a llesiant pobl, fel y gwelir ar dud. 50-51.

# Sut mae bywyd yng Nghymru?




# Sut mae bywyd o'ch cwmpas chi?

OECD Regional Well-Being

http://oecdregionalwellbeing.org

# Cymharu prisiau tai gydag incwm cyfartalog

**Conwy**
Pris cyfartalog
6.33
gwaith yr incwm cyfartalog

**Gwynedd**
Pris cyfartalog
7.01
gwaith yr incwm cyfartalog

**Cymru**
Pris cyfartalog
5.79
gwaith yr incwm cyfartalog

## Ydy ail gartref yn effeithio ar brisiau tai?

Mae'r siart hon yn dangos y pedwar ardal cyngor cymuned uchaf ac isaf mewn perthynas â % o ail gartrefi.

| % o ail dai | Cyfartaledd prisiau cartrefi |
|---|---|
| Aberdyfi 39% | £292,879 |
| Llanfihangel y Pennant 25% | £171,119 |
| Beddgelert 24% | £235,643 |
| Llanfair 22% | £236,500 |
| Bala 2% | £148,645 |
| Trawsfynydd 4% | £86,335 |
| Bryncrug 6% | £183,000 |
| Llanuwchlyn 7% | £131,444 |

MAE PERCHENNOG TŶ AR GYFARTALEDD YN TALU PRIS PREMIWM O 22% I FYW MEWN PARC CENEDLAETHOL

## OND SUT MAE PARCIAU CENEDLAETHOL Y DU YN CYMHARU?

MWYAF COSTUS

Y Fforest Newydd + £115,00
Y South Downs + £78,000
Ardal y Llynnoedd + £55,000

Ardal Y Peak + £50,600
Bannau Brycheiniog + £50,600
Eryri + £34,500

LLEIAF COSTUS

## Y Cynllun ar Gyfer Tai Fforddiadwy

**PWNC ALLWEDDOL**

Nod Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) Eryri yw darparu cyfleoedd ar gyfer tai fforddiadwy i bobl leol. Mae'r cynllun yn ceisio sicrhau'r effaith lleiaf posibl ar dirwedd yr ardal tra hefyd yn darparu digon o dai newydd i gefnogi cymunedau cynaliadwy. Er mwyn helpu i gwrdd â'r angen am dai fforddiadwy i bobl leol, mae safleoedd ar gyfer tai fforddiadwy wedi'u cynnwys yn y CDLl.

## Beth yw effeithiau a gwerth perchnogaeth ail gartrefi?

- Prisiau yn cael eu gwthio allan o gyrraedd prynwyr a rhentwyr lleol
- Dadleoli prynwyr a rhentwyr lleol
- Effeithio ar wasanaethau (yn enwedig ysgolion)
- Pwysau ar wasanaethau cymdeithasol
- Gostyngiad mewn cydlyniaeth cymunedau gwledig
- Effaith ar % siaradwyr Cymraeg
- Newidiadau demograffeg mewn cymunedau e.e. pobl yn ymddeol yn yr ardal

+ Buddsoddiad a gwelliant yn y stoc dai wledig
+ Perthnasau a chysylltiadau newydd i gymunedau gwledig
+ Ymestyn rhwydweithiau cymdeithasol
+ Pontio cyfalaf cymdeithasol

# Y broses cynllunio yn y Parc Cenedlaethol

| | 2015/16 | 2016/17 |
|---|---|---|
| Nifer o geisiadau a gofrestrwyd / | 611 | 592 |
| Canran a benderfynwyd o fewn 8 wythnos / | 71% (340/476) | 80% (422/529) |
| Canran o geisiadau wedi eu caniatáu | 89% | 87% |

# Cysylltedd band-eang

PWNC ALLWEDDOL

**50.9%** o dai yn Nwyfor Meirionnydd ac Arfon a 44.3% yn Aberconwy (y ddau prif etholaeth yn y Parc Cenedlaethol) yn derbyn cysylltiad band eang o lai na 10 Mb/s. Dyma rai o'r rhai arafaf yng Nghymru

**3%** o eiddo Gwynedd heb unrhyw fath o wasanaeth band-eang - gwelliant o'r **20%** yn 2011

# Mynediad at wasanaethau

**Bwriad Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru yw adnabod ardaloedd o Gymru sydd â'r mwyaf o amddifadedd. Un o'r mesuriadau yw mynediad at wasanaethau**

PWNC ALLWEDDOL

**17** ardal (o fewn neu'n rhannol o fewn y Parc Cenedlaethol)

**o fewn y 10% mwyaf difreintiedig**

yng Nghymru yn nhermau

**mynediad at wasanaethau**

sydd yn cynnwys amser teithio at:

- Siopau bwyd
- Meddygfeydd
- Ysgolion Cynradd ac Uwchradd
- Swyddfeydd Post
- Llyfrgelloedd Cyhoeddus
- Canolfannau Hamdden
- Fferyllfeydd
- Gorsafoedd Betrol





# Heriau a Cyfleoedd

Oddi wrth y data a'r gwaith ymchwil hwn fe welwn bod nifer o heriau a chyfleoedd allweddol y bydd cymunedau ac economi Eryri yn eu hwynebu dros y blynyddoedd nesaf.

| **Heriau (problemau allweddol)**<br><br>A'u heffaith bosibl ar gyfer y 5 mlynedd nesaf a thu hwnt | **Cyfleoedd**<br><br>yn yr hinsawdd gyfredol a'u heffaith posib | **Y Ffordd Ymlaen Arfaethedig**<br><br>Sut bwriadwn ni a'n partneriaid fynd i'r afael â phroblemau allweddol a manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd |
|---|---|---|
| *Swyddi o Safon Uchel* | | |
| Methu â chadw pobl ifanc yn yr ardal oherwydd diffyg cyfleoedd gwaith a diffyg tai fforddiadwy, ynghyd â phrisiau uchel tai.<br><br>Bydd cyfartaledd cyflogau isel ynghyd â rhewi'r budd-daliadau presennol a chyflwyno 'Universal Credit' yn cael effaith sylweddol ar fywydau pobl.<br><br>O gofio'r ddibyniaeth gymharol ar feysydd y sector cyhoeddus (25.7%) a sensitifrwydd y sector hwnnw i newid gwleidyddol, gallai Brexit ddod â heriau sylweddol ychwanegol i'r ardal o ran cyflogaeth.<br><br>Diffyg buddsoddiad cyfalaf yn yr ardal. | Posibilrwydd o gynnydd mewn rhai swyddi yn y sector amgylcheddol (yn cynnwys cadwraeth, amaeth a choedwigaeth). Twf yn bosibl os bydd taliadau yn symud i fod yn daliadau math piler 2 a chynlluniau PES.<br><br>Cyfleoedd ar gyfer datblygu cyflogaeth o fewn Parth Menter Eryri yn Nhrawsfynydd a Llanbedr, yn ogystal â thu hwnt, e.e. Wylfa Newydd. | • Cynhyrchu strategaeth 'tŵf gwyrdd' ar gyfer y Parc Cenedlaethol.<br>• Fel rhan o strategaethau rhanbarthol, cefnogi a hyrwyddo cyfleoedd i bobl ifanc a busnesau (o faint / graddfa a lleoliad priodol yn unol â pholisi cynllunio) sefydlu yn y sectorau canlynol:<br>o Cadwraeth<br>o Coedwigaeth<br>o Rheolaeth tir math Piler 2 a chynlluniau PES<br>o SG a diwydiannau technegol<br>o Yr economi gron<br>o Effeithlonrwydd ynni ac ynni adnewyddadwy<br>o Hamdden awyr agored sy'n gysylltiedig â'r agenda iechyd<br>• Galluogi polisïau i gefnogi'r gwaith o gadw datblygiad cyflogaeth presennol, datblygu cyflogaeth a busnes newydd a phrosiectau arallgyfeirio amaethyddol. |
| | Cyfleoedd i gynnig gwasanaethau a chynnyrch i boblogaeth hŷn ('punt lwyd') yn cynnwys twristiaeth, gwasanaethau ar-lein a chefnogaeth a thriniaethau gwella iechyd. | • Cefnogi a hyrwyddo cyfleoedd cynaliadwy ar gyfer gwasanaethau sydd yn targedu'r 'bunt lwyd'. |
| | Cyfleoedd ar gyfer twf yn y sector dwristiaeth (yn enwedig wrth gynnig gwerth ac ansawdd uchel) ynghŷd â mynediad at gynnyrch a gynhyrchir yn lleol. | • Cefnogi cyfleoedd addas ar gyfer cynigion o ansawdd/gwerth uchel o fewn y sector dwristiaeth. |
| *Seilwaith Cyfathrebu a Busnesau Digidol* | | |
| Diffyg cefnogaeth/seilwaith ar gyfer mentrau cychwynnol. | | • Gweithio gyda phartneriaid i sicrhau fod yr isadeiledd / cefnogaeth ar gael er mwyn i fentrau cychwynnol ffynnu. |
| Methu manteisio ar y diwydiant TG sy'n ehangu (byd cyber a thechnoleg cyfathrebu). | Cyfleoedd ar gyfer twf yn y sectorau TG ac ar-lein. | • Hyrwyddo Eryri fel lle delfrydol i sefydlu busnesau digidol. |
| Cysylltedd band eang a ffonau symudol gwael yn wael ac yn cyfyngu ar gyfleoedd i sefydlu a datblygu modelau busnes newydd a gwahanol, yn enwedig yn dilyn Brexit. | | • Cefnogi ac annog gwelliannau sy'n weledol dderbyniol i'r rhwydwaith band eang a ffon symudol.<br>• Datblygu 'pentrefi clyfar' ' edrych ar beilota'r dull gweithredu drwy LEADER (neu gynllun a gymerai ei le yn dilyn BREXIT) Mae 'Pentrefi Clyfar' yn cyfeirio at ardaloedd gwledig a chymunedau lle mae rhwydweithiau a gwasanaethau traddodiadol a newydd yn cael eu gwella drwy dechnolegau digidol, telathrebu, arloesi a gwell defnydd o wybodaeth, er lles trigolion a busnesau.<br>• Sicrhau nad yw unrhyw ddatblygiadau newydd i wella seilwaith cyfathrebu yn effeithio'n andwyol ar y dirwedd. |

| **Heriau (problemau allweddol)**<br><br>A'u heffaith bosibl ar gyfer y 5 mlynedd nesaf a thu hwnt | **Cyfleoedd**<br><br>yn yr hinsawdd gyfredol a'u heffaith posib | **Y Ffordd Ymlaen Arfaethedig**<br><br>Sut bwriadwn ni a'n partneriaid fynd i'r afael â phroblemau allweddol a manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd |
|---|---|---|
| *Busnesau Cynaliadwy* | | |
| Posibilrwydd y bydd y boblogaeth sy'n gweithio angen uwchsgilio/ail hyfforddi os bydd rhai diwydiannau'n dirywio yn sgil Brexit. | | Hyrwyddo, cefnogi a darparu mynediad i hyfforddiant a prentisiaethau mewn diwydiannau twf - yn benodol diwydiannau cynaliadwy / gwyrdd / eco. |
| Cwymp posibl yn y farchnad ŵyn ysgafn ac unedau mynydd yn dilyn Brexit.<br><br>Posibilrwydd y bydd lleihad mewn elw i fusnesau cynhyrchu yn dilyn Brexit.<br><br>Posibilrwydd y bydd cynnydd mewn costau byw yn dilyn Brexit yn enwedig o ganlyniad i gynnydd mewn prisiau bwyd. | Posibilrwydd y bydd twf mewn diwydiannau newydd ym meysydd bwyd/cynnyrch gan gynnwys: cynhyrchu gwin lleol, potelu dŵr, bridiau traddodiadol a chynnyrch moch arbenigol; cynnydd yn y galw am ddofednod wrth i brisiau cig coch gynyddu; busnesau cig eidion ar raddfa fechan yn cyflenwi'n uniongyrchol i gwsmeriaid; cynnyrch llaeth gan gynnwys iogwrt; cawsiau a menyn Ffrengig ; cynnyrch coedwigaeth. | • Cefnogi a hyrwyddo cyfleoedd i bobl ifanc a busnesau dyfu (o raddfa addas ar gyfer y Parc Cenedlaethol) o fewn y sector amaethyddol gan gynnwys:<br>o diwydiannau tŵf ym maes cynhyrchu bwyd cynaliadwy<br>o cadwynau byr o gyflenwyr bwyd lleol<br>o systemau ffermio fertigol<br>o systemau cyfansawdd<br>o cyfleusterau â tharddiad lleol e.e. lladd-dai / oeri / prosesu ac ati<br>• Trwy'r CDLl, sicrhau fod gosodiad a lleoliad datblygiadau mawr newydd yn addas a'u bod yn diogelu'r golygfeydd i mewn ac allan o'r Parc Cenedlaethol. |
| Cynnydd mewn prisiau bwyd ar gyfer y diwydiant twristiaeth, o ganlyniad i Brexit yn rhoi straen gynyddol ar faint yr elw | Cyfleoedd i gynhyrchwyr bwyd lleol i gyflenwi'r diwydiant twristiaeth yn uniongyrchol, yn enwedig gyda chynhyrchion arbenigol. | • Cefnogi a thyfu cadwyni bwyd lleol, yn enwedig lle mae cynnyrch arbennigol yn cael ei ddatblygu<br>• Cefnogi datblygiad brandio rhanbarthol sy'n defnyddio cryfder brand y Parc Cenedlaethol.<br>• Gweithio gyda darparwyr llety hunanarlwyo ar gyfer taflen/canllawiau/gwybodaeth ddigidol am fwyd lleol yr ardal |
| *Twristiaeth Ansawdd Uchel a Wytnwch Cymunedau* | | |
| Dirywiad yn y cynnig twristiaeth oherwydd diffyg buddsoddiad a chyllid ar gyfer seilwaith ymwelwyr megis llwybrau troed a thrafnidiaeth. | Mae cael mwy o ymwelwyr sy'n aros yn Eryri, o'i gymharu â Pharciau Cenedlaethol eraill yn arwain at yr ail wariant uchaf gan bob ymwelwyd o holl Barciau Cenedlaethol y D.U., a gostyngiad cyffredinol mewn ymwelwyr diwrnod (er gwelwyd cynnydd bychan yn 2016).<br><br>Mae gwariant ar gynnydd (5.6%) a hefyd cynnydd yn y nifer o bobl a gyflogir o fewn y diwydiant twristiaeth (7.5%) | • Parhau i hysbysebu Eryri fel lleoliad i 'aros yn hwy' drwy er engraifft hyrwyddo cyfleoedd i brofi'r ystod eang o brofiadau hamdden awyr agored o ansawdd uchel dros benwythnos hir / wythnos. |

| **Heriau (problemau allweddol)**<br><br>A'u heffaith bosibl ar gyfer y 5 mlynedd nesaf a thu hwnt | **Cyfleoedd**<br><br>yn yr hinsawdd gyfredol a'u heffaith posib | **Y Ffordd Ymlaen Arfaethedig**<br><br>Sut bwriadwn ni a'n partneriaid fynd i'r afael â phroblemau allweddol a manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd |
|---|---|---|
| Ymwelwyr dydd (£43.95 y person) yn dod a gwariant is o'u cymharu ag ymwelwyr sy'n aros. | Llety â gwasanaeth a llety heb wasanaeth sydd yn dod â'r gwariant uchaf y pen<br><br>(heb ei wasanaethu = £286.55 y pen, yr arhosiad;<br><br>£44.02 y pen, y diwrnod –<br><br>llety â gwasanaeth = £156.91 y pen, yr arhosiad<br><br>£89.84 y pen y diwrnod.)<br><br>Llai o ymwelwyr dydd i Eryri (71%) na Pharciau Cenedlaethol eraill y DU (88%) | Cydweithio er mwyn:<br>o Cefnogi datblygiad a hyrwyddo llety safon uchel drwy'r C.D.Ll a march-nata/hyrwyddo perthnasol<br>o Annog ymwelwyr dydd i aros yn hwy a/neu ddefnyddio gwasanaethau mwy lleol<br>o Gweithredu mesurau i gynyddu gwariant y pen ar gyfer pob ymwe-lydd |
| *Ansawdd Bywyd Uchel a Wytnwch Cymunedau* | | |
| 60% o bobl leol wedi eu prisio allan o'r farchnad eiddo<br><br>Benthycwyr morgais yn anfodlon rhoi benthyg ar dai fforddiadwy. | | • Parhau i gydweithio i gefnogi Hwyluswyr Tai Gwledig er mwyn nodi anghenion tai fforddiadwy yn ein cymunedau, a datbly-gu dewisiadau i ddiwallu'r anghenion hyn<br>• Sicrhau bod polisïau'n hyrwyddo tai fford-diadwy a chyfleoedd cyflogaeth drwy'r Cynllun Datblygu Lleol.<br>• Gweithio gyda phartneriaid i sicrhau'r defnydd gorau o gyfraniadau ariannol tai fforddiadwy er mwyn cynorthwyo i ddar-paru tai fforddiadwy.<br>• Lobïo benthycwyr morgeisi i sicrhau bod cyllid ar gyfer tai fforddiadwy ar gael yn hawdd. |
| Canran uchel o stoc dai wedi eu hadeiladu cyn 1919 (8.3% heb wres canolog) | | • Annog gwell cefnogaeth er mwyn uw-chraddio systemau gwres canolog i sys-temau mwy cynaliadwy/adnewyddadwy ac insiwleiddio priodol ar gyfer cartrefi.<br>• Hyrwyddo a chefnogi gwella effeithlonr-wydd ynni adeiladau newydd a thraddo-diadol, mewn ffordd briodol ac yn unol â pholisi cynllunio. |
| | Cyfleoedd 'ffordd o fyw' y gall Eryri eu cynnig – yn enwedig i bobl ifanc, men-trus, creadigol a bywiog. | • Hyrwyddo Eryri fel lle ardderchog i bobl ifanc weithio a chael ffordd o fyw gwych. |

| **Heriau (problemau allweddol)**<br><br>A'u heffaith bosibl ar gyfer y 5 mlynedd nesaf a thu hwnt | **Cyfleoedd**<br><br>yn yr hinsawdd gyfredol a'u heffaith posib | **Y Ffordd Ymlaen Arfaethedig**<br><br>Sut bwriadwn ni a'n partneriaid fynd i'r afael â phroblemau allweddol a manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd |
|---|---|---|
| Mae llawer o gymunedau ymhell oddi wrth wasanaethau ac adnoddau. Gall hyn arwain at broblemau unigrwydd ac unigedd, a dirywiad mewn llesiant corfforol a meddyliol. | Defnyddio'r boblogaeth sydd wedi ymddeol - ar gyfer gwirfoddoli, rhedeg gwasanaethau cyhoeddus lleol a darparu cefnogaeth i wrthsefyll unigrwydd ac unigedd. | • Cefnogi prosiectau cymunedol lleol sydd yn annog y rhai hynny sydd wedi ymddeol i gynorthwyo gyda rhedeg gwasanaethau lleol.<br>• Annog cyfleoedd i gymdeithasu yn yr amgylchedd naturiol. Sicrhau fod unrhyw wybodaeth wedi'i rannu ar gyfer cynulleidfaoedd targed penodol.<br>• Cefnogi cadw cyfleusterau cymunedol a datblygu Canolfannau Croeso i fod yn ganolfannau cymunedol.<br>• Annog iaith fyw, a cryfhau ymdeimlad pobl o integreiddio'n gymdeithasol, trwy gefnogi ac annog digwyddiadau a grwpiau cymunedol sydd â chysylltiadau ag amgylchedd neu ddiwylliant yr ardal. |
| Poblogaeth yn heneiddio fwy-fwy yn cynyddu'r pwysau ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. | Defnyddio'r amgylchedd naturiol a chyfleoedd hamdden yn Eryri i wrthsefyll problemau iechyd a lleihau'r pwysau ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. | • Gweithio mewn partneriaeth ar gynlluniau a phrosiectau yn ymwneud ag iechyd a lles. |
| *Iaith a Diwylliant* | | |
| Gostyngiad yn nifer y siaradwyr Cymraeg.<br><br>Targed Llywodraeth Cymru i gynyddu siaradwyr Cymraeg i 1 miliwn erbyn 2050. | % y siaradwyr Cymraeg yn parhau yn uchel o gymharu gydag ardaloedd eraill Cymru | • Arwain y ffordd ar sicrhau bod yr iaith a'r diwylliant Cymraeg yn cael ei gefnogi a'i ddefnyddio trwy ddigwyddiadau, gweithgareddau, gwybodaeth a'n holl waith.<br>• Hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a threftadaeth a diwylliant Cymru trwy wasanaethau, dehongli, addysg a dulliau eraill. Cynyddu ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg fel iaith fyw. Gweithio i ail-ddiffinio disgwyliadau.<br>• Creu cynllun marchnata a chyfathrebu penodol ar gyfer y Gymraeg fel un o nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol.<br>• Hyrwyddo a chreu cyfleoedd i newydd-ddyfodiaid i'r ardal ddysgu Cymraeg.<br>• Creu cyfleoedd i siaradwyr a dysgwyr Cymraeg i gymdeithasu a defnyddio'r iaith. |

| **Heriau (problemau allweddol)**<br><br>A'u heffaith bosibl ar gyfer y 5 mlynedd nesaf a thu hwnt | **Cyfleoedd**<br><br>yn yr hinsawdd gyfredol a'u heffaith posib | **Y Ffordd Ymlaen Arfaethedig**<br><br>Sut bwriadwn ni a'n partneriaid fynd i'r afael â phroblemau allweddol a manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd |
|---|---|---|
| Mae ymfudiad allanol pobl ifanc a mewnfudiad pobl hŷn yn sialens o ran y boblogaeth. Mae angen sicrhau bod y diwylliant a'r iaith yn parhau i ffynnu, a'r rhai sy'n symud i'r ardal yn teimlo eu bod yn cael eu derbyn a'u croesawu i'r gymuned.<br><br>Mae'n bosib fod gan ymwelwyr ddiffyg ymwybyddiaeth a chysylltiad ag iaith a diwylliant yr ardal. | Mae galw, yn enwedig gan ymwelwyr Ewropeaidd, am fwy o gyfleoedd i brofi iaith a diwylliant yr ardal. | • Gweithio gyda sefydliadau celfyddydol a diwylliannol i dathlu iaith a diwylliant trwy brosiectau creadigol a diwylliannol Cymru.<br>• Archwilio a defnyddio'r dysgu o'r mudiad 'Dinasoedd Diwylliant' a chymhwyso'r syniad hwn mewn cyd-destun gwledig.<br>• Ystyried defnyddio ieithoedd Ewropeaidd a rhyngwladol ar wefannau ymwelwyr yn unol â phrif wledydd ein ymwelwyr.<br>• - Nod Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) Eryri yw annog datblygiad sy'n cefnogi bywiogrwydd yr Iaith Gymraeg ac yn diogelu cymunedau lleol rhag datblygiadau sy'n ansensitif i'w effaith ar yr iaith Gymraeg.<br>• Mae CDLl Eryri yn annog arwyddion gan gyrff cyhoeddus ac adeiladau busnes i fod yn ddwyieithog neu yn Gymraeg yn unig ac yn annog y defnydd o enwau lleoedd Cymraeg ar gyfer datblygiadau newydd, enwau tai, a strydoedd.<br>• Creu a cefnogi cyfleoedd i ymwelwyr gael eu trochi yn iaith a diwylliant yr ardal trwy gysylltiadau rhwng lletai ac addysgu. |

## Sut gall y camau a fwriedir gyfrannu tuag at amcanion lles cenedlaethol.

| Parc Cenedlaethol llewyrchus | Parc Cenedlaethol cadarn | Parc Cenedlaethol iachach | Parc Cenedlaethol mwy cyfartal Cenedlaethol mwy cyfartal | Parc Cenedlaethol gyda chymunedau cydlynus | Parc Cenedlaethol lle mae diwylliant a'r iaith Gymraeg yn ffynnu | Parc Cenedlaethol cyfrifol yn fydeang |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Mae Eryri yn cyfrannu tuag at gymdeithas carbon isel fentrus a chynhyrchiol, ac economi gyflawn.** | **Agwedd fentrus a chynaladwy er mwyn manteisio i'r eithaf ar adnoddau naturiol ac amgylchedd hanesyddol yr ardal tra'n gwarchod a gwella ei nodweddion arbennig.** | **Gwell cyfathrebu ynghylch seilwaith yn arwain at leihau unigedd.** | **Economi lewyrchus Eryri yn galluogi pobl o bob cefndir i gyflawni eu potensial.** | **Gwella hyfywedd a cysylltedd cymunedau trwy gefnogi pentrefi 'clyfar', sefydlu busnesau a sefydlu trefn trafnidiaeth werdd.** | **Trwy alluogi siaradwyr Cymraeg ifanc i ymgartrefu yn yr ardal, bydd y Gymraeg yn ffynnu.** | **Eryri yn gweithredu fel enghraifft o ymarfer gorau ymhlith cymunedau gwledig.** |

CWESTIWN YMGHYNGHORIAD

*Ydyn ni wedi nodi prif heriau a chyfleoedd y dyfodol i gymunedau ac economi Eryri? Ydych chi'n hapus â'r ffordd arfaethedig ymlaen neu a oes gennych unrhyw syniadau i'w hychwanegu?*

# Ein Gweledigaeth ar gyfer Parc Cenedlaethol Eryri

Mae'n bwysig edrych i'r dyfodol a cheisio dychmygu sut hoffem i'r Parc Cenedlaethol fod yn yr hir dymor – yn 2045 – sef ymhen 25 mlynedd.



# Parc Eryri yn 2045

Yng Nghynllun Rheoli Parc Cenedlaethol 2010-2015 datblygwyd 'datganiad gweledigaeth' gyda rhanddeiliaid sy'n disgrifio ein dyheadau ar gyfer y Parc Cenedlaethol:

Erbyn 2045, bydd Eryri'n parhau i fod yn dirwedd esblygol a gwarchodedig, yn cael ei diogelu a'i gwella i ddarparu amgylchedd naturiol gyfoethog, gwydn ac amrywiol; yn rhoi buddiannau lles yn genedlaethol a rhyngwladol.

Cyflawnir pwrpasau'r **Parc Cenedlaethol** trwy economi amrywiol a ffyniannus sydd wedi addasu i heriau newid mewn hinsawdd ac wedi ei seilio ar adnoddau naturiol - rhinweddau'r dirwedd, cyfleoedd i ddysgu a mwynhau, treftadaeth ddiwylliannol a naturiol. Gyda chymunedau dwyieithog bywiog a chynhwysol, bydd gweithio mewn partneriaeth wedi dangos y gellir cyflawni mwy trwy weithio gyda'n gilydd.

Bydd cymunedau wedi mabwysiadu atebion arloesol mewn byd sy'n newid - bydd economi carbon isel wedi cryfhau cysylltiad y preswylwyr gyda'r amgylchedd, gan roi gwell safon byw a sicrhau enw da Eryri fel **Parc Cenedlaethol** sy'n enwog yn rhyngwladol a lle i enaid gael llonydd.

Teimlwn fod y weledigaeth hon yn dal yn berthnasol heddiw ac felly rydym yn bwriadu ei mabwysiadu yng **Nghynllun Eryri** fel y weledigaeth ar gyfer Parc Cenedlaethol Eryri yn 2045.

# Mesur Llwyddiant

Felly beth yw'r weledigaeth hir dymor mewn manylder? Rydym wedi datblygu gweledigaeth ac amcanion manwl er mwyn disgrifio sut mae llwyddiant yn edrych. Rydym wedi ei ddatblygu drwy drafod gyda phartneriaid allweddol, rhanddeiliaid a chymunedau lleol. Yn yr adran flaenorol, rydym yn nodi'r hyn sydd yn gweithio, a'r hyn nad sy'n gweithio, a sut gallai pethau newid yn y dyfodol. Mae'r holl elfennau hyn wedi ein helpu i ddatblygu'r weledigaeth ac amcanion hirdymor manwl isod. Teimlwn bod hyn yn obeithiol ond yn bosibl.

## Llesiant Eryri

### Cyfleoedd twristiaeth, llesiant a hamddena cynaliadwy

Mae llwybrau o ansawdd uchel ac amrywiol yn darparu cyfleoedd dyddiol a chynhwysol i'r boblogaeth leol ac i ymwelwyr aros yn iach yn gorfforol ac yn feddyliol ac i werthfawrogi beth sy'n gwneud y Parc yn arbennig

Fel cyrchfan, caiff Eryri ei chydnabod yn rhyngwladol am ei diwylliant, ei threftadaeth a'i hiaith; ei bywyd gwyllt a thirluniau trawiadol; am y croeso cynnes a'r ecodwristiaeth

Mae Eryri yn enghraifft flaenllaw o sut y gall twristiaeth gynaliadwy ffynnu mewn tirlun a ddiogelir

Mae sefydliadau a chymunedau'n cydweithio i ddarparu atebion arloesol ac integredig i barcio a thrafnidiaeth gynaliadwy

Mae gwybodaeth gywir a diddorol am Eryri yn hygyrch i bobl leol ac ymwelwyr, ac mae'n meithrin parch tuag at gefn gwlad ac ar gyfer diwylliant yr ardal

Mae'r cynnig o weithgareddau a lletai amrywiol ansawdd uchel, addas i'r dirwedd drwy gydol y flwyddyn, yn sicrhau bod y pwysau'n cael eu lledaenu drwy'r flwyddyn a thrwy'r ardal - mae ymwelwyr yn aros yn hwy ac yn cynnig budd pellach i'r economi leol

## Amgylchedd Eryri

### Gofalu am ein hamgylchedd trawiadol


Mae cymunedau, busnesau ac ymwelwyr yn chwarae rhan weithredol wrth ofalu am gynefinoedd, bywyd gwyllt a'r amgylchedd

Mae Eryri yn ganolbwynt i ynni gwyrdd, addas a sympathetig wedi ei arwain gan y gymuned, trafnidiaeth werdd a phrosiectau adeiladu gwyrdd

Mae Eryri ar flaen y gad yn rhyngwladol wrth fynd i'r afael â rhywogaethau ymledol, a chefnogi a gwarchod cynefinoedd, rhywogaethau ac ecosystemau gwydn

Mae sector newydd a ffyniannus wedi dod i'r amlwg drwy gyfrwng y Taliad am Wasanaethau Ecosystem sy'n ceisio diogelu a gwella adnoddau naturiol yr ardaloedd ac yn darparu incwm hyfyw i reolwyr tir

Gyda chymorth **Cynllun Eryri**, mae'r sectorau cadwraeth, amaethyddiaeth a choedwigaeth yn gweithio gyda'i gilydd i gynhyrchu cynnyrch a gwasanaethau o ansawdd uchel o dirwedd hardd sy'n gyfoethog ei bioamrywiaeth




## Cymunedau ac Economi Eryri

### Lle gwych i ddatblygu, byw a gweithio

Mae Eryri yn enghraifft flaenllaw o sut i ddathlu, cefnogi a chryfhau iaith a diwylliant ardal, ag ymateb i'r her o lleihad yn y nifer o siaradwyr Cymraeg.

Anogir seilwaith cyfathrebu sy'n sensif i'r dirwedd er mwyn galluogi busnesau i ffynnu, ac mae'r Bartneriaeth yn gweithio'n weithredol i ddenu busnesau digidol newydd i'r ardal

Anogir busnesau yn Eryri i fod â chynaliadwyedd a chyfrifoldeb cymdeithasol wrth wraidd yr hyn a wnânt. Mae'r sectorau nwyddau lleol gwyrdd a moesegol, amgylcheddol a chynaliadwy yn cael eu cefnogi ac maent yn ffynnu

Mae pobl Eryri yn mwynhau bywyd o ansawdd uchel o achos eu cymunedau cryf ac amrywiol a'r amgylchedd hardd

Mae'r Bartneriaeth yn gefnogol ac yn annog marchnad swyddi a chyfleoedd o ansawdd uchel gyda'r nod o gynyddu incwm cyfartalog yr ardal. O ganlyniad, mae pobl ifanc a theuluoedd talentog yn ymgartrefu yn yr ardal

CWESTIWN YMGHYNGHORIAD

*Oes yna unrhyw amcanion yr hoffech eu newid? Oes yn unrhyw amcanion ar goll?*

# Sut y bwriadwn gyflawni'r weledigaeth

Yn dilyn yr ymgynghoriad hwn, ac wedi i ni archwilio'r holl sylwadau a'r mewnbwn, byddwn ni a'n partneriaid yn dechrau sefydlu'r ffordd ymlaen. Trwy gyfrwng **Fforwm Eryri**, byddwn yn gweithio'n agos gyda phartneriaid er mwyn datblygu cynllun gweithredu gyda diffiniadau eglur a dangosyddion penodol er mwyn cyflawni'r weledigaeth a gweithredu'r **Cynllun Eryri**.

Bydd y cynllun gweithredu yn gosod y gwaith y bydd angen i ni a'n partneriaid ei wneud er mwyn cyflawni'r weledigaeth, yr adnoddau fydd eu hangen a phwy fydd yn arwain ar – ac yn cyfrannu tuag at - bob prosiect.

Bydd y dangosyddion yn gosod targedau clir a mesuradwy fel y gallwn ni fel partneriaid eu hadolygu a chyflwyno adroddiad ar y cynnydd yn flynyddol, ac addasu os bydd angen.

CWESTIWN YMGHYNGHORIAD

*A oes gennych unrhyw sylwadau ar sut bwriadwn gyflawni'r weledigaeth hirdymor ar gyfer Eryri?*

# Ymchwil pellach a chasglu tystiolaeth

Mae cywain yr holl ddata am y Parc Cenedlaethol wedi bod yn broses ddefnyddiol iawn. Mae wedi rhoi i ni ddarlun clir o'r sefyllfa bresennol. Mae hefyd wedi dangos i ni ym mhle mae problemau yn ogystal â chyfleoedd. Fodd bynnag, mae yna rai bylchau yn y data. Mae'r rhai hyn wedi eu hadnabod, a byddwn yn gweithio gyda sefydliadau sydd yn rhan o Fforwm Eryri, ac sydd â chylch gorchwyl ym maes addysg ac ymchwil, i edrych ar gyfleoedd ar gyfer rhagor o ymchwil i'r bylchau hyn.

Bydd y **datganiadau ardal** y mae **Cyfoeth Naturiol Cymru** yn eu cynhyrchu hefyd yn rhoi i ni wybodaeth werthfawr am ardal y Parc Cenedlaethol. Lle bydd yr amserlen yn caniatau, byddwn yn cynnwys unrhyw wybodaeth newydd neu ddefnyddiol o'r datganiadau ardal yng **Nghynllun Eryri**.

# Llyfryddiaeth

## Tudalen 24-25

### Amgylchedd Eryri

Cadwraeth Natur

Cyfoeth Naturiol Cymru (2017). Mapiau o safleoedd arbennig ac ardaloedd gwarchodedig. CNC [ar-lein]. Ar gael https://naturalresources.wales/evidence-and-data/maps/map-of-special-sites-and-protected-areas-of-land-and-seas/?lang=en [Mynediad 1 Hydref 2017]

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (2017). Bioamrywiaeth yn Eryri. [ar-lein] Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri. Ar gael: http://www.snowdonia.gov.wales/looking-after/biodiversity/biodiversity-in-snowdonia?name= [Mynediad 1 Hydref 2017]

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (2008). Strategaeth Rhododendron. [ar-lein] Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri. Ar gael: http://www.snowdonia.gov.wales/__data/assets/pdf_file/0020/68600/Rhododendron-Strategy-Final.pdf [Mynediad 1 Hydref 2017].

ARUP (2013). Rhoi gwerth i Barciau Cenedlaethol Cymru . [ar-lein]. Ar gael: http://www.nationalparkswales.gov.uk/__data/assets/pdf_file/0009/389727/Valuing-Wales-National-Parks-.pdf [Mynediad 1 Hydref 2017].

Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol, Cyflwyno Rhywogaethau Ymledol [Mynediad 14 Mawrth 2013]

## Tudalen 26

Ardaloedd o fawn o fewn y Parc

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (2017). Adroddiad Strategaeth Mawn. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri .

ARUP (2013). Rhoi gwerth i Barciau Cenedlaethol Cymru. [ar-lein]. Ar gael: http://www.nationalparkswales.gov.uk/__data/assets/pdf_file/0009/389727/Valuing-Wales-National-Parks-.pdf [Mynediad 1 Hydref 2017].

## Tudalen 27

Astudiaeth achos: Lleihau Allyriadau trwy ffermio yn Awstralia

Llywodraeth Awstralia (2017). Cronfa Lleihau Allyriadau. [ar-lein] Llywodraeth Awstralia. Ar gael: http://www.environment.gov.au/climate-change/government/emissions-reduction-fund [Mynediad 1 Hydref 2017].

## Tudalen 28

LANDMAP

Cyfoeth Naturiol Cymru (2017). LANDMAP [ar-lein]. Ar gael: https://landmap-maps.naturalresources.wales/ [Mynediad 1 Hydref 2017].

Coedlannau

Comisiwn Coedwigaeth (2012). Deallt y cydbwysedd carbon a nwyon tŷ gwydr coedwigoedd ym Mhrydain. Comisiwn Coedwigaeth.

## Tudalen 29

### Ynni a Gwastraff

Defnydd dŵr yn y cartref

Dŵr Cymru (2016). Amcangyfrif defnydd o ddŵr yn y cartref (litr y pen y dydd). Dŵr Cymru.

Defnydd nwy domestig

Adran Ynni a Newid Hinsawdd (DECC) (2016). Domestic electricity and gas used (GWh). [ar-lein]. Ar gael:

http://www.infobasecymru.net/IAS/themes/environmentandsustainability/environment/report?reportId=1&viewId=44&geoReportId=14907&geoId=1&geoSubsetId= [Mynediad 1 Hydref 2017].

Y defnydd o domestig  oriau cilowat ar gyfartaledd

Adran Ynni a Newid Hinsawdd (DECC) (2016). Defnydd domestig o trydan a nwy (GWh) 2016. [ar-lein]. Ar gael: http://www.infobasecymru.net/IAS/themes/environmentandsustainability/environment/report?reportId=1&viewId=44&geoReportId=14907&geoId=1&geoSubsetId=  [Mynediad 1 Hydref 2017].

Target Ailgylchu Cymru

BBC News (2017). Cymru'n cwrdd â tharged ailgylchu bedair blynedd yn gynnar. [ar-lein] BBC News Cymru. Ar gael:  http://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-41037531 [Mynediad 1 Hydref 2017].

Gwastraff a gafodd ei ailddefnyddio, ei gompostio neu ei ailgylchu

Stats Wales (2017). Gwastraff Trefol Awdurdod Lleol. [ar-lein]. Llywodraeth Cymru . Ar gael https://statswales.gov.wales/Catalogue/Environment-and-Countryside/Waste-Management/Local-Authority-Municipal-Waste  [Mynediad 1 Hydref 2017].

## Tudalen 30

Ynni Adnewyddadwy

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (2017). Adroddiad Monitro Blynyddol. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.

Defnyddio a chynhyrchu ynni yn Eryri

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (2017). Cynllun Datblygu Lleol Eryri: Asesiad Ynni Adnewyddadwy. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.

## Tudalen 32

Teithio i'r gwaith

Swyddfa Ystadegau Gwladol(2013). Cyfrifiad y DU 2011. ONS [ar-lein]. Ar gael https://www.ons.gov.uk/census/2011census/2011ukcensuses [Mynediad 1 Medi 2017] .

Zap Map (2017). Pwyntiau gwefru. [ar-lein] Zap Map. Ar gael:  https://www.zap-map.com/  [Mynediad 1 Hydref 2017].

Ansawdd Awyr

Cyfoeth Naturiol Cymru (2017). Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus – Gwynedd/Conwy – Gwybodaeth amgylcheddol ar gyfer asesiadau llesiant. CNC.

## Tudalen 33

Green coast awards

Y Canllaw Traethau (2017). Gwobr Traethau Glas 2017. [ar-lein]. Ar gael: https://www.thebeachguide.co.uk/best-beaches/green_coast_award.htm [Mynediad 1 Medi 2017].

Safon dwr

Cyfoeth Naturiol Cymru (2017). Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus – Gwynedd/Conwy – Gwybodaeth amgylcheddol ar gyfer asesiadau llesiant. CNC.

Newid Hinsawdd

Lloyd, D.S., Turner, A.J., Skates, J. Easter, J. and Bowmaker, V. (2011) Yr Wyddfa Snowdon Environmental Change Network: 15 mlynedd o fonitro ar yr Wyddfa. Cyngor Cefn Glwad Cymru, Bangor. Ar gael: http://www.ecn.ac.uk/publications/snowdon-15-years [Mynediad 1 Medi 2017].

## Tudalen 34

Astudiaeth achos: Taliad ar gyfer Gwasanaethau Ecosystem

UEA (2013). Taliad ar gyfer Prosiect Peilot Gwasanaethau Ecosystem: Arwerthiant Gwella Afon Fowey. UEA.

## Tudalen 35

Amaeth

Incwm ffermio mynydd

Prifysgol Aberystwyth (2016). Arolwg Busnes Ffermydd yng Nghymru: Canllaw llyfryn incwm fferm 2015/16. [ar-lein]. Ar gael https://www.aber.ac.uk/en/media/departmental/ibers/pdf/farmbusinesssurvey/booklets/FBS_Booklet_Eng_1516.pdf [Mynediad 10 Feb. 2017]

Fermydd yn Eryri

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (2017).

Swyddi yn y sector amaeth

Llywodraeth Cymru (2017). Ffeithiau a Ffigurau Ffermio, Cymru 2017. [ar-lein]. Ar gael http://gov.wales/docs/statistics/2017/170620-farming-facts-figures-2017-en.pdf [Mynediad 1 Medi 2017]

Dosbarthiad tir amaethyddol

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (2008). Dosbarthiad Tir Amaethyddol ar gyfer y Parc Cenedlaethol 2008. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.

## Tudalen 36

Cyflwr henebion cofrestredig ym Mharc Cenedlaethol Eryri

CADW (2017). Cyflwr henebion cofrestredig ym Mharc Cenedlaethol Eryri. CADW.

Adeiladau rhestredig

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (2017). Data adeiladau rhestredig. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.

Ardaloedd cadwraeth

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (2017). Ardaloedd Cadwraeth. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.

Adeiladau rhestredig y Parc Cenedlaethol sydd mewn perygl

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (2017). Adeiladau rhestredig y Parc Cenedlaethol sydd mewn perygl. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.

CADW (2017). Canllawiau ar Adeiladau mewn Perygl. [ar-lein]. Ar gael: http://cadw.gov.wales/docs/cadw/publications/historicenvironment/20170531Managing%20Listed%20Buildings%20at%20Risk%20in%20Wales%2031144%20EN.pdf [Mynediad 1 Feb. 2018].

## Tudalen 37

Ardaloedd tawel

Cyfoeth Naturiol Cymru (2017). Ardaloedd tawel yn Eryri 2009. Cyfoeth Naturiol Cymru.

Awyr dywyll

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (2017). Ardal craidd y warchodfa Awyr Dywyll yn Eryri. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.

## Tudalen 46-47

Iechyd a Lles

Llwybrau a Mynediad

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (2016). Ffigyrau monitor ymwelwyr 2016. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.

## Tudalen 48-49

### Lles corfforol a meddyliol

Iechyd da/problemau iechyd

Swyddfa Ystadegau Gwladol(2013). Cyfrifiad y DU 2011. ONS [ar-lein]. Ar gael: https://www.ons.gov.uk/census/2011census/2011ukcensuses [Mynediad 1 Sept. 2017]

Oedolion sydd yn or-dew

Swyddfa Ystadegau Gwladol(2013). Cyfrifiad y DU 2011. ONS [ar-lein]. Ar gael https://www.ons.gov.uk/census/2011census/2011ukcensuses [Mynediad 1 Sept. 2017].

Grwpiau Cerdded

Ramblers (2017). Dod o hyd i'ch taith gerdded iechyd agosaf. Cerdded ar gyfer Iechyd [ar-lein]. Ar gael: https://www.walkingforhealth.org.uk/walkfinder [Mynediad 1 Sept. 2017].

Iechyd Meddwl

Gwynedd & Conwy Councils (2017). Asesiadau lles. [ar-lein]. Ar gael: http://conwyanddenbighshirelsb.org.uk/en/home/english-wellbeing-assessment/ and https://www.llesiantgwyneddamon.org/en/Asesiad-Llesiant/Gwynedd/ [Mynediad 1 Feb. 2018].

## Tudalen 50-51

Defra (2017). Y tu hwnt i ofodau gwyrdd. [ar-lein]. Ar gael: https://beyondgreenspace.files.wordpress.com/2017/03/evidence-statement-on-the-links-between-natural-environments-and-human-health1.pdf [Mynediad 1 Feb. 2018].

ARUP (2013). Rhoi gwerth i Barciau Cenedlaethol Cymru. [ar-lein]. Ar gael: http://www.nationalparkswales.gov.uk/__data/assets/pdf_file/0009/389727/Valuing-Wales-National-Parks-.pdf [Mynediad 1 Hydref 2017].

UKNEA (2017). Ecosystemau'r DU. [ar-lein]. Ar gael: http://uknea.unep-wcmc.org/LinkClick.aspx?fileticket=l0%2fZhq%2bgwtc%3d&tabid=82 [Mynediad 1 Feb. 2018].

## Tudalen 54

### Twristiaeth a Hamdden

Rhifau ymwelwyr

STEAM (2015). Parc Cenedlaethol Eryri, Monitro Gweithgarwch Economaidd Twristiaeth Scarborough. STEAM.

Rhifau ymwelwyr mewn manylder

STEAM (2015). Parc Cenedlaethol Eryri, Monitro Gweithgarwch Economaidd Twristiaeth Scarborough. STEAM.

Ymwelwyr i'r Wyddfa

Llywodraeth Cymru (2016). Wales Visitor Attraction Survey 2015. Llywodraeth Cymru [PDF]. Ar gael http://gov.wales/docs/statistics/2016/161213-welsh-agricultural-statistics-2015-ency.pdf [Mynediad 29 Aug 2017].

## Tudalen 55

Llety

STEAM (2015). Parc Cenedlaethol Eryri, Monitro Gweithgarwch Economaidd Twristiaeth Scarborough. STEAM.

Cyngor Gwynedd (2012). Archwiliad cyrchfan a marchnata Gwynedd.Cyngor Gwynedd.

## Tudalen 56

Tueddiadau Ymwelwyr

Pye.H a Wynne-Jones, B (2016). Arolwg Ymwelwyr Yr Wyddfa 2015. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.

Beaufort Research (2016). Adroddiad Ymchwil Arolwg Ymwelwyr Cymru 2016. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.

Canolfannau Ymwelwyr

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (2017). Ffigyrau monitor Canolfannau Croeso. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Pye.H a Wynne-Jones, B (2016). Arolwg Ymwelwyr Yr Wyddfa 2015. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.

STEAM (2015). Parc Cenedlaethol Eryri, Monitro Gweithgarwch Economaidd Twristiaeth Scarborough. STEAM.

## Tudalen 62

### Economi a Cymuned Eryri

Swyddfa Ystadegau Gwladol (2013). Cyfrifiad y DU 2011. ONS [ar-lein]. Ar gael https://www.ons.gov.uk/census/2011census/2011ukcensuses  [Mynediad 1 Sep. 2017]

Llywodraeth Cymru  (2014). Amcangyfrif o newid poblogaeth ym Mharciau Cenedlaethol Cymru - 2014. Llywodraeth Cymru .

Baxter, J and Boyce, S (2008). Poblogaeth sy'n heneiddio. Llywodraeth Cymru [ar-lein]. Ar gael: http://www.assembly.wales/NAfW%20Documents/ki-020.pdf%20-%2003112011/ki-020-English.pdf [Mynediad 1 Med. 2017]

## Tudalen 63

Ymfudiad

Stats Wales (2017). Poblogaeth ac ymfudiad. Llywodraeth Cymru . Ar gael https://statswales.gov.wales/Catalogue/Population-and-Migration/Migration/Internal [Mynediad Sept. 2017].

Gwlad Genedigol

Swyddfa Ystadegau Gwladol(2013). Cyfrifiad y DU 2011. ONS [ar-lein]. Ar gael https://www.ons.gov.uk/census/2011census/2011ukcensuses [Mynediad Sept. 2017].

Iaith Gymraeg

Swyddfa Ystadegau Gwladol(2013). Cyfrifiad y DU 2011. ONS [ar-lein]. Ar gael https://www.ons.gov.uk/census/2011census/2011ukcensuses [Mynediad Sept. 2017].

Cyngor Gwynedd (2015). Topic 10: Yr Iaith Gymraeg a Diwylliant [ar-lein]. Ar gael: https://www.gwynedd.llyw.cymru/en/Council/Documents---Council/Strategies-and-policies/Environment-and-planning/Planning-policy/Supporting-documents/Supporting-documents-2015/Welsh-Language-and-Culture.pdf [Mynediad Med. 2017].

## Tudalen 64

Sector Cyflogaeth

Swyddfa Ystadegau Gwladol(2013). Cyfrifiad y DU 2011. ONS [ar-lein]. Ar gael https://www.ons.gov.uk/census/2011census/2011ukcensuses [Mynediad Sept. 2017].

Stats Wales (2017). Cyflogaeth preifat a cyhoeddus. Llywodraeth Cymru [ar-lein]. Ar gael https://statswales.gov.wales/Catalogue/Business-Economy-and-Labour-Market/People-and-Work/Employment/Persons-Employed/publicprivatesectoremployment-by-welshlocalauthority-statuss [Mynediad Sept. 2017].

Diweithdra

Swyddfa Ystadegau Gwladol (2013). Cyfrifiad y DU 2011. ONS [ar-lein]. Ar gael https://www.ons.gov.uk/census/2011census/2011ukcensuses [Mynediad Sept. 2017].

Incwm y teulu

CACI (2017). Data incwm. CACI.

Hunan-gyflogedig

Swyddfa Ystadegau Gwladol(2013). Cyfrifiad y DU 2011. ONS [ar-lein]. Ar gael https://www.ons.gov.uk/census/2011census/2011ukcensuses [Mynediad Sept. 2017].

Henley, A., & Lang, M. (2017). Mynd yn Unigol: Deall Hunangyflogaeth yng Nghymru. Ffederasiwn Busnesau Bach.

Incwm Dwyfor Meirionnydd

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Mon (2017). Asesiad Llesiant Gwynedd 2017. Cyngor Gwynedd.

Strwythyr oed hunan-gyflogedig

Henley, A., & Lang, M. (2017). Mynd yn Unigol: Deall Hunangyflogaeth yng Nghymru. Ffederasiwn Busnesau Bach.

Swyddi yn gysylltiedig a'r amgylchedd

ARUP (2013). Rhoi gwerth i Barciau Cenedlaethol Cymru. . [ar-lein]. Ar gael: http://www.nationalparkswales.gov.uk/__data/assets/pdf_file/0009/389727/Valuing-Wales-National-Parks-.pdf [Mynediad 1 Hydref 2017].

Teithio i'r gwaith

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Mon (2017). Asesiad Llesiant Gwynedd 2017. Cyngor Gwynedd.

## Tudalen 65

Effaith economaidd

STEAM (2015). Parc Cenedlaethol Eryri, Monitro Gweithgarwch Economaidd Twristiaeth Scarborough. STEAM.

Unedau Masnach

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (2017). Papur Cefndir Asesiad Manwerthu 12. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.

Amcan gwariant ymwelwyr

STEAM (2015). Parc Cenedlaethol Eryri, Monitro Gweithgarwch Economaidd Twristiaeth Scarborough. STEAM.

## Tudalen 66-67

Swyddfa Ystadegau Gwladol (2013). Cyfrifiad y DU 2011. ONS [ar-lein]. Ar gael https://www.ons.gov.uk/census/2011census/2011ukcensuses [Mynediad Sept. 2017].

Eryri Bywiol (2009). Gweledigaeth a Chynllun Gweithredu ar gyfer Sector Awyr Agored Gogledd Cymru 2009-2015. Eryri Bywiol. Ar gael: http://www.snowdonia-active.com/upload/documents/North%20Wales%20Outdoor%20Sector%20Report%201-2.pdf [Mynediad 3 Mai 2018]

Lantra (2011). Diwydiannau Amgylcheddol a Tir [ar-lein]. Ar gael: https://www.lantra.co.uk/sites/default/files/LMI%20Factsheet%20Wales%20%282010-11%29.pdf [Mynediad Med. 2017].

## Tudalen 68

Astudiaeth achos: Y gyfrinach i hapusrwydd

OECD (2017). Mynegai Bywyd Gwell. [ar-lein]. OECD. Ar gael: http://www.oecdbetterlifeindex.org [Mynediad Sept. 2017].

## Tudalen 70

Perchnogaeth ail-dai

Cofrestrfa Tir EM (2016). Data Pris a Dalwyd. Cofrestrfa Tir EM.

Adran Ymchwil a Polisi Cyngor Gwynedd (2017). Data ac Ystadegau Treth Tai y Cyngor 2017. Cyngor Gwynedd.

Pobl leol yn cael eu prisio allan o'r farchnad

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Mon (2017). Asesiad Llesiant Gwynedd 2017. Cyngor Gwynedd.

Beth yw effeithiau a gwerth perchenogaeth ail gartref?

Prifysgol Exeter (2015). Lle yn y wlad: Cost berchnogaeth ail dai. Cyngor Gogledd Devon.

Y cynllun ar gyfer tai fforddiadwy

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (2017). Cynllun Datblygu Lleol. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.

## Tudalen 71

Ymgysylltedd Band-eang

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Mon (2017). Asesiad Llesiant Gwynedd 2017. Cyngor Gwynedd.

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych (2017) Asesiad o les lleol. Cyngor Conwy.

BIG (2017). Band Eang 2.0: Yr achos dros digolledu cwsmeriaid band eang yn awtomatig.BIG. Ar gael: http://www.britishinfrastructuregroup.uk/wp-content/uploads/2017/07/Broadbad-2.0-Final-2.pdf [Mynediad Sept. 2017].

Mynediad i Wasanaethau

Llywodraeth Cymru (2014). Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2014. [ar-lein]. Ar gael: http://www.infobasecymru.net/IAS/themes/communities,equalitiesandlocalgovernment/deprivation/welshindexofmultipledeprivation2014/report?reportId=156&viewId=1600&geoReportId=14744&geoId=78&geoSubsetId= [Mynediad Sept. 2017].

Swyddfa Ystadegau Gwladol (2013) Cyfrifiad y DU 2011. ONS [ar-lein]. Ar gael https://www.ons.gov.uk/census/2011census/2011ukcensuses [Mynediad Sept. 2017].

## Tudalen 93

Cynllun Adfer Natur

Llywodraeth Cymru (2015). Cynllun Adfer Natur. Llywodraeth Cymru. [ar-lein]. Ar gael: http://gov.wales/topics/environmentcountryside/consmanagement/conservationbiodiversity/?skip=1&lang=en [Mynediad Jan. 2018].

# Atodiadau

# **Atodiad 1:** Y berthynas gyda pholisïau a chynlluniau eraill

**Cyfarwyddeb AAS y Comisiwn Ewropeaidd - Asesiad Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) Rheoliadau 2004**

Arfarniad Cynaladwyeddedd ac Asesiad Amgylcheddol Strategol

**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

Datblygu cynaladwyedd.
Cynlluniau lles lleol drwy'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus

**Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016**

Rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.
Datganiadau Ardal:
- Ynni Cymru: Trawsnewid Carbon isel
-Polisi Adnoddau Naturiol CNC

**Deddf Llywodraeth Leol 2000**

Strategaethau cymunedol

**Deddf yr Amgylchedd 1995**

Adran 62

**Deddf Cydraddoldeb 2010**

Asesiad Effaith Cydraddoldeb

**Cyfarwyddeb Cynefinoedd yr UE Asesiad**

Rheoliadau Cynefinoedd.

**Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013**

**Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol**

(Cymru) 2016

**Cynllun Datblygu Lleol**

Cynllunio defnydd tir o fewn y Parc Cenedlaethol

**Cynllun Eryri**
Gweithredu darpariaethau statudol Deddf yr Amgylchedd 1995 yn ardal ddaearyddol y Parc Cenedlaethol

**Cynlluniau, strategaethau a datganiadau rhanbarthol**

Cynlluniau llesiant
Gweledigaeth Twf ar gyfer Gogledd Cymru
Cynllun Trafnidiaeth Lleol ar y Cyd Gogledd Cymru a Symud Gogledd Cymru Ymlaen
Cynlluniau Rheoli Cyrchfan

**Strategaethau a chynlluniau gweithredu APC**

Cynllun Corfforaethol
Rhaglen Waith Gorfforaethol
Strategaeth hamdden
Strategaeth gyfathrebu

Prosiectau, protocolau a chytundebau rhwng yr APC a Phartneriaid

**Cynlluniau a strategaethau corfforaethol partneriaid**

# **Atodiad 2:** Partneriaid Cynllun Eryri

Bydd y sefydliadau canlynol yn gweithio gyda ni i ddatblygu a gweithredu **Cynllun Eryri**:

- Cyngor Gwynedd
- Cyngor Bwrdeistref Conwy
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Croeso Cymru
- Un Llais Cymru
- Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru
- Undeb Amaethwyr Cymru
- Tegwch i'r Ucheldiroedd
- Undeb Cenedlaethol y Ffermwyr
- Cadw
- Cynrychiolwyr o fudiad ieuenctid (Yr Urdd a Ffermwyr Ifanc)
- Partneriaeth Awyr Agored Gogledd Cymru
- Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Cynrychiolydd o'r sector cyfleustodau (Grid Cenedlaethol)
- Cynrychiolydd ar gyfer y sector busnes (Ffederasiwn Busnesau Bach)
- Cymdeithas Eryri
- Cynrychiolwyr o'r sector cadwraeth
- Cynrychiolwyr o'r sector addysg - Prifysgol Bangor a Grwp Llandrillo Menai
- Cynrychiolwyr o'r sector twristiaeth (WATO a Thwristiaeth Gogledd Cymru)

# **Atodiad 3:** amcanion ar gyfer adfer natur o fewn y Cynllun Adfer Natur

Mae nifer o amcanion wedi'u gosod er mwyn mynd i'r afael â'r materion sy'n sbarduno'r dirywiad yn ein bioamrywiaeth, ac i'w helpu i ymadfer.

- Amcan 1: Ennyn a chefnogi cyfranogiad a dealltwriaeth er mwyn i fioamrywiaeth fwrw gwreiddiau yn y broses benderfynu ar bob lefel.
- Amcan 2: Diogelu rhywogaethau a chynefinoedd sydd o'r pwys mwyaf a'u rheoli'n well
- Amcan 3: Gwneud ein hamgylchedd naturiol yn fwy cydnerth drwy adfer cynefinoedd sydd wedi'u diraddio a chreu cynefinoedd
- Amcan 4: Mynd i'r afael â'r prif bwysau ar rywogaethau a chynefinoedd
- Amcan 5: Gwella ein tystiolaeth, ein dealltwriaeth a'n gwaith monitro
- Amcan 6: Rhoi fframwaith llywodraethu a chymorth ar waith i gyflawni'r amcanion



